# Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk



# Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm

**Cynulleidfa** Athrawon ac uwch reolwyr ysgolion uwchradd; awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn cynnig cymorth i athrawon adnabod a hybu uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae'n cynnwys esiamplau o waith dysgwyr mewn pedwar pwnc (celf a dylunio, daearyddiaeth, dylunio a thechnoleg a hanes) sy'n dangos nodweddion o Lefelau 7 i Berfformiad Eithriadol y cwricwlwm cenedlaethol yn y pynciau hynny. Ceir sylwebaeth bynciol ar yr enghreifftiau yn ogystal â sylwebaeth sy'n tynnu sylw at nodweddion o uwch sgiliau llythrennedd yn y gwaith.

Mae'r deunyddiau hyn yn seiliedig ar arfer dda mewn adrannau celf a dylunio, daearyddiaeth, dylunio a thechnoleg a hanes ar draws Cymru. Byddan nhw'n gymorth i gefnogi dysgu, addysgu ac asesu llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

**Camau i'w cymryd** Gofynnir i uwch reolwyr ac arweinwyr pwnc ysgolion ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol dynnu sylw adrannau ysgolion at yr adnodd newydd hwn, gan annog athrawon i ddefnyddio'r deunyddiau i gefnogi eu ffocws ar gadarnhau a gwella sgiliau llythrennedd dysgwyr.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0800 083 6003
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** *Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr*; *Gwerthfawrogi deunyddiau anllenyddol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0108
ISBN: 978 0 7504 5451 3
A-EAC-02-01-qA823350/1/PG
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010

# Cynnwys

**Rhagair** 2

**Cyflwyniad** 3

Pam mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu? 3
Sut mae'r canllawiau hyn yn cefnogi athrawon ym mhob un pwnc? 3
Beth sy'n nodweddu uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu? 5
Sut mae'r canllawiau hyn yn helpu athrawon i baratoi dysgwyr ar gyfer gofynion Cyfnod Allweddol 4? 7
Rôl y cydlynydd llythrennedd 8

**Adran 1** 11

Crynhoad – agweddau ar lythrennedd

**Adran 2** 25

Enghreifftiau pwnc benodol

**Celf a dylunio** 26

1. Astudiaeth o waith Giacomo Balla a David Hockney a'r ymateb iddyn nhw 26
2. Astudiaeth o waith Barbara Kruger a Banksy ac ymateb i'r gwaith hwnnw 33
3. Dadansoddi darn o waith gan Ogwyn Davies 40

**Daearyddiaeth** 50

1. Ymchwiliad unigol ar y thema 'Tsunami Cefnfor India 2004' 50
2. Ymchwiliad unigol ar y thema 'Effeithiau Cynhesu byd-eang ar ynysoedd y Maldives?' 66

**Dylunio a thechnoleg** 80

1. Hetiau doniol 80
2. Prosiect Ymchwil Bwyta'n Iach 92
3. Prosiect Cynllunio Clochwynt 99

**Hanes**

1. 'Y Diwydiant Glo oedd diwydiant pwysicaf Cymru am ganrif a hanner: dylai ei hamgueddfeydd fod yn fwy nag atynfa i dwristiaid. Dylent goffau holl weithwyr dewr y diwydiant.' Ydy Amgueddfa'r Pwll Mawr yn ddehongliad teilwng o'r diwydiant glo yn eich barn chi? 110
2. 'Pa mor bwysig yw hanes La Amistad yn y frwydr am hawliau sifil yn yr UDA?' 116
3. 'Sut yr effeithiodd technoleg ar gwrs y ddau ryfel byd yn yr ugeinfed ganrif?' 126

**Cyfeiriadau defnyddiol** 132

**Cydnabyddiaethau** 136

# Rhagair

Mae sgiliau llythrennedd da yn sylfaen i ddysgu effeithiol ar gyfer pob dysgwr, pa beth bynnag maen nhw'n ei astudio. Mae'r sgiliau hyn yn cefnogi cyfathrebu effeithiol, ac yn cymhwyso dysgwyr ar gyfer cyflawniad a llwyddiant yn eu haddysg, gogyfer â bywyd yn y gymuned ehangach a'r byd gwaith.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae datblygu a gwella sgiliau llythrennedd wedi'i integreiddio i'r holl addysgu. Mae tystiolaeth arolygon Estyn, fodd bynnag, yn dangos mai nifer fach o ddysgwyr Cymru sydd yn cyrraedd y safonau uchaf. Mae canlyniadau asesiadau cenedlaethol a rhyngwladol – TGAU a PISA yn benodol – yn nodi bod modd i ddysgwyr mwyaf galluog Cymru fanteisio ymhellach ar ddefnyddio sgiliau darllen ac ysgrifennu cadarnach ym mhob pwnc.

Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi athrawon sy'n gweithio gyda dysgwyr galluog yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i'w cynorthwyo i gyflawni gwell canlyniadau ar draws ystod o bynciau ar ddiwedd Blwyddyn 9, yn eu harholiadau TGAU a thu hwnt.

Datblygwyd y deunyddiau hyn mewn cydweithrediad â chydlynwyr ac arbenigwyr pwnc. Mae adborth oddi wrth ysgolion ac awdurdodau lleol yn cadarnhau bod y canllaw penodol hwn yn amserol ac yn addas. Mae'n bleser gen i argymell y llyfryn hwn i bob ysgol ac awdurdod lleol ac i gadarnhau ein cefnogaeth i uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm fel rhan o'r ffocws ar ysgolion effeithiol.



**David Hawker**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

# Cyflwyniad

## Pam mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi ymrwymo i gefnogi ysgolion wrth iddyn nhw godi safonau llythrennedd pob dysgwr. Mae cefnogaeth yn cael ei roi i sgiliau sylfaenol. Yn y canllawiau hyn, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau llythrennedd y dysgwyr mwyaf galluog ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

Mae adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2007–08 yn tynnu sylw at dangyflawni lle nad yw'r dysgwyr mwyaf galluog yn cyrraedd eu llawn botensial. Mae athrawon yn dueddol o ganmol dysgwyr sy'n cynhyrchu gwaith ar lefel uchel (er enghraifft gwaith sy'n dangos nodweddion o Lefel 7) gyda sylwadau fel 'gwaith ardderchog' neu 'gwaith aeddfed iawn' ond nid ydyn nhw o anghenraid yn nodi lle y gellid mireinio neu wella'r gwaith. Fodd bynnag, dyma'r union ddysgwyr fyddai'n gallu ymateb i sylwadau diagnostig a gweithredu arnyn nhw.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau a sylwebaethau ar bynciau ar draws y cwricwlwm i ddangos beth y gall dysgwyr sy'n gweithio ar y lefelau uchaf ei gyflawni. Bydd y sylwebaethau yn gymorth i helpu athrawon adnabod:

- nodweddion o lefelau uwch ar gyfer y pwnc
- agweddau ar ddarllen ac ysgrifennu dysgwyr y gellir ffocysu arnyn nhw er mwyn datblygu uwch sgiliau llythrennedd.

Eu bwriad yw annog pob athro/athrawes i weld bod datblygu llythrennedd dysgwyr yn eu pynciau nhw eu hunain yn rhan annatod o addysgu ac asesu.

## Sut mae'r canllawiau hyn yn cefnogi athrawon ym mhob un pwnc?

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob athro/athrawes mewn ysgol uwchradd, beth bynnag yw ei arbenigedd pwnc, gan fod angen i bob athro/athrawes addysgu sgiliau llythrennedd. Bydd cynnydd, cyrhaeddiad a mwynhad dysgwyr yn debygol o gynyddu ym mhob un pwnc os ydyn nhw'n hyderus ac yn fedrus yn eu sgiliau llythrennedd.

Mae datblygu sgiliau llythrennedd yn ffocws canolog i athrawon sy'n dysgu Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, dylai athrawon ym mhob un pwnc ddefnyddio ystod o dasgau a chyd-destunau fydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau llythrennedd mewn ffyrdd ystyrlon. Bydd y rhain yn cynnwys gwaith ymchwil, ystyried syniadau eraill neu gofnodi'u syniadau eu hunain a dod i gasgliad.

Mae sgiliau cyfathrebu o ran darllen ac ysgrifennu, ynghyd â llafaredd, yn hanfodol i sicrhau dealltwriaeth dysgwyr o adnoddau ysgrifenedig, electronig a graffig. Mae'n hynod bwysig eu bod yn mynegi syniadau yn fanwl gywir gan ddod i gasgliadau'n eglur ar lafar ac yn eu gwaith ysgrifenedig. Pan fydd dysgwyr yn dysgu sut i arddangos lefel uchel o sgiliau darllen ac ysgrifennu, maen nhw'n gallu trosglwyddo'r sgiliau hynny a'u cymhwyso i'w gwaith ar draws y cwricwlwm. Ychwanegir at yr effaith os bydd athrawon ym mhob un pwnc yn ymwybodol o nodweddion uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu a bod ganddyn nhw ddisgwyliadau uchel bob amser.

Mae'n rhaid cael sgiliau llythrennedd da ymhob un pwnc er mwyn:

- canfod ystyr a deall y testunau a ddarllenir
- ysgrifennu'n glir ac yn gywir gan fynegi'r ystyr yn bwrpasol.

Cefnogir y datganiadau hyn gan y llinynnau yn adran 'Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm' yn *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008):

| | |
|---|---|
| **Darllen:** | Defnyddio strategaethau darllen i ddewis, defnyddio a dod o hyd i wybodaeth<br>Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd |
| **Ysgrifennu:** | Trefnu syniadau a gwybodaeth<br>Ysgrifennu yn gywir |

Os yw athrawon ymhob un pwnc yn mynd i ddatblygu sgiliau llythrennedd eu dysgwyr, mae gofyn iddyn nhw fod yn hyderus a gwybod am ffyrdd i addysgu a gwella ysgrifennu a darllen yng nghyd-destun eu pwnc eu hunain.

Mae'n holl bwysig bod athrawon yn cofio bod uwch sgiliau llafaredd hefyd yn gam ac yn elfen gwbl greiddiol ar y daith tuag at gyflawni uwch sgiliau llythrennedd.

Drwy wneud hyn, gall dysgwyr:

- drafod yr hyn a ddarllenwyd a dod i ddeall y testun yn gyflawn
- ymarfer syniadau a'u mireinio cyn ysgrifennu
- defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu sy'n gofyn iddyn nhw werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill gan awgrymu gwelliannau.

Amlinellir cynnydd yn y sgiliau hyn yn yr elfen Llafaredd o fewn yr adran 'Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm' yn y fframwaith sgiliau.

## Beth sy'n nodweddu uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu?

### Darllen

Mae darllen effeithiol yn golygu chwilio am ystyr mewn ystod o destunau sy'n gynyddol heriol. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y byddan nhw'n darllen i bwrpasau gwahanol gan gynnwys darllen er pleser, i gasglu gwybodaeth, neu i dderbyn cyfarwyddyd.

Wrth ddarllen i bwrpasau gwahanol, bydd darllenwyr rhwydd ac effeithiol yn datblygu ac yn mireinio strategaethau gwahanol fydd yn caniatáu iddyn nhw:

- ddarllen yn fanwl a chraff er mwyn amsugno gwybodaeth
- darllen yn feddylgar i bwyso a mesur dadl
- darllen yn uchel ar gyfer eraill ac ar eu cyfer eu hunain
- cip-ddarllen testun i gael argraff gyffredinol
- sganio i ddarganfod darn o wybodaeth neilltuol
- darllen yn ddychmygus i ddarlunio neu ail-greu yn y meddwl y sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd
- darllen yn weithredol ac â pharodrwydd i ymateb, i fedru dilyn hynt neu ragfynegi naratif neu adroddiad
- darllen yn feirniadol i asesu grym dadl neu farn
- darllen yn ddadansoddol i ddangos sut mae'r awdur yn defnyddio iaith
- darllen yn werthfawrogol, gan gydnabod dawn yr awdur i ddefnyddio syniadau, technegau ac effeithiau
- darllen ag ymwybyddiaeth am safbwynt yr awdur
- sylweddoli na fydd testun bob amser yn golygu'r hyn a ddywedir, gan ddeall natur eironi ac amwysedd a derbyn y gall fod gwahanol haenau o ystyr mewn testun
- dethol a darllen er mwyn tynnu gwybodaeth o nifer o destunau, nodi'r prif bwyntiau, coladu gwybodaeth, cymharu a chywain deunyddiau o wahanol ffynonellau
- gwerthuso'r hyn a ddarllenir o ran ansawdd, effaith a dibynadwyedd.

## Ysgrifennu

Mae ysgrifennu effeithiol yn golygu mynegi gwybodaeth, syniadau, meddyliau ac emosiynau yn eglur, dealladwy a rhugl mewn ystod o ffurfiau ac arddulliau. Mae'r ysgrifennu yn cael ei addasu yn ôl y pwrpas a'r gynulleidfa ac mae'n gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.

Wrth ysgrifennu at ddibenion gwahanol bydd ysgrifenwyr rhwydd ac effeithiol yn datblygu ac yn mireinio strategaethau gwahanol fydd yn caniatáu iddyn nhw:

- ysgrifennu mewn ffordd sydd yn mynnu sylw'r darllenydd gan gadw ei ddiddordeb
- ysgrifennu'n hyderus a chyda rheolaeth, gan ddangos dawn arbennig a gwreiddioldeb
- addasu'u hysgrifennu yn ôl y gynulleidfa a diben y darn, gan wneud dewisiadau o ran arddull a thôn
- dewis y ffurf briodol ar gyfer y dasg, gan sylweddoli bod angen i ambell destun fod yn gryno tra bod un arall yn gofyn am gael ei estyn a'i gynnal
- arbrofi gydag iaith, ffurf ac adeiladwaith i sicrhau effaith arbennig
- ysgrifennu testunau anllenyddol a sicrhau bod y syniadau'n drefnus, yn ddealladwy ac yn mynegi safbwynt yn eglur
- cynnal dadl a chynnig tystiolaeth berthnasol i gefnogi barn
- dangos ymwybyddiaeth o wahanol raddau ar ffurfioldeb wrth ysgrifennu gan ddefnyddio cyweiriau iaith yn briodol, e.e. iaith safonol neu iaith anffurfiol
- dadansoddi a gwerthuso'u gwaith ysgrifenedig eu hunain a gwaith eraill
- defnyddio amrywiaeth eang wrth strwythuro brawddegau i wella mynegiant a lliw eu hysgrifennu
- ysgrifennu testunau dealladwy, cywir o ran gramadeg, gan baragraffu'n effeithiol er mwyn rhoi trefn ar y cynnwys
- dethol ystod eang o eirfa a'i defnyddio'n fanwl briodol
- defnyddio holl rychwant atalnodi i wneud yr ystyr yn glir ac i greu effaith sillafu a threiglo'n gywir
- myfyrio ar yr hyn a ysgrifennwyd, gan ddrafftio, golygu a chanfod ffyrdd i wella'u hysgrifennu
- cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y dull gorau ar gyfer y dasg gan ddefnyddio ffyrdd priodol i'w osod a'i gyflwyno gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

## Sut mae'r canllawiau hyn yn helpu athrawon i baratoi dysgwyr ar gyfer gofynion Cyfnod Allweddol 4?

Anelir y canllawiau hyn at athrawon Cyfnod Allweddol 3 ond byddan nhw'n gymorth hefyd wrth edrych ymlaen tuag at ofynion Cyfnod Allweddol 4, ac anghenion yr arholiadau allanol a galwadau byd gwaith. Os yw dysgwyr yn mynd i ymdopi â gofynion TGAU, mae'n rhaid eu haddysgu ynglŷn â'r egwyddorion sy'n sail iddyn nhw. Er enghraifft, mae'n rhaid iddyn nhw ddeall y gwahaniaeth rhwng gwneud ymchwil – un o'r uwch sgiliau darllen pwysig – a llên-ladrad (lle y codir darnau o destunau eraill heb gydnabod hynny a'u cyflwyno fel eu gwaith nhw eu hunain). Yn y sefyllfa hon, nid yw'r dysgwr ond yn dangos y gallu i ganfod a dethol gwybodaeth – sgiliau yw'r rhain sydd ar waelod yr ystod o sgiliau darllen. Ym manylebau diwygiedig TGAU, mae Asesu Dan Reolaeth yn disodli'r elfen asesu gwaith cwrs. Yn yr Asesu Dan Reolaeth, bydd dysgwyr yn gorfod cyflawni tasgau o dan oruchwyliaeth benodol heb fedru ddefnyddio llawer o nodiadau wedi eu paratoi ymlaen llaw. Mae hi'n hanfodol felly eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r sgìl o ddeall a chywain y ffeithiau mwyaf perthnasol. Dylai cyfleoedd o'r fath fod yn rhan bwysig o ddysgu ac addysgu yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ymchwil, wrth gwrs, yn ffordd briodol o ganfod ffeithiau ond ni ellir asesu i ba raddau y deallwyd y ffeithiau hynny heb i ddysgwyr ddangos eu bod yn eu deall drwy'u defnyddio'n briodol a'u mynegi yn eu geiriau'u hunain. Gyda golwg ar hyn, mae gosod cwestiynau a thasgau yn elfennau hanfodol bwysig ac mae cyfrifoldeb ar athrawon i lunio cwestiynau a thasgau sy'n gofyn bod y dysgwyr yn defnyddio'r ffeithiau priodol mewn modd sy'n dangos dealltwriaeth. Mewn rhai achosion, bydd angen dyfynnu ffeithiau penodol i wneud pwynt neilltuol wrth ddatblygu dadl ond mae'n rhaid i'r dysgwyr wedyn ofalu eu bod yn cydnabod y ffynhonnell mewn llyfryddiaeth a atodir i'w gwaith.

Mae'r sgìl o drawsieithu yn sgìl hynod o bwysig wrth ymchwilio a dod o hyd i wybodaeth. Fe fydd yna sefyllfaoedd pan fydd dysgwr yn darllen deunydd mewn un iaith – Saesneg efallai – ond yn ymateb iddo mewn iaith arall megis Cymraeg, gan gyfleu'r cynnwys a'r effaith gyffredinol yn unol â gofynion y dasg; neu pan fydd dysgwr wedi ysgrifennu rhywbeth mewn un iaith ond yn dymuno'i gyflwyno wedyn yn y llall. Mae hyn yn gofyn am gyfres gymhleth o sgiliau cyfieithu sy'n cael eu harfer bron iawn yn ddiarwybod gan y dysgwr galluog ond sydd angen eu meithrin ymysg pob dysgwr beth bynnag fo'i allu.

Nodwedd bwysig arall ynglŷn â meini prawf arholiadau TGAU yw bod gofyn bellach am rywfaint o ysgrifennu estynedig ymhob pwnc a bod ansawdd y mynegiant ysgrifenedig yn cael ei asesu'n benodol ymhob arholiad TGAU. Mae llawlyfr sydd wedi ei baratoi gogyfer â'r Cyrff Dyfarnu'n datgan:

Mae'n rhaid i drefniadau asesu gwaith TGAU:

- sicrhau bod y testun yn ddarllenadwy a bod sillafu, atalnodi a gramadeg yn gywir fel bo'r ystyr yn eglur
- dethol a defnyddio ffurf ac arddull wrth ysgrifennu sy'n addas ar gyfer y diben a chymhlethdod y cynnwys
- trefnu gwybodaeth yn glir ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio geirfa arbenigol yn ôl y galw.

Os bydd disgwyl ac anogaeth i ddysgwyr gyflawni'r gofynion hyn yn eu gwaith i gyd ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd yn sicr o fudd iddyn nhw wrth symud i Gyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.

## Rôl y cydlynydd llythrennedd

Mae rôl y cydlynydd llythrennedd mewn ysgolion yn hanfodol bwysig os yw pob athro/athrawes mewn ysgol yn mynd i chwarae ei ran/ei rhan wrth wella sgiliau llythrennedd eu dysgwyr.

Dylai'r uwch dîm rheoli mewn ysgolion sicrhau bod gan y cydlynydd llythrennedd ddigon o statws, profiad ac adnoddau i:

- gynnal archwiliad o arfer da mewn llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- clustnodi'r cyfleoedd sydd yn bodoli'n barod i ddatblygu sgiliau llythrennedd a'u cymhwyso mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- clustnodi cyfleoedd ychwanegol y gellid eu darparu i ddatblygu sgiliau llythrennedd o fewn pynciau
- argyhoeddi pob athro/athrawes bod safonau uchel mewn llythrennedd yn gymorth i wella safonau ar draws y cwricwlwm
- creu polisi ysgol ar gyfer datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- cynghori adrannau ynghylch sut i gyflwyno addysgu sgiliau llythrennedd a sut y gellid ymgorffori'r elfen hon i'w cynlluniau gwaith
- sicrhau cysondeb agwedd ar draws y pynciau

- goruchwylio'r datblygiad o drafodaethau rhwng adrannau pwnc, gan sefydlu o bosibl grŵp gwaith o athrawon gwahanol bynciau'r cwricwlwm a'u harwain i nodi materion sy'n codi a gwerthuso cynnydd
- cynorthwyo'r adrannau i gydgysylltu amseriad y topigau i gyd-daro â chynlluniau gwaith adrannau eraill
- clustnodi'r meysydd llythrennedd nad yw athrawon pwnc yn teimlo mor hyderus i'w haddysgu o fewn cyd-destun eu pynciau'u hunain, e.e. sgiliau darllen uwch megis sgimio a sganio neu, wrth ysgrifennu, sicrhau bod yr hyn a ysgrifennir yn briodol ar gyfer y gynulleidfa, yn gweddu i'r pwrpas ac yn dechnegol gywir
- darparu hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol, naill ai fel ysgol gyfan neu fel grŵp o adrannau ar agweddau o lythrennedd.

Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio'r angen am bolisi llythrennedd cadarn mewn ysgolion. Dylai'r polisi gael ei arwain gan gydlynydd sy'n cael ei adnabod fel aelod o uwch dîm yr ysgol.

Mae Adran 2 yn cynnwys enghreifftiau sydd wedi eu dethol o waith dysgwyr mewn celf a dylunio, daearyddiaeth, dylunio a thechnoleg a hanes. Casglwyd y deunydd mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae'r enghreifftiau wedi cael eu dewis gan eu bod nhw'n dangos nodweddion o Lefelau 7, 8 neu Perfformiad Eithriadol yn y pynciau dan sylw. Mae'r enghreifftiau hefyd yn dangos sut y mae modd i athrawon lywio'u dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau darllen ac ysgrifennu ymhellach.

Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth gyda phwyntiau bwled sydd yn nodi'r cryfderau yn ogystal â'r meysydd lle y gellid eu datblygu. Mae'r sylwadau yn arwain athrawon ar sut y byddan nhw efallai yn ymateb i ddarn o waith, o ran bod yn bwnc benodol a'r math o sgiliau llythrennedd y gellid canolbwyntio arnyn nhw i gynhyrchu gwaith gwell.

Mae athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm yn cael eu annog i ddatblygu'r agwedd hon yn eu gwersi'u hunain, fel rhan o'u 'sgyrsiau asesu' parhaus â'r dysgwyr. Nid yw'r hyn a argymhellir yn y canllawiau yn gyfystyr â 'marcio dwbl' o gwbl. Yn hytrach, mae'n gosod patrwm neu ffordd o weithredu lle mae pob athro/athrawes yn rhoi sylwadau ar lythrennedd pan fyddan nhw'n rhoi adborth ar ddarn o waith i'w dysgwyr.

Er ein bod ni yma'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu, nid yw hyn yn lleihau'r angen i athrawon baratoi gwersi sy'n cyfuno addysgu llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Dylai'r tair cydran blethu i'w gilydd yn naturiol.

# *Adran* 1

## Crynhoad – agweddau ar lythrennedd

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ar y math o lythrennedd y gallai athrawon pwnc ei weld yng ngwaith eu dysgwyr. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at y chwe phrif math o destunau anllenyddol. I bob math mae'r un fframwaith o is-benawdau yn cael eu defnyddio i gynorthwyo athrawon i gynllunio gogyfer â'r elfennau hynny o lythrennedd ac i adnabod meini prawf llwyddiant.

Y prif fathau o destunau anllenyddol yw:

- adrodd yn ôl
- cyfarwyddiadau
- adroddiadau heb fod yn nhrefn amser
- esboniadau
- perswâd
- trafodaeth.

## Adrodd yn ôl

**Pwrpas: ail-ddweud neu ailadrodd digwyddiadau**

**Nodweddion ieithyddol:**

- wedi'i ysgrifennu yn yr amser gorffennol
- wedi'i ysgrifennu yn nhrefn amser
- yn defnyddio cysylltеiriau amser, e.e. 'yna', 'yn nesaf', 'wedyn'
- yn canolbwyntio ar unigolion neu grŵp, e.e. 'fi', 'ni', 'y dynion', 'y trigolion'.

**Strwythur cyffredinol:**

- cyfeirio – gosod yr olygfa, y dechrau
- digwyddiadau – sôn am y digwyddiadau yn ôl trefn y digwydd
- ailgyfeirio – datganiad i gloi.

**Cyd-destunau posibl:**

- bywgraffiad, hunangofiant neu stori wir
- adrodd am ddigwyddiad(au), e.e. trychineb Aberfan.

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**

- yr athro/athrawes yn modelu adroddiad/naratif fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn darllen yn eang – testunau llenyddol ac anllenyddol, e.e. cofiannau, hunangofiannau, storïau
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar i ddeall trefn y digwyddiadau'n glir, e.e. rhoi cymeriad (dychmygol neu hanesyddol) yn y gadair goch, paratoi bwletin newyddion ar gyfer y teledu neu'r radio
- dysgwyr yn nodi trefn y digwyddiadau mewn naratif/digwyddiad ar ffurf nodiadau, e.e. sut mae stac neu dafod yn ffurfio mewn ardaloedd arfordirol
- dysgwyr yn rhoi digwyddiadau yn nhrefn amser gan ddefnyddio llinell amser neu ddyfais graffig debyg.

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r holl fanylion perthnasol am y digwyddiad wedi eu cynnwys?
- Ydy'r digwyddiadau yn y drefn gywir?
- A oes strwythur rhesymegol gyda dechrau a diwedd priodol?
- Ydy'r gwaith ysgrifennu'n hawlio sylw'r darllenydd?

## Cyfarwyddiadau

**Pwrpas: disgrifio sut mae rhywbeth yn cael ei wneud trwy restru cyfres o gamau**

**Nodweddion ieithyddol:**

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol neu orchmynnol y ferf, e.e. 'Hidlwch y blawd' neu 'I ddechrau rydych yn hidlo'r blawd'
- wedi'i ysgrifennu yn nhrefn amser
- defnyddio cysyllteiriau yn ymwneud ag amser, e.e. 'i ddechrau', 'nesaf', 'yn olaf'
- defnyddio ansoddeiriau ac adferfau er mwyn egluro (nid er mwyn disgrifio)
- yn cynnwys:
  – datganiad o'r hyn y dylid ei gyflawni
  – rhestr o eitemau/cynhwysion angenrheidiol
  – camau mewn trefn, yn dangos y broses
  – diagram neu lun dewisol.

**Cyd-destunau posibl:**

- gwneud gwrthrych mewn dosbarth dylunio a thechnoleg
- sut i ddefnyddio cyfrifiadur mewn dosbarth TGCh
- sut i gynnal ymchwiliad gwyddonol
- disgrifio gwledd Iddewig mewn addysg grefyddol
- sut i chwarae pêl-droed neu chwaraeon eraill
- disgrifio gweithdrefnau mewn mathemateg
- disgrifio gweithdrefnau cyffredinol yr ysgol.

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**

- yr athro/athrawes yn ysgrifennu cyfres o gyfarwyddiadau fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn cael profiad uniongyrchol o'r broses dan sylw
- dysgwyr yn paratoi nodiadau mewn siart llif neu linell amser, gan ddangos y camau angenrheidiol
- dysgwyr yn penderfynu sut i osod cyfarwyddiadau.

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r camau i gyd wedi'u nodi'n eglur?
- Ydy'r eitemau/cynhwysion angenrheidiol i gyd wedi'u rhestru?
- A gafodd unrhyw ran o'r gyfres o gamau eu hepgor?
- A oes yna ddigon o wybodaeth fanwl?
- Ydy'r iaith yn briodol i'r gynulleidfa?
- A all rhywun arall gwblhau'r dasg yn llwyddiannus?

## Adroddiadau heb fod yn nhrefn amser

**Pwrpas: disgrifio nodweddion; disgrifio sefyllfa; cyflwyno gwybodaeth**

**Nodweddion ieithyddol:**
- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- heb fod yn nhrefn amser – wedi'i drefnu yn ôl themâu
- canolbwyntio ar gyfranogwyr cyffredinol
- defnyddio arddull amhersonol
- defnyddio dyfeisiau trefnu fel paragraffau, rhestrau wedi'u rhifo, is-benawdau
- gellid defnyddio diagramau neu luniau.

**Cyd-destunau posibl:**
- adran ar gyfer cyfeirlyfr i'r dosbarth yn amlinellu nodweddion, patrymau bywyd cyffredinol a chynefinoedd planhigion neu anifeiliaid
- agweddau ar fywyd bob dydd mewn cyfnod hanesyddol
- disgrifiad o leoliadau a nodweddion daearyddol
- cymharu 'nawr' a 'phryd hynny', e.e. dulliau trafnidiaeth, ein hysgol dros y blynyddoedd
- disgrifio nodweddion un o grefyddau'r byd
- taflenni gwybodaeth yn gysylltiedig â gwaith mewn unrhyw faes yn y cwricwlwm
- posteri ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol, e.e. perfformiad drama yn yr ysgol neu weithgaredd sy'n codi arian i elusen.

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**
- yr athro/athrawes yn dangos sut i ymchwilio i ffeithiau, eu dethol a'u rhoi mewn trefn resymegol
- dysgwyr yn edrych ar gyfeirlyfrau neu enghreifftiau o'r math o ysgrifennu y maen nhw ar fin rhoi cynnig arno
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar er mwyn meithrin eu dealltwriaeth
- dysgwyr yn cynnig gwybodaeth a syniadau a threfnu ffeithiau yn glystyrau gan ddefnyddio diagram gwe, grid cymharu, diagram Venn, map wedi'i labelu, cynllun neu fap meddwl
- dysgwyr yn penderfynu beth yw'r dull mwyaf rhesymegol o gyflwyno'r ffeithiau.

**Meini prawf llwyddiant:**
- Ydy'r ysgrifennu yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol?
- Ydy'r wybodaeth yn eglur a chywir?
- A oes trefn resymegol i'r ysgrifennu?
- Ydy naws yr ysgrifennu'n briodol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol anhysbys?
- A oes cofnod o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth, e.e. llyfryddiaeth pan fo'n briodol?

## Esboniadau

**Pwrpas: esbonio proses neu sut mae rhywbeth yn gweithio; egluro achos ac effaith**

**Nodweddion ieithyddol:**

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf, e.e. 'mae ar y car angen…'
- defnyddio cysyllteiriau sy'n ymwneud ag amser, e.e. 'yna', 'nesaf' a/neu gysyllteiriau'n ymwneud ag achos, e.e. 'oherwydd', 'felly'
- defnyddio termau technegol pan fo'n briodol
- wedi'i drefnu fel datganiad cyffredinol ac yna cyfres o gamau rhesymegol nes bod yr esboniad yn gyflawn
- byddai'n elwa o gynnwys diagramau a siartiau llif yn yr ysgrifennu.

**Cyd-destunau posibl:**

Esboniad i ateb cwestiynau fel:

- Sut mae deunydd insiwleiddio'n gweithio?
- Beth sy'n achosi'r tymhorau?
- Sut mae'r cylch dŵr yn gweithio?
- Sut adeiladodd y Rhufeiniaid eu ffyrdd?
- Sut mae tortsh batri yn gweithio?
- Beth achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf?
- Pam fod arfordiroedd yn erydu?
- Beth sy'n digwydd pan fo llosgfynydd yn ffrwydro?
- Pam fod angen rheolau yn yr ysgol?

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**

- yr athro/athrawes yn ysgrifennu enghraifft o esboniad fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- dysgwyr yn ymchwilio i ffeithiau a gwneud nodiadau, creu diagramau a/neu siartiau llif i ddangos y broses, e.e. diagram i ddangos ymarfer cylched mewn gwersi addysg gorfforol
- dysgwyr yn ymarfer rhoi esboniad ar lafar i gynulleidfa, e.e. grŵp neu ddosbarth
- dysgwyr yn defnyddio ymarferion drama i atgyfnerthu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu, e.e. bwlio ar y we.

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r esboniad yn eglur?
- A gafodd unrhyw gam ei hepgor?
- A ddefnyddiwyd yr iaith dechnegol angenrheidiol yn effeithiol?
- A oes trefn resymegol i'r esboniad?
- A oes diagramau i gefnogi'r esboniad?

## Perswâd

**Pwrpas: perswadio'r darllenydd i gytuno; dadlau'r achos dros safbwynt penodol**

**Nodweddion ieithyddol:**
- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- gallai ddefnyddio iaith emosiynol, dyfeisiau rhethregol neu hanesion, neu gyfarch y darllenydd yn uniongyrchol ('Oeddech chi'n gwybod...?') i atgyfnerthu'r elfen o berswâd
- cysyllteiriau'n ymwneud â rhesymeg yn hytrach nag amser, ar y cyfan, e.e. 'oherwydd', 'felly', 'mae hyn yn dangos'
- dechrau fel arfer â datganiad yn nodi'r prif syniad, yna cyfres o bwyntiau i gefnogi'r ddadl gyda chrynodeb ar y diwedd ac ailadrodd y datganiad cychwynnol
- gallai ddefnyddio is-benawdau, gwahanol fathau o ffont a nodweddion diwyg eraill i greu effaith.

**Cyd-destunau posibl:**
- ymgyrch gyhoeddusrwydd ar gyfer perfformiad yn yr ysgol
- llyfryn am amgueddfa leol neu lecyn o ddiddordeb
- araith yn mynegi un ochr o ddadl/trafodaeth
- taflen hybu iechyd
- ymgyrch ddiogelwch ar y ffyrdd neu i gefnogi elusen
- erthygl yn amlinellu safbwynt, e.e. ynglŷn â phwnc llosg lleol
- llythyr at bapur newydd yn mynegi barn ar bwnc yn y newyddion.

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**
- yr athro/athrawes yn ysgrifennu enghreifftiau o destunau sy'n perswadio, er mwyn tynnu sylw at strwythurau posibl
- chwarae rôl/ail-greu digwyddiadau lle mae pobl yn trafod materion, e.e. cyfarfod cyhoeddus, dadl yn y cyngor, llys barn
- ymchwilio i'r pwnc dan sylw, gyda'r dysgwyr yn gwneud a threfnu nodiadau, yn dangos y prif bwyntiau gyda phwyntiau ategol o dystiolaeth/eglurhad ar gyfer pob un – gellid gwneud hyn gyda grid, diagram gwe neu fap meddwl
- penderfynu pa fath o ysgrifennu fyddai'n gweddu orau i'r gynulleidfa a'r diben.

**Meini prawf llwyddiant:**
- Ydy'r ysgrifennu yn denu sylw'r darllenydd?
- Ydy'r ffeithiau'n dod at ei gilydd i greu dadl gref?
- Ydy safbwynt y sawl sy'n ysgrifennu yn gwbl eglur ac yn dwyn perswâd?
- A oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r ddadl?
- Ydy e'n debygol o berswadio'r darllenydd i gytuno/gweithredu?

## Trafodaeth

**Pwrpas: cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau**

**Nodweddion ieithyddol:**

- wedi'i ysgrifennu yn amser presennol y ferf
- defnyddio cysyllteiriau rhesymegol, e.e. 'felly', 'fodd bynnag', 'ar y llaw arall', 'er hynny', 'fel arall'
- cynnwys:
  - datganiad ar y pwnc dan sylw, yn aml gyda rhagflas o'r prif ddadleuon
  - dadleuon o blaid, a thystiolaeth i'w cefnogi
  - dadleuon yn erbyn, a thystiolaeth i'w cefnogi

  neu
  - dadl/dadl groes, un pwynt ar y tro
  - crynodeb a chasgliad, personol o bosibl, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon a phenderfynu ar un ochr
- dylid defnyddio iaith wrthrychol, amhersonol, heblaw yn y casgliad o bosibl pryd y gellid mynegi barn bersonol fel sylw i gloi.

**Cyd-destunau posibl:**

Mae materion yn codi ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm lle mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol bod mwy nag un safbwynt dilys. Mae angen iddyn nhw ddysgu osgoi gwneud penderfyniad cyflym heb ddod o hyd i'r holl wybodaeth, gwerthfawrogi barn pobl eraill a gwneud asesiad cytbwys o'r mater dan sylw. Gallen nhw ysgrifennu am fanteision ac anfanteision y canlynol:

- effeithiau datblygiad trefol mewn dosbarth daearyddiaeth
- ailgylchu mewn dosbarth gwyddoniaeth
- darlun penodol mewn dosbarth celf a dylunio
- prynu nwyddau rhad o wledydd y trydydd byd
- ffonau symudol a'u defnydd mewn ysgolion mewn dosbarth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- bwyd iach mewn dosbarth dylunio a thechnoleg
- gwisg ysgol mewn dosbarth ABCh.

**Dulliau o baratoi/cynllunio:**

- yr athro/athrawes yn dangos enghraifft o'r strwythur(au) ar gyfer ysgrifennu traethawd yn cyflwyno trafodaeth
- dysgwyr yn darllen enghreifftiau o ysgrifennu sy'n cyflwyno trafodaeth
- dysgwyr yn paratoi grid 'o blaid ac yn erbyn' ar gyfer pob prif bwynt, gan fynegi dadleuon yn gryno a gwrthrychol a rhoi tystiolaeth i gefnogi'r pwyntiau

- dysgwyr yn cymryd rhan mewn dadleuon neu efelychiadau er mwyn eu galluogi i fynegi eu dadleuon a gwrando ar bobl â safbwyntiau gwahanol.

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n effeithiol?
- Ydy'r ysgrifennu yn cyflwyno asesiad cytbwys o'r pwnc dan sylw?
- Ydy'r dadleuon yn ddilys ac eglur?
- Ydy'r naws a'r iaith a ddefnyddir yn briodol i'r diben ac i'r gynulleidfa?
- Ydy'r casgliad yn rhesymegol ac wedi'i seilio i raddau helaeth ar dystiolaeth a ffeithiau?

## Cyd-destunau ar gyfer pynciau ar draws y cwricwlwm

Bydd angen i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau darllen ac ysgrifennu ymhob un pwnc ar draws y cwricwlwm. Byddan nhw'n darganfod cyd-destunau dilys i ddatblygu'u sgiliau'n naturiol yn y pynciau hyn. Mae'r rhestr ganlynol yn awgrymu rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael.

| | |
|---|---|
| **Cymraeg, Saesneg, ieithoedd tramor modern** | Pob math o ffuglen a thestunau anllenyddol |
| **Mathemateg** | esboniadau o atebion<br>rhestr termau |
| **Gwyddoniaeth** | adroddiadau<br>ail-ddweud<br>cyfarwyddiadau<br>esboniadau |
| **Hanes** | gwerthuso tystiolaeth<br>esboniadau<br>bywgraffiadau<br>trafodaeth<br>crynodebau<br>disgrifiadau |
| **Daearyddiaeth** | adroddiadau<br>ail-ddweud<br>esboniadau<br>disgrifiadau<br>mapiau anodedig<br>diagramau anodedig<br>trafodaeth am y materion |
| **Celf a dylunio** | bywgraffiadau<br>disgrifiadau<br>cyfarwyddiadau<br>adroddiadau<br>esboniadau |
| **Addysg gorfforol** | cyfarwyddiadau<br>adroddiadau<br>esboniadau<br>rheolau |

| | |
|---|---|
| **Dylunio a thechnoleg** | esboniadau<br>cyfarwyddiadau<br>anodiadau<br>gwerthusiadau |
| **TGCh** | diwygio testun<br>e-byst<br>gwefannau |
| **Addysg grefyddol** | naratifau<br>esboniadau<br>dadlau<br>ail-ddweud<br>adroddiadau<br>disgrifiadau |
| **ABCh** | adroddiadau<br>cyfnodolion/dyddiaduron<br>ail-ddweud<br>ysgrifennu gwybodaeth<br>trafodaeth am y materion<br>testun yr areithiau |
| **Cerddoriaeth** | Mewn cerddoriaeth, mae dysgwyr yn cyfathrebu trwy berfformio a chyfansoddi, ac yn datblygu a chymhwyso sgiliau siarad a gwrando wrth werthuso eu gwaith a gwaith dysgwyr eraill. Tra bod rhai dysgwyr yn cymryd nodiadau i'w helpu wrth wrando ar gerddoriaeth, nid oes unrhyw ofyniad am ysgrifennu ymestynnol. Hanfod cerddoriaeth yw ei fod yn ddieiriau. Felly, yn y mwyafrif o achosion gwaith ymarferol fydd y brif ffynhonnell tystiolaeth o ddealltwriaeth gerddorol. |

# Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm: grid ar gyfer cynllunio ysgol gyfan

| Pwrpas/math o destun | Cymraeg/ Saesneg | Ieithoedd tramor modern | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Hanes | Daearyddiath | Celf a dylunio | Addysg gorfforol | Dylunio a thechnoleg | TGCh | Addysg grefyddol | ABCh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gwybodaeth | | | | | | | | | | | | |
| cyfarwyddiadau | | | | | | | | | | | | |
| perswadio | | | | | | | | | | | | |
| disgrifio | | | | | | | | | | | | |
| cymharu/ trafod | | | | | | | | | | | | |
| diddanu | | | | | | | | | | | | |
| adrodd am ddigwyddiadau neu 'sut mae pethau' | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| mynegi teimladau | | | | | | | | | | | | | |
| esboniad | | | | | | | | | | | | | |
| rhagdybio neu ddarogan | | | | | | | | | | | | | |
| ysgrifennu i ddysgu | | | | | | | | | | | | | |
| dadansoddi | | | | | | | | | | | | | |
| dod i gasgliadau y gellir eu profi | | | | | | | | | | | | | |
| gwerthuso | | | | | | | | | | | | | |

Gallai cydlynydd llythrennedd a'r athrawon mewn ysgol ddefnyddio'r ffurflen hon fel dull o:

- gynllunio ar gyfer defnyddio amrywiaeth eang o fathau o ysgrifennu trwy'r ysgol gyfan dros gyfnod penodol, e.e. tymor
- archwilio pa waith ysgrifennu sydd wedi'i gwblhau trwy'r ysgol o fewn cyfnod penodol
- mapio'r ddarpariaeth i atgyfnerthu dysgu sgiliau llythrennedd mewn ysgol.


# *Adran* 2

## Enghreifftiau pwnc benodol

# Celf a dylunio


## 1. Astudiaeth o waith Giacomo Balla a David Hockney a'r ymateb iddyn nhw













**Gwerthusiad**

Astudiais y thema ' Symudiad' ac astudiais waith David Hockney a Balla fel cefndir i'r gwaith.

**Cefndir David Hockney**

Ganwyd David Hockney yn Bradford i deulu dosbarth gweithiol ac roedd ei rieni yn awyddus i'w plant fanteisio ar addysg. Roedd ei fam, Laura yn grefyddol iawn ac roedd hi wedi gwahardd ysmygu ac yfed o'r cartref. Roedd y tad, Kenneth wedi bod yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod y rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd David yn dipyn o rebel ac yn dipyn o egsentrig yn Bradford. Doedd e ddim yn poeni rhyw lawer beth yr oedd pobl yn ei feddwl ohono ac roedd yn gwneud fel y mynnai yn aml. Fe ai i'r ysgol Sul ond gwneud lluniau o Iesu yr oedd e yno, nid gwrando! Ar yr un adeg â hyn, datblygodd obsesiwn gyda opera pan welodd La Boheme.

Pan oedd yn yr ysgol, dim ond gwersi celf oedd yn apelio ato – roedd yn casáu'r gweddill a dweud y gwir. Roedd yn dwdlan yn y gwersi ond roedd eto'n ennill llawer o wobrau. Yn 1953 aeth i Goleg Arlunio a dysgodd bod tynnu llun yn broses o weld a meddwl, yn hytrach nag efelychu pethau eraill. Roedd ei gelf yn abstract ac yn reit bersonol. Datblygodd hoffter o dynnu llun drychau.

Aeth i Efrog Newydd yn nechrau'r Chwedegau ac yno daeth i gysylltiad a Andy Warhol. Defnyddiodd baent acryclic i wneud cyfres o luniau o byllau nofio yng Nghaliffornia ac roedd y lliwiau yn llachar ac yn fywiog iawn.

Roedd ganddo ddiddordeb hefyd mewn ffotograffi ac yn enwedig photocollage. Drwy ddefnyddio nifer o luniau bach Poloroid roedd yn creu clytwaith o ddelweddau a llunio llun cyfan. Gan fod y lluniau bach hyn yn cael eu tynnu o berspectif gwahanol ac ar adegau gwahanol i'w gilydd, mae'r gwaith yn edrych ychydig yn debyg i Cubism.

**Cefndir Balla**

Cafodd Balla ei eni yn Nhurin yn fab i fferyllydd diwydiannol ac fel plentyn, cerddoriaeth oedd yn mynd â'i fryd ac nid celf. Bu ei dad farw pan oedd yn 9 oed a throdd ei gefn ar gerddoriaeth er mwyn mynd i weithio i siop lithograff. Erbyn iddo gyrraedd 20 oed, roedd wedi penderfynu mai celf oedd ei ddyfodol. Aeth i Brifysgol Turin ac wedyn symud i Rufain lle bu'n gweithio fel illustrator. Fe oedd y cyntaf i ddatblygu steil dyfodolaeth (futurism), a oedd yn creu darluniau gweledol o olau, symudiad a chyflymdra. Daeth yn enwog fel cerflunydd hefyd. Roedd bron yn obsesiynol am symudiad a golau fel y galwodd ei ferched yn Propeller a Light!

**Gwerthusiad**

Cefais fy nylanwadu gan y dechneg yr oedd David Hockney yn ei defnyddio ac rwyf wedi cynnwys rhai o ddelweddau o bêl rwyd fy llun terfynol. Tynnais lun llawer o ddelweddau am bêl rwyd a'u gwau at ei gilydd i wneud llun a chollage cyfansawdd. Defnyddiais wahanol gyfryngau hefyd er mwyn creu effaith wahanol. Mae fy ngwaith i am un ddelwedd sy'n edrych fel petai'n trafaelu ar draws i ddangos un safle mewn pêl-rwyd. Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud yr astudiaeth hon gan fy mod yn arbennig o hoff o bêl-rwyd fel gêm. Mae cyfuno dau ddiddordeb – celf a phêl-rwyd yn brofiad ardderchog. Roedd hi'n bwysig gwneud y gwaith ymchwil paratoadol oherwydd roedd yn rhaid cadw mewn cof y beth yr oeddwn yn mynd i'w gyflawni erbyn y diwedd. Roedd yn rhaid i mi weld y llun terfynol yn fy meddwl ac roedd yn rhoi syniadau i mi sut y byddwn yn cyrraedd y nod hynny a pha dechnegau y byddwn yn eu defnyddio ar hyd y ffordd.

Fel paratoad i'r gwaith fe wnes i arbrofi ar wahanol ddefnyddiau i weld pa un fyddai fwyaf llwyddiannus. Roedd yn bwysig pa un o'r defnyddiau fyddai'n creu'r effaith orau a pha un fyddai'n gweddu orau i'r syniad oedd gen i. Fe wnes i wedyn lun haniaethol ac fe wnes i frasluniau o'm syniadau gogyfer â'r llun terfynol. Yn fy llyfr bras fe arbrofais i gyda llawer o ddefnyddiau – cardfwrdd, papur tissue, darnau o ddillad a phapur ffotograffiaeth.

Er mwyn y llun terfynol roeddwn i isio defnyddio paent yn unig gogyfer â'r llun gan ddefnyddio'r cyfresi o frasluniau yr oeddwn wedi eu llunio a'u hymgorffori i mewn i lun haniaethol oedd yn llifo ac yn symud fel rhai Balla a David Hockney. Fe fwynheais i'n arbennig gweithio gyda phaent achos yn fy nhyb i mae'n haws i chi greu llun sydd fel petai'n symud yn araf ac yn llifo o un symudiad i'r llall. Mae'n cysylltu â'r artist oherwydd mae'n defnyddio un delwedd sy'n ymddangos fel petai'n llifo ar y papur. Yn bersonol, fe drodd y llun allan yn union fel yr oeddwn i'n gobeithio. Rydw i wedi gwella fy nhechneg ac rwy'n reit hapus fy mod wedi arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau a chael effeithiau gwahanol yr un pryd. Rwy'n bles iawn â'r darn gorffenedig ac fe lwyddais rwy'n credu i wneud yn fawr o'm techneg a chynhyrchu darn o waith rwy'n falch iawn ohono.

## Sylwebaeth celf a dylunio

Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

**Deall**

- Mae'r dysgwr yn gwneud cymariaethau cytbwys rhwng ei waith ei hunan a gwaith Giacomo Balla a David Hockney. Yn ei waith ymarferol mae'n arddangos dealltwriaeth glir o ddefnyddio ffotograffiaeth, llinell a ffurf i greu'r teimlad o symudiad drwy ailadrodd.
- Mae yma dystiolaeth o'r gallu i gyfleu syniadau a theimladau ac ymateb yn ddychmygus i waith eraill.

**Ymchwilio**

- Gwelir tystiolaeth ymarferol o archwilio, dethol, cofnodi, a chyfleu symudiad drwy luniadau, ffotograffiaeth, montage a chollage o chwarae pêl-rwyd. Mae'r rhain wedi eu trefnu'n dda gogyfer â datblygu'r thema 'symudiad'.

**Gwneud**

- Mae'r dystiolaeth yn dangos arbrofi hyderus ag ystod eang o gyfryngau, offer a thechnegau megis cardfwrdd, papur sidan a thechnoleg gwybodaeth. Mae'n datblygu amrywiaeth o syniadau a dulliau wrth gynllunio ar gyfer ei beintiad.
- Yn y canlyniadau ymarferol mae'n dangos y gallu i adolygu prosesau a deilliannau mewn modd beirniadol ac adeiladol.

## Ystyriaethau llythrennedd


### Sylwebaeth


- Gafael gadarn ar ferfau:
  – yr amhersonol, e.e. 'ystyriwyd', 'ganwyd'
  – yr amser amherffaith cryno, e.e. 'mynnai'
  – yr amser gorffennol cryno, e.e. 'aeth', 'fe fwynheais'
  – yr amodol, e.e. 'fyddai'n creu'r effaith... fyddai'n gweddu orau...'
- Amrywio cystrawen brawddegau:
  – y frawddeg gymysg i bwysleisio, e.e. 'Fe oedd y cyntaf...'
  – dechrau brawddeg gyda chymal, e.e. 'Drwy ddefnyddio...', 'Gan fod...'
- Gafael ar ymadroddion idiomatig Cymreig, e.e. 'wrth fy modd', 'mynd â'i fryd', 'Bu ei dad farw'.
- Ennyn diddordeb y darllenydd gyda chyffyrddiadau o hiwmor, e.e. 'Fe ai i'r ysgol Sul ond gwneud lluniau o Iesu yr oedd e yno, nid gwrando!'
- Cyflwyno profiadau personol.
- Geirfa aeddfed, e.e. 'gwahardd', 'efelychu'.

### Y ffordd ymlaen


- Gwylio rhag colli'r cywair ffurfiol, e.e. 'isio', 'reit hapus'.
- Osgoi idiomau Seisnig, e.e. 'fe drodd y llun allan'.
- Gwahaniaethu rhwng 'a' ac 'ac', e.e. 'a Andy Warhol'.
- Mwy o farn a gwerthusiad.

## 2. Astudiaeth o waith Barbara Kruger a Banksy ac ymateb i'r gwaith hwnnw







I had my heart
on lockdown


Your
hits
side
face



**Darn 1**

Yn y darn yma rwyf wedi ceisio dangos calon yn cael ei gwasgu'n galed gan gadwyn dynn a nifer o gleisiau ar y galon. Mae'r galon fel petai'n mygu am ei hanadl ac mae'r personoli hwn yn effeithiol yn fy marn i. Rwy'n eithaf ples gyda'r defnydd o liw ond credaf y gallwn fod wedi gwneud i'r gadwyn ymddangos yn fwy tynn, fel petai'r galon yn cael ei gwasgu'n a'r bywyd sydd ynddi yn cael ei wasgu'n slwtsh. Ar y dudalen gyferbyn, rwyf wedi gwneud 'viewfinder' o'r gadwyn a'r clo a delwedd ddu a gwyn wedi ei sganio i'r cyfrifiadur. Gwaith Barbara Kruger ddylanwadodd arnaf i wneud hyn.

**Darn 2**

Ganwyd Barbara Kruger ar Ionawr 26 ain 1945 yn Newark, New Jersey a mynychodd Parsons School of Design yn Efrog Newydd. Aeth i weithio ar gylchgrawn Madamoiselle ac yn y 60egau a'r 70egau cynlluniodd gloriau llyfrau i destunau gwleidyddol a dyma pryd hefyd yr ymddiddorodd mewn barddoniaeth. Daeth i'w chydnabod am ei gwaith cain a oedd yn cynnwys ymateb a phrofiadau personol yn ei chynlluniau ynghyd â'u thechneg am roi brawddegau pytiog, fel darnau o farddoniaeth yn gyfochrog â'r llun.

Yr hyn sy'n nodweddu ei gwaith fodd bynnag yw ei defnydd o ffotograffau du a gwyn gyda chapsiynau mewn coch a du yn cael eu cyfosod. Y ffont a ddefnyddir yn ddieithriad yw ffont Futura Bold Oblique. Ffont oedd hwn a ddyfeiriwyd gan Paul Renner rhwng 1924 ac 1926. Mae'n ffont sy'n mynnu sylw ac mae'n rhoi'r argraff o effeithiolrwydd a bod ar flaen y gad. Yr hyn sy'n ei nodweddu y ffurfiau syml geometraidd.

Mae'r capsiynau neu'r dywediadau sydd yn rhan annatod o'i gwaith yn ddatganiadau cryf yn mynegi barn am bynciau llosg fel crefydd, rhyw, camdriniaeth a phŵer yn y gymuned.

Yn y datganiadau hyn fe ddefnyddir rhagenwau yn aml iawn – 'fi' ti' 'ni' neu 'nhw' e.e. 'I shop therefore I am'. Nododd hi ei bod hi'n gweithio gyda geiriau a lluniau oherwydd mae ganddynt fodd i liwio pwy yr ydyn ni a phwy nad ydyn ni. Dydy hi ddim yn ofni iaith ac mae'n defnyddio sgyrsiau bob dydd pobl i wneud datganiad am fywyd yn gyffredinol.

Mae ei lluniau a'i geiriau yn cael eu harddangos mewn orielau a mannau cyhoeddus ar draws y byd. Gwelir ffotograffau wedi eu fframio ac heb eu fframio mewn siopau yn ogystal â thoreth o bosteri, crysau T, billboards ac hyd yn oed mewn gorsaf drenau yn Strasbourg.

**Darn 3**

Ran amlaf mae Banksy yn cael ei adnabod fel artist sydd yn gweithio yn y wlad hon – yn arbennig felly mewn trefydd fel Bryste a Llundain ond yn ddiweddar mae naw darn o waith wedi cael eu chwistrellu ar wal ym Mhalesteina. Mae 'Banksy' wedi mynd i'r Banc Gorllewinol!

Dydy'r artist ddim yn cael ei adnabod na'i gydnabod – dydy e ddim yn dymuno i neb wybod yn union pwy ydy e a dyma ran o'i gyfrinach. Yn Abwdis ar gyrion Jerwsalem mae'r wal a gafodd ei adeiladu gan yr Israeliaid yn estyn yn fygythiol gan gaethiwo'r Palesteiniaid y tu mewn iddi. Dywed Banksy mai dyma 'un o gachardai mwyaf y byd'. Mae'r wal yn parhau i gael ei hadeiladu gan yr Israeliaid. Dyma wal gwbl 'anghyfreithiol' ac mae'n deirgwaith maint wal Berlin.

Mae'r 700 metr o wal lwyd yn un o'r cynfasau gwag gorau i arddangos eich talentau ac mae Banksy am wneud y gorau o'i gyfle. Dywedodd Banksy 'mae'r wal yn gywilyddus... mae'n gyffrous i feddwl y gallwch droi strwythur mor gaethiwus i un galeri hir o gelf'.

Wrth reswm i rywun fel Banksy mae'n rhaid gweithio'n gyflym. Bu suon ar led bod yna ddrylliau wedi eu hanelu ato ond gan ei fod wedi hen arfer â gweithio'n gyflym llwyddodd i wneud ei farc a diflannu. Mae'r lluniau tua 10 troedfedd o hyd a 5metr ar draws ac mae'r lluniau wedi ei llunio yn y dull o 'stencillo' sef y dull y mae Banksy yn enwog amdano.

Mae cyfres o naw o luniau ar y wal erbyn hyn ac mae'n darlunio caethiwed y bobl sydd y tu mewn iddi yn ceisio dianc i baradwys. Y neges amlwg yw fod y wal yn annheg ac yn caethiwo pobl.

Defnyddia Banksy liwiau llachar iawn i ddarlunio'i baradwys ac mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r wal ddi-liw, lwyd a'r lliwiau llipa ac undonog. Mae Banksy wedi defnyddio'r ddelwedd o dwll – mae'r lliw yn disgleirio yn y twll ond fel twll y clo, dim ond cipolwg bach iawn yr ydych chi'n ei gael o berffeithrwydd a golau. Defnyddir llinellau trwm a du o ddarlunio'r twll ei hun.

Rwy'n hoff iawn o waith Banksy – mae'n goeglyd ac yn llawn hiwmor ac mae'n artist cymdeithasol iawn sydd â rhywbeth i ddweud yn ei luniau. Rwy'n gallu uniaethu gydag ef ac mae'n fodern iawn ond mae'n apelio at bobl hyn hefyd. Mae ei ffordd haniaethol o feddwl yn arwain at gelf sydd yn mynnu eich sylw.

## Sylwebaeth celf a dylunio

Lefel 8 sy’n cyd-fynd orau â’r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

**Deall**

- Gwelir dealltwriaeth glir o waith Barbara Kruger a Banksy wrth i’r dysgwr archwilio a dadansoddi’r dulliau a’r technegau a ddefnyddir yng ngwaith yr arlunwyr a dangos perthynas yn ei waith ei hun.
- Mae’n gwerthuso, yn dadansoddi amryw o ddelweddau ac yn egluro sut mae arddull yr arlunwyr yn dylanwadu ar ei syniadau ac ar ei deimladau gan gyfeirio at ei waith ei hun.
- Dangosir ymatebion ymarferol i’r testun ac mae’n dangos dealltwriaeth drwy greu darn sy’n gyfuniad o arddull graffiti Banksy a’i gyfuno gyda delwedd a thestun sydd yng ngwaith Barbara Kruger.

**Ymchwilio**

- Dangosir gallu cyson i archwilio gwaith arlunwyr perthnasol, dethol darnau priodol i’w fwriad a chofnodi a chyfathrebu ei syniadau drwy wneud brasluniau.
- Wrth gynllunio datblygiad ei waith ymchwil mae’r dysgwr yn trefnu ac yn cyfeirio at ddulliau'r arlunwyr a ddefnyddir ganddo yn ei waith ymarferol.

**Gwneud**

- Defnyddir amrywiaeth o gyfryngau, offer a thechnegau yn hyderus i ddatblygu a chreu delweddau sy’n seiliedig ar ei wybodaeth o liw, ffurf a thestun yng ngwaith yr arlunwyr.
- Mae’n adolygu ei waith mewn dull adeiladol sy’n dangos hyder wrth wneud newidiadau ac addasiadau fel y bo’n briodol.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth


- Agoriad bachog sy'n ennyn ymateb.
- Gwerthfawrogi arddull testun yn ddeheuig, e.e. Darn 2, paragraffau 2, 3, 4 a Darn 3 – 'Defnyddia Banksy liwiau llachar iawn i ddarlunio'i baradwys ac mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r wal ddi-liw, lwyd a'r lliwiau llipa ac undonog.'
- Y defnydd cywir o dermau gramadegol, e.e. rhagenwau 'fi', 'ti', 'ni'.
- Dilyniant cydlynus i baragraffau, e.e. Darn 2, paragraffau 2 a 3 yn cael eu cysylltu gyda 'fodd bynnag'.
- Chwarae ar eiriau, e.e. 'Mae 'Banksy' wedi mynd i'r Banc Gorllewinol!'
- Dyfynnu i bwrpas, e.e. 'Dywedodd Banksy...'
- Arddangos cyfoeth o eirfa sy'n cyfleu'r union ystyr a ddymunir, e.e. 'slwtsh', 'perffeithrwydd'.
- Cefnogi barn â thystiolaeth wrth ddod i gasgliad.

### Y ffordd ymlaen

- Angen datblygu paragraffau ar sail y frawddeg agoriadol, e.e. y paragraff 'Mae'r capsiynau neu'r dywediadau sydd yn rhan annatod o'i gwaith... camdriniaeth a phŵer yn y gymuned.'
- Gwahaniaethu rhwng 'ei' ac 'eu', e.e. 'â'u thechneg', 'ei llunio'.

## 3. Dadansoddi darn o waith gan Ogwyn Davies



















Ganwyd Ogwyn Davies yn Nhrebanos, Cwm Tawe yn 1925 a symudodd i Dregaron hanner canrif yn ôl lle bu'n dysgu fel athro celf yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Mae ei luniau yn gyfarwydd i gasglwyr a mynychwyr arddangosfeydd ledled Cymru, lluniau sy'n creu naratif o Gymru drwy gyfrwng paent, geiriau, symbolau ac elfennau ffigurol.

Hwyrach mai ei lun enwocaf yw hwnnw o Soar y Mynydd, gyda geiriau emynau yn codi allan o'r muriau a'r to, gan hofran yn yr awyr. Saif ochr yn ochr â 'Salem' Curnow Vosper fel un o eiconau Cymru.

**'Soar y mynydd'**

Rwyf wedi astudio'r darn hwn o waith a byddaf yn sôn am y technegau, y lliwiau a'r siapiau mae Ogwyn Davies wedi eu defnyddio a'r hyn sy'n gwneud y darn yn ddiddorol. Llun ydyw sy'n darlunio capel bach anghysbell yng nghanol y bryniau ac un o brif themâu'r darn yw Cymru a Chymreictod. Mae'n rhaid ei fod wedi treulio oriau yn edrych ar destun ei lun a'r lleoliad sydd yn hynod o drawiadol. Ym mlaen y llun fe welir rhes o gerrig beddau llwyd ac mae'r capel yn olau y tu cefn iddyn nhw. Serch hyn, mae'r mynydd y tu cefn yn reit ormesol – mae e'n gwneud i'r capel a'r cerrig i edrych yn fach iawn. Mae'r lliwiau ar ben y bryn yn rhai reit dywyll ond wrth fynd i lawr i'r pant, mae'r lliwiau'n oleuach fel petai golau'r capel a chrefydd o bosibl yn creu darlun goleuach. Gwelir y capel bach yng nghesail y mynydd – mae'n cael ei ddiogelu gan y mynyddoedd. Mae'r arlunydd wedi defnyddio lliwiau sy'n nodweddiadol o'r fangre – lliwiau brown, glas, melyn a llwyd. Mae tôn y llinellau yn gelfydd iawn ac yn goleuo wrth agosáu at y capel ei hun sef prif ffocws y darlun. Defnyddiodd bapurau newydd Cymreig i greu gwead y darn. O bosibl gallai hyn fod yn symbol o obaith. Drwy'r darlun cyfan fe welir geiriau yn llifo drwy'r lliw. Geiriau emynau ydyn nhw ac mae'r defnydd hyn o naratif yn hynod o effeithiol yn fy marn i. Mae'r cyfuniad o'r llun a'r gair yn hynod effeithiol ac yn dangos llif y geiriau a grym geiriau i'r arlunydd. Mae'n amlwg fod gan yr artist berthynas hynod o agos gyda'r ardal a'r pwnc dan sylw – mae'n adnabod y bobl sy'n mynychu'r capel a gŵyr am yr emynau y maent yn eu canu.

Rwy'n credu mai bwriad yr arlunydd yw dangos pwysigrwydd crefydd a chanu i Gymru ac hefyd i bwysleisio nad yw mannau fel Soar y Mynydd yn mynd i ddiflannu oherwydd mae yna barch yn cael ei neilltuo iddo. Mae'n cael ei ddiogelu gan y mynyddoedd. Mae'r capel yn f'atgoffa i o nghartref i gan fy mod yn cael fy niogelu gyda'r bryniau sydd o'm hamgylch innau hefyd. Bwriadaf arbrofi gyda'r dull o naratif yn fy ngwaith a byddaf yn defnyddio geiriau sy'n ymwneud â'm cartref i. Byddaf hefyd yn defnyddio papurau newydd a chyfryngau eraill i greu gwedd yn fy ngwaith.

**Gwerthusiad o waith Ogwyn Davies**

Yma, rwyf wedi dangos cymeriad cysgodol i nghartref trwy fraslunio'r tŷ yn y cefndir a brigau yn ei gysgodi. Ceisiais gadw'r cartref yn liwiau tywyll o ddu a gwyn er mwyn cyfleu y cysgod yn effeithiol. Defnyddiais feiro du a gwneud llinellau yn agos iawn at ei gilydd er mwyn creu gwead llyfn i'r cartref. Defnyddiais yr un beiro i wneud y brigau i roi gwead garw a realistig iddynt. Defnyddiais bensil i roi lliw llwyd ar wyneb y cartref, eto am ei fod yn liw sy'n cael ei gysylltu â chysgodion. Defnyddiais baent serch hynny i roi lliw gwyrdd a glas yn y cefndir. Ar wyneb y cartref, rwyf wedi defnyddio saith ansoddair sy'n portreadu cymeriad fy nghartref sef croesawgar, clyd, swynol, cynnes, lonydd, hapus a chysgodol a'u hail adrodd er mwyn creu wal ddiddorol i'r cartref. Penderfynais ddefnyddio'r dechneg yma wedi ei mi astudio gwaith Ogwyn Davies. Hoffaf y gwead a'r tôn mae'r geiriau wedi eu greu i'r cartref a bwriadaf ddefnyddio'r dechneg hon eto yn fy ngwaith.

**Fy nghartref**

Rwyf wedi defnyddio cyfrwng paent i bortreadu fy nghartref fel un sydd â chymeriad cysgodol. Mae'r brigau sydd i'w gweld yn y llun yn gorchuddio'r cartref ac yn sicrhau cysgod iddo. Defnyddiais bapur newydd Cymraeg yn y cefndir er mwyn rhoi gwead i'r darn ac yna defnyddio sbwnj i'w orchuddio â lliw. Wedi i mi edrych ar waith Ogwyn Davies, penderfynais ddefnyddio papur newydd Cymraeg gan fy mod i, sy'n byw yn y cartref hwn, yn Gymraeg ac yn teimlo y dylem barchu ein treftadaeth.

Tynnais y llun o'm cartref ar fy nghamera digidol a thorrais y cartref allan er mwyn ei sticio yng nghanol gwyrddni a glesni'r cefndir. Er mwyn gwneud y brigau'n realistig, defnyddiais bapur lapio brown a'i orchuddio mewn paent brown cyn ei brintio yn y lle priodol ar y llun. Hoffais y ffordd y daeth y brigau allan ac mae'r cefndir a'i wead yn effeithiol iawn. Gobeithiaf weithio gyda'r dechneg yma y mae'r arlunydd Ogwyn Davies wedi ei defnyddio eto wrth i mi arbrofi fwy fwy gyda'm gwaith. Mae'n dechneg effeithiol iawn yn fy marn i ac rwy'n credu i mi greu gwead realistig o'r amgylchedd a'r awyrgylch yn fy nghartref.

**Peter Prendergast**
Arlunydd Cymraeg
Ganed: 27 Hydref, 1946 Bu farw: 14 Ionawr, 2007

Ganed Prendergast yn Abertridwr, pentref mwyngloddio ym Morgannwg. Mae'n un o arlunwyr enwocaf Prydain sy'n gwneud paentiadau a thirluniau yn fwyaf arbennig. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei baentiadau mawr a'i fynegiant o'r hen ardaloedd chwarelyddol yng Ngogledd Gorllewin Cymru. Fe'i gwelir yn defnyddio llinellau brws trwchus o baled yn cynnwys llawer o liwiau yn cael eu dal rhwng linellau du trwchus. Cyhoeddwyd llyf yn sôn am fywyd a gwaith Prendergast, 'The Painter's Quarry'. Mae ei gynfasau yn cynnwys tresau dynol. Wedi iddo fethu arholiad i'r ysgol Ramadeg fe fynychodd ysgol Sec Modern' ond yma cafodd ei annog gan feistr celf ysgogol yr ysgol, Gomer Lewis. Dechreuodd ddarlunio Dyffryn Aber lle treuliodd blentyndod delfrydol yn chwarae yn y caeau a'r nentydd. Darganfyddodd themâu celfyddydol ym mhobl y dyffryn ac roedd yn hoff iawn o'r ymdeimlad clos a welwyd yno. Dywed 'the doors were always open' yn y pentref.

Ni chafodd yr un lefel 'O' ond llwyddodd i ennill ysgoloriaeth gelf sirol ag yntau ond yn bymtheg oed ac ar ôl dwy flynedd o gwrs sylfaen yn ysgol celf Caerdydd, mynychodd 'y slade'. Yno daeth o dan ddylanwad Frank Auerbach a ddaeth hefyd yn ddylanwad mawr arno. Roedd addysgu Auerbach yn wrthrychol ac yn adeiladol. Roedd yn credu'n gryf mewn bod yn driw i'r hyn a oedd o'i amgylch o ran strwythur a geometreg ac roedd yn awyddus i beintio pethau fel y gallai pobl gredu yn ei ddelweddau. Ond yn sicr dim efelychiadau oedden nhw. Ar ôl dwy flynedd ym Mhrifysgol Reading, penderfynodd y byddai'n rhaid iddo ddychwelyd i Gymru i fyw a daeth yn ôl i Fethesda yng Ngwynedd.

Gwelai'r terasau a chreithiau'r chwareli fel y creithiau oedd yn y bentref genedigol ef yn Ne Cymru ond yma llechi oedd y deunydd ac nid glo. Am saith mlynedd fe beintiodd chwarel y Penrhyn "the biggest man-made hole in Europe, like Breughel's Tower of Babel, but in reverse".

Roedd yn arlunydd enwog erbyn 80au'r ganrif ddiwethaf roedd yn enwog drwy Ewrop gyfan ac roedd wedi ennill gwobrau dirifedi yn cynnwys gwobr yn yr eisteddfod Genedlaethol. Roedd setlo yn Neiniolen yn ffordd iddo ddychwelyd at ei wreiddiau Cymreig.

**Gwerthusiad o waith Peter Prendergast**

Mae Peter Prendergast yn dechrau ei waith trwy fraslunio yn uniongyrchol o'r tirlun. Gwaria amser maith o flaen tirlun penodol yn ei fraslunio. Un o'r technegau yw dechrau gyda darn o bapur ac ychwanegu darnau eraill i lenwi'r gwagle. Sicrha hyn fod gan Prendergast ddigon o wybodaeth i greu ei baentiadau. Un o'r pethau amlycaf am ei waith yw ei ddefnydd o liw. Defnyddia baent oil i gyfleu symudiad ac mae'r lliwiau nid yn unig yn dangos y tirlun ond hefyd y tywydd a'i agwedd ef tuag at y pwnc. Defnyddia linellau brws i gyfleu'r symudiad yn y tirlun. Mae'n gweithio'n gyflym er mwyn ceisio dal y golau sydd ar y tirlun ac er mwyn bod ei waith mor gydnaws â'r tirlun â phosibl. Defnyddia Prendergast linellau cryf. Rwy'n hoff iawn o'r darn hwn gan ei fod yn bwerus iawn ac yn debyg i gymeriad fy nghartref fy hunan yn y cwm. Mae'r llinellau trwchus a'r lliwiau yn effeithiol iawn.

**Darn o waith**

Print yw'r darn hwn o waith. Defnyddiais ddarn o gardfwrdd a'i orchuddio â ffoil, crafais wedyn batrwm i mewn iddo – patrwm sydd yn dangos tirwedd yr ardal yr wyf yn byw ynddi a defnyddiais baent i orchuddio'r ffoil, yna ei osod ben i waered ar y papur gan greu print. Gweithiais ar ben y print trwy amlinellu'r llinellau pwysig gyda sialc du. Rwy'n hoff iawn o'r siâp sydd wedi ei greu er rwy'n tybio y gallai'r lliw fod yn well gennyf.

## Sylwebaeth celf a dylunio

Perfformiad eithriadol sy'n cyd-fynd orau â'r dystiolaeth hon. Dyma brif nodweddion y gwaith:

**Deall**

- Gwelir dealltwriaeth glir o waith yr arlunwyr Ogwyn Davies a Peter Prendegast wrth i'r dysgwr archwilio a dadansoddi'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yng ngwaith yr arlunwyr a dangos perthynas yn ei waith ei hun.
- Mae'n gwerthuso ac yn dadansoddi amryw o ddelweddau yn feirniadol ac adeiladol ac yn dangos sut mae arddull yr arlunwyr yn dylanwadu ar ei syniadau, ei deimladau a'r ystyron yn ei waith.
- Dangosir ymatebion ymarferol a dychmygus i'r testun 'cartref' ac mae'n dangos dealltwriaeth gyd-destunol a diwylliannol drwy greu darn sy'n gyfuniad o beintiad 'Soar ar y Mynydd' gan Ogwyn Davies ac 'Early Morning Spring' gan Peter Prendergast.

**Ymchwilio**

- Dangosir gallu cyson i archwilio gwaith arlunwyr perthnasol. Mae'r dysgwr yn dethol darnau priodol gan gofnodi a chyfathrebu ei brofiadau personol o'i gartref. Fe wireddir hyn drwy greu cynllun corryn, cymryd ffotograffau a braslunio.
- Wrth gynllunio datblygiad ei waith ymchwil mae'r dysgwr yn trefnu ac yn cyfeirio atyn nhw yn y dulliau a ddefnyddir ganddo yn y gwaith ymarferol.

**Gwneud**

- Defnyddir amrywiaeth o gyfryngau, offer a thechnegau yn fedrus a dewiswyd y rhain yn ofalus i ddangos dealltwriaeth o dechnegau crafu ac argraffu i gyfleu gwead a naws y tirwedd.
- Mae'n arbrofi'n hyderus gyda deunyddiau amrywiol er mwyn datblygu ffyrdd o greu delweddau a syniadau sy'n cyfleu dealltwriaeth eang a sensitif o deimlad a naws ei gartref.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Cyflwyniad hyderus i'r dadansoddiad o waith Ogwyn Davies.
- Strwythur cadarn i'r paragraff 'Rwyf wedi astudio'r darn hwn o waith a byddaf yn sôn am...' gyda'r frawddeg agoriadol yn egluro bwriad y paragraff.
- Gafael gadarn ar Gymraeg idiomatig, e.e. 'yng nghesail y mynydd'.
- Geirfa haniaethol, e.e. 'gwyrddni a glesni'r cefndir.'
- Amrywio patrymau brawddegol, e.e. y frawddeg gymalog 'Wedi i mi edrych ar waith Ogwyn Davies, penderfynais ddefnyddio papur newydd Cymraeg gan fy mod i, sy'n byw yn y cartref hwn, yn Gymraeg ac yn teimlo y dylem barchu ein treftadaeth.'
- Gafael gadarn ar ferfau:
  - Yr amhersonol, e.e. 'gwelir'.
  - Yr amser presennol/dyfodol cryno, e.e. 'bwriadaf', 'gŵyr'.
  - Yr amser gorffennol cryno, e.e. 'defnyddiais', 'gweithiais', 'crafais'.
- Cefnogi barn â thystiolaeth, e.e. 'Mae'r cyfuniad o'r llun a'r gair yn hynod effeithiol ac yn dangos llif y geiriau a grym geiriau i'r arlunydd.'
- Defnydd hyderus o'r rhagenw mewnol, e.e. 'gyda'm', 'â'm cartref'.
- Adrodd profiadau personol yn ddiddorol ac mewn manylder.
- Defnydd pwrpasol o ddyfyniadau.

### Y ffordd ymlaen

- Peidio â threiglo 'll' yn dilyn 'yn', e.e. 'yn liwiau'.
- Gwylio rhag colli naws ffurfiol y darn, e.e. 'sticio'.
- Mae'r paragraff agoriadol ar waith Peter Prendergast yn anhrefnus gan ei fod yn cynnwys sawl agwedd.

# Daearyddiaeth

## 1. Ymchwiliad unigol ar y thema 'Tsunami Cefnfor India 2004'

### Cyflwyniad

Bydd y prosiect yma yn canolbwyntio ar trychineb naturiol ofnadwy yng Nghefnfor India. Mae'n yn un o'r digwyddiadau naturiol mwyaf angheuol erioed, daeargryn gyda faint o 9.3 ar raddfa Richter. Bu farw 229, 866 o bobl ac un traean ohonynt yn blant. Wnaeth tonnau o 30 metr o uchder, yn teithio ar yr un cyflymder ag awyren trywanu arfordir y wledydd cyfagos a dinistrio bywydau. Mae daeargryn a tsunami yn nodweddion ffisegol. Cyfrannodd y cyhoedd ar draws y byd dros 7 biliwn o ddoleri i gymorth dynol. Bydd y prosiect yma'n astudio y rhesymau, effeithiau a datrysiadau tu ôl i'r tsunami yma.

### Lle digwyddodd y daeargryn a'r tsunami?

Uwchganolbwynt y daeargryn a achosodd y tsunami oedd yn y lleoliad o'r Cefnfor India, i'r De-ddwyrain o India ac yn agos i arfordir Gorllewinol o Sumatra, Indonesia. Lledred yr uwchganolbwynt oedd 3.316 i'r Gogledd, a'r hydred yn 95.854 i'r Dwyrain. Mae'r ardal yma yn y cyfandir Asia ond effeithiodd yn enbyd ar gyfandiroedd fel Affrica ac Awstralasia hyd yn oed. Canolbwynt y daeargryn oedd rhyw 30 cilomedr (19 milltir) o dan arwyneb y mor. Dyma fap o'r ardaloedd a gwledydd a effeithiwyd gan y tsunami gyda olwg eang ar y byd. Gallwch hefyd gweld llwybr y tonnau, a ble yr oeddynt wedi cyrraedd.





Mae'r map yma'n dangos fod nifer fawr o wledydd wedi cael eu effeithio gan y tsunami. Wnaeth y tonnau mawr yma torri'r trwy'r arfordir, yn dinistrio tai, lladd pobl a lleihau'r economi. Yn Indonesia bu farw y nifer mwyaf o bobl gyda dros 130,736 wedi marw. Roedd yr holl wlad wedi'i effeithio a bywydau y goroeswyr yn sitrach. Wnaeth y prif ffynhonnell incwm, pysgota, methu.




Dyma fap o uwchganolbwynt y tsunami a'r ardal cyfagos. Gallwch gweld arfordir Sumutra, ynys o Indonesia i'r Dwyrain-ardal a chafodd ei effeithio'n wael iawn. Mae arfordir Sri Lanka ac India i'r Gogledd-orllewin yn eglur. Mae ynysoedd y Maldives i'r Gorllewin, roedd ei lefelau tir isel yn galluogi'r tonnau i ddinistrio llawer – dros 15,000 o dai.

Mae'r map yn ddangos 6 gwlad a chafodd ei effeithio'n wael ofnadwy gan y tsunami a'r daeargryn. Gallwch hefyd gweld uwchganolbwynt y daeargryn a felly pam oedd y tsunami mor ddinistriol i ynysoedd fel Sumatra. Mae'n bosibl gweld yr ynys o Simeulue, tua 150 milltir i'r Dwyrain o'r uwchganolbwynt, rhwng hynny a Sumatra. Mae'n ynys fychan iawn a chafodd ei effeithio'n ofnadwy gan y tsunami.

Hefyd mae'n rhaid edrych ac ystyried effaith y tsunami ar lefydd mwy penodol fel yr ynys o Simeulue, a oedd yn agos iawn i'r canolbwynt. Gallwch gweld hefyd lefel y tir a pam yr oedd wedi cael ei effeithio cymaint.



Mae Ynys Simeulue yn rhan o'r wlad Indonesia, gyda poblogaeth o tua 70,000. Gallwch gweld o'r map bod y tir yn isel iawn, gyda dros hanner o'r ynys o dan 50m. Nid yw hyn yn rhoi amddiffyniad da oddi wrth peryglon i wneud â dwr. A gyda lefelau y môr yn codi oherwydd twymo byd eang, bydd y risg o trychinebau a damweiniau'n cynyddu. Yn ardal B3 gallwch gweld y pentref o Sumbue. Cafwyd nifer o longau pysgota eu dinistrio yn yr ardal yma. Cafodd hyn cael effaith mawr ar economi bregus yr ynys. Yn ardal C1 mae'r tref o Langi'n glir ble'r oedd bron yr holl bentre wedi cael ei ddinistrio. Meddai'r pobl lleol, wnaeth eu traddodiadau helpu nhw – roeddynt yn gwybod yn union beth i'w wneud. Mae'n debyg fod hen ddywediad ar yr ynys, 'Os oes tsunami – rhedwch am eich bywyd.' Mae hyn yn ddatganiad syml aruthrol, ond achubodd nifer o fywydau – dim ond 5 fu farw ar yr holl ynys. Er hyn bu farw tua 130,736 o bobl yn y wlad o Indonesia. Bu'r tsunami bwrw'r ynys am 7.55. Roedd hyn yn lwcus. Os oedd wedi bwrw ychydig o oriau'n gynharach byddai nifer mwy wedi marw, gan y byddent wedi bod yn eu tai yn cysgu. Ond ar yr ynys, yn enwedig yn ardal D4, ble roedd y tir yn isel, cafodd dros 90% o'r adeiladau eu ddinistrio. Saethodd y gost o ailadeiladu ac atgyweirio strwythurau ar yr ynys i fyny. A wnaeth cost i'r llywodraeth yn Indonesia, sydd yn barod yn wynebu rhyfel, dod yn broblem fawr. Mae'n glir fod effeithiau tsunami'n ddifrifol ofnadwy. Mae'n rhaid i ni ystyried y problemau economaidd a gododd – Sut y byddent yn cael arian heb eu prif ffynhonnell sef pysgota?

**Pryd digwyddodd y daeargryn a'r tsunami?**

Cafodd y tsunami ei greu gan daeargryn a ddechreuodd am 00:58:53 UTC ar y chweched ar hugain o Ragfyr, 2004, diwrnod Sant Steffan, y diwrnod ar ôl y Nadolig. Roedd y newyddion yn trawiadol iawn i bawb yr adeg yma o'r flwyddyn. Parodd y dirgryniadau am hyd at 10 munud. Cyfres o donnau wedi'u creu gan daeargryn sydd o dan arwyneb y môr yw tsunami. Mae'n debyg i grychyn (ripple) ond ar raddfa llawer yn fwy. Mae'r daeargrynfeydd yma, sy'n achosi'r tsunamis wedi eu greu gan symudiadau yng nghorff y byd. Mae platiau tectonig yn symud ar arwyneb y byd, gan eu fod yn arnofio ar y magma yng nghanol y byd. Mae'r platiau yma weithiau yn taro neu'n rhathu i fewn i'w gilydd, a dyma beth sy'n achosi'r symudiadau a dirgryniadau ar wyneb y byd sef daeargryn. Mae Tsunami yn nodwedd ffisegol yn y byd, sy'n digwydd yn naturiol. Nid yw dyn yn gallu ei rheoli.


**Beth oedd cryfder y daeargryn?**

Cryfder y daeargryn oedd 9.3 ar raddfa Richter. Bu taro arfordiroedd dros 10 o wledydd gwahanol gyda tonnau 30 metr o uchder yn teithio ar cyflymder o tua 400 milltir yr awr. Roedd yr un cryfder a grym yn y tsunami yma â 23,000 o fomiau Hiroshima. Yn technegol wnaeth creu 1.5 exajoules o rym,yn gyfatebol i 5 megaton o TNT – ac i roi hynny yn ei gyd-destun,

defnyddiwyd 2 megaton o ffrwydron yn yr holl 6 mlynedd o'r ail rhyfel byd. Roedd hyn yn daeargryn cryf ofnadwy.

**Beth yw'r dyfodol ar gyfer y bobl sy'n byw yn lle y digwyddodd y tsunami?**

Nid yw'n hawdd credu'r effaith gafodd y tsunami yma, na'r raddfa roedd pobl wedi dioddef. Mae'n anodd gredu gall tsunami a ddechreuodd ar bwys Sumatra effeithio ar bobl sy'n byw rhyw 3500 milltir (5632 cilomedr) i ffwrdd yn Somalia, Affrica. Collodd dros miliwn o bobl eu tai. Edrychwch ar y graff cylch isod o'r pobl a chafodd eu dal a'u lladd.




Rydym yn gwybod a chafodd y tsunami effaith bythgofiadwy ar bawb dros y byd, yn enwedig y rhai a dioddefodd o'r trychineb erchyll yma. Fyddan nhw byth yn gallu rhyddhau eu hemosiynau, teimladau a'u meddyliau yn llwyr o beth digwyddodd ar y diwrnod cas hwnnw. Ond mae'n rhaid edrych ar sut mae rhai agweddau a phethau wedi gwella a chael eu atgyweirio. Erbyn heddiw, mae'r cymunedau ar draws yr ardal wedi ailadeiladu ac uno eto. Mae wedi bod yn cyfnod gwael yn eu bywydau, ac yn un nad ydynt eisiau ailbrofi. Mae'r holl wledydd ac elusennau wedi gweithio'n galed ofnadwy i wella'r sefyllfa sy'n dod ar ôl tsunami. I ddofi uffern. Maent wedi bod yn llwyddiannus ar ôl blynyddoedd o frwydro economaidd a gwleidyddol,

meddyliol a corfforol a diwrnod ar ôl diwrnod o galaru unig. Bydd llai o dwristiaid yn siŵr o ymweld a'r ardal ond efallai wnaiff niferoedd codi gydag amser. Bydd rhaid i'r gwledydd wneud ymdrech arbennig i hysbysebu.

**Cwestiwn 1**

Pa gyngor a gwybodaeth sy'n angenrheidiol i'r pobl lleol er mwyn gwybod beth i wneud mewn sefyllfa tsunami? Hefyd, sut mae dealltwriaeth ac adnabyddiaeth pobl wedi newid: cyn y trychineb a nawr?

Mae'n rhaid i bobl wybod ble i fynd mewn argyfwng a pa fath o weithredoedd sy'n helpu yn y sefyllfa. Mae angen cynllun clir a hawdd i ddeall sy'n diogelu pob aelod o'r cymuned. Bydd rhaid iddynt redeg i dir uchel, cyrraedd pen adeilad neu cuddio yn amddiffynfa addas. Dylai'r pobl wybod pa arwyddion sy'n dangos bod tsunami yn dod, er enghraifft y môr yn ymgilio, a hefyd dealltwriaeth a gwybodaeth i medru dehongli'r negeseuon y systemau rhybuddio yn gywir. Bydd hyn yn sicrhau siawns gwell o oroesi, ond mae'n hanfodol bod pawb yn deall beth i wneud yn y sefyllfa. Bydd gwybodaeth fel llefydd addas i ffoi, ardaloedd sy fwyaf peryglus, a sgiliau cymorth cyntaf yn helpu'r pobl i ystyried beth yw'r broblem a sut i delio gyda fo a helpu eraill. Yn y diwedd bydd y sgiliau ac addysgu yma'n achub bywydau.

Mae dealltwriaeth pawb wedi newid ers y tsunami, mae'r pobl yn fwy ymwybodol o fygythiad y mor. Ond dydy'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn dal ddim yn gwybod beth achosodd y tsunami, a beth dylent wedi gwneud yn y sefyllfa. Mae fel petai gan pawb yr un wybodaeth a cyn trychineb. Nid yw'r llywodraeth wedi hyrwyddo'r syniad o addysgu am tsunamis llawer.

**Cwestiwn 2**

Sut oedd y digwyddiad, damchwa yma'n debyg/gwahanol i tsunamis blaenorol?

Roedd y tsunami yma'n llawer fwy cryf na tsunamis o'r blaen, a doedd neb yn ei disgwyl chwaith. Mae'n debyg yn y ffordd cafodd cymaint eu lladd a'r dioddef yn debyg hefyd. Ond yn wahanol, roedd ymateb byd eang yn llawer gwell nag o'r blaen, diolch i'r cyfryngau. Roedd mwy o gymorth a roedd hi'n haws atgyweirio problemau. Mae sawl tsunami wedi bod yn yr ardal yma, ac yn y cefnfor tawel. Mae'r sefyllfa yn debyg gan fod tsunamis yn anffodus yn tueddu taro gwledydd llai economaidd ddatblygedig, sy'n gwneud y drychineb yn galetach i helpu a cywiro.

### Cwestiwn 3

Sut mae bywydau y pobl yn yr ardal wedi newid ers y digwyddiad – beth fydd eu dyfodol?

Ers y tsunami mae bywydau nifer o pobl wedi dychwelyd i'r arfer eto. Ond roedd pobl yn dal heb gartref un blwyddyn wedi'r tsunami. Mae'n eglur nad oedd ymateb gwleidyddol yr ardal yn dda iawn, ac nid oeddynt wedi paratoi'n dda iawn. Mae llawer o bobl yn fwy tlawd oherwydd y trychineb, yn enwedig gan fod economi'r wlad wedi ymollwng. Mae llawer o bobl yn y gwledydd yma'n byw heb rhieni, heb brodyr na chwiorydd, heb blant oherwydd hyn. Bydd hi'n galed iawn anghofio'r bobl a gollon nhw. Bydd cyflwr pethau'n gwella wrth gwrs a bydd y gwledydd yn atgyweirio ychydig yn fwy mis wrth fis.

### Cwestiwn 4

Pam oedd cymaint o bobl wedi marw? – Rhesymau.

Roedd cymaint o bobl wedi marw oherwydd doedd neb yn disgwyl i'r tonnau ddod. Doedd dim rhybudd. Doeddynt ddim wedi paratoi na chael amser i rhedeg i ffwrdd. Roedd y tai mewn cyflwr gwae felly llifodd y dwr trwyddynt yn hawdd, yn lladd unrhyw un a oedd tu fewn. Roedd yr ardaloedd arfordirol yn eithaf dwys felly roedd nifer o bobl yn cael eu lladd mewn amser byr. Oherwydd bod gwaith, diwylliant a bywydau pawb yn chwyldroi o amgylch y mor, roedd nifer o bobl ar y traeth ar y cyfnod a nhw oedd y cyntaf i gael eu fwrw. Bu farw tua 180,000 o bobl y diwrnod hwnnw.

### Casgliad


Mae digwyddiadau naturiol wedi lladd pobl ers y dechreuad. Mae hyn yn enghraifft arall. Roedd y trychineb ar y chweched ar hugain o Ragfyr 2004 yn un trist ac angheuol. Mae'r ddamwain yn troi o amgylch meddyliau pawb ar draws y byd, yn enwedig yn yr ardal a effeithiwyd. Ni fyddant byth yn cael ei atgyweirio'n gywir, a bydd eu calonnau'n bythol wedi'u dorri. Nid oes ffordd pendant o atal y digwyddiadau yma. Mae'n rhaid i ni cofio fod natur yn fwy cryf na ni o bell ffordd. Roedd y danchwa yma'n brawf o hynny. Mae'n bygwth ers achau yn hanes, ac yn un cyfoes hefyd. Mae natur yn pŵer anghredadwy, yn brydferth ac yn dinistriol, yn bywyd ac yn marwolaeth. Dyma yw dioddefaint pawb sy'n cael eu dal yn ergyd natur.

**Gwerthusiad**

Rydw i wedi mwynhau y prosiect yma. Mae'r cyfle i mi dysgu am ddioddefaint a marwolaeth wedi datblygu fy sgiliau fel person yn fawr iawn. Rwyf yn gallu deall sefyllfaoedd o drychineb yn well trwy astudio'r pwnc yma, a hefyd wedi edrych ar beth yw'r cost o fyw mewn ardal peryglus. Mae fy nealltwriaeth o beryglon naturiol wedi gwella yng hyd a fy sgiliau personol, map, mynegi barn a trafod pynciau llosg. Dwi'n gallu sylweddoli ac adnabod rhai o peryglon y dyfodol, a'r ffyrdd o'i datrys hefyd. I wella tro nesaf rwyf yn credu a gallaf ymestyn y nifer o fapiau er enghraifft llun o drawsdoriad ynys neu wlad a labelu'r tirffurfiau gwahanol.

**Beth achosodd y daeargryn a'r tsunami?**

Mae'r gair tsunami yn meddwl, 'Great Harbor Wave' mewn Siapaniaidd.' 'Trawsdoriad o ddau blât yn symud i greu tsunami yw hyn. Gallwch weld oddi tan y cramen mae'r fantell. Mae hyn yn fath o lafa ac yn boeth iawn. Mae hylif a mae platiau tectonig y byd yn llithro ar y mantel yma. Dyma beth sy'n achosi iddynt gwrthdaro weithiau. A oes ffordd o atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf?'




Gallwch weld sut mae tsunami yn cael ei creu yn y diagram/trawsdoriad yma. Yn y llun, mae'r platiau tectonig yn bwrw i fewn i'w gilydd, sy'n gwneud i un plât saethu i fyny. Mae hyn yn rhyddhau llawer o egni, a mae'r dwr sy'n gorfod symud o'r ffordd yn y broses, yn dechrau tsunami. Mae hyn yn teithio'n gyflym ofnadwy. Wrth i hyn dod yn agosach i dir, bydd yn arafu ond yn codi'n uwch. Dyma beth ddigwyddodd yn yr achos yma.

Achos y tsunami oedd daeargryn o dan lefel y mor. Mae unrhyw ddigwyddiad naturiol, er enghraifft daeargryn, tsunami, syched a.y.y.b yn nodwedd ffisegol. Mae lefel y mor yn gallu cael effaith ar pa mor difrifol yw tsunami, gyda mwy o uchder mae mwy o berygl i wledydd isel y byd. Wnaeth y dau plât tectonig, cefnforol Awstralia ac India, ar y ffin symud yn ffordd tsunami hefyd. Eto, mae'r rhesymau yma yn nodweddion ffisegol.

Mae nifer o bobl yn cysylltu'r tsunami yma gyda daeargryn a tsunami 1833, ond dal 171 mlynedd yn hwyrach digwyddodd yn union yr un peth, a gyda'r un effaith. Nid yw'n hawdd dweud pryd bydd tsunami yn dod, ond ychydig cyn i'r ton bwrw'r wlad mae'r dwr ar hyd y traeth a'r arfordir yn ymgilio. Mae hyn oherwydd bod y dwr yn casglu gyda'r ton. Mae hyn yn rhybudd bychain, ond os oedd pobl lleol yn gwybod hynny, mae'n siŵr byddai llai wedi marw.

Er bod tsunami yn cael ei creu gan nodweddion ffisegol, mae nodweddion dynol yn cyfrannu at y marwolaethau. Mae tai hen, rhad yn hawdd i ddinistrio, a mae'r trefi anhrefnus yn gwneud hi'n galetach i ffoi. Mae'r nodweddion yma i gyd yn ddynol ac i gyd yn beryglus. Mae'r niferoedd cyfyngedig o amddiffynfeydd yn erbyn y mor hefyd wedi wneud i'r tsunami bod yn fwy angheuol. Byddai waliau ar yr arfordir wedi helpu'r sefyllfa yma. Nid oeddynt yna oherwydd ni allai'r llywodraeth yn y wledydd sy'n agos i'r uwchganolbwynt fforddio adeiladu'r strwythurau yma.

**Beth oedd effeithiau'r daeargryn a'r tsunami?**

Effeithiodd y daeargryn a'r tsunami ar y byd yn gyfan, nid yn unig yn lleol. Roedd y cyfryngau yn sicrhau gwasgariad y newyddion yn fuan, a chafodd pawb eu trywanu gan y tsunami. Effeithiodd y tsunami fwyaf ar y gwledydd cyfagos sef: Indonesia, Sri Lanka ac India. Mae rhain yn dod o dan problemau Economaidd, Crefyddol/Meddyliol, Cymdeithasol, Gwleidyddol ac Amgylcheddol. Y prif effeithiau wrth gwrs oedd y marwolaethau a'r dinistriad ond beth arall?

**Economaidd**

Wnaeth y tsunami dinistrio llawer o'r marchnad pysgota sef prif swydd y cyhoedd a dyma sut yr oeddynt yn cael arian. Doedd gan filoedd o bobl ddim gwaith. Heb yr elwa yma o bysgota, dinistriwyd yr economi mewn fflach a mae'n galed i ailadeiladu'r sefyllfa a chymuned heb yr arian yma. Cafodd llawer o ffatrïoedd eu dinistrio – dioddefaint arall i'r economi. Doedd dim llawer o ffyrdd o ennill arian. Roedd yn rhaid i'r llywodraeth talu llawer i wneud atgyweiriadau, a heb arian roedd o'n galed iawn i helpu pobl, yn enwedig gyda'r holl adeiladau oedd wedi cwympo a'i difrodi. Gyda economi llai mae'r gwlad yn fwy tueddol i ddamweiniau naturiol gan na all yr ardaloedd cael digon o arian i amddiffyn, paratoi neu helpu ei hun. Mae'r holl sefyllfa fel cylch diafol. Beth yw'r datrysiadau tybed? Cofiwch mae twristiaeth yn gallu ennill llawer o arian i'r wledydd yma. Os yw digon o bobl yn ymweld a'r wlad byddant yn siŵr o'i wario eu arian yno, yn hybu'r economi, ond gyda damchwa fel hyn, mae pobl yn ofni mynd yno.

Cafodd y tsunami yma effeithiau clir, amlwg ac eraill sy'n llai eglur, wedi eu cuddio o dan y tywod. Mae'n bwysig sylweddoli gyda llai o arian mae'n anoddach byth i atgyweirio pethau – a dyma pam mae'r gwledydd yma yn dibynnuadwy ar elusennau a rhoddion. Er enghraifft Cymorth Cristnogol.

Mae cymorth Cristnogol yn asiantaeth cymorth rhyngwladol. Roedd yr elusen yn gwybod bod ganddynt problem mawr, digwyddiad aruthrol, pan clywon nhw am y danchwa yma y daeargryn fwyaf mewn 40 mlynedd. Roedd angen help yn syth, bwyd, dwr a cysgod angen eu darparu yn gyflym. Fe wnaeth y cyfryngau helpu llawer, ac roedd ymateb da – 25 miliwn o bunnoedd wedi eu rhoi o fewn 5 dydd. Ond roedd darpariaeth y nwyddau yn galed, yn enwedig yn India ble cafodd y dosbarth cymdeithasol effaith. Nid oedd y Dalits, sef pobl y cymuned, ym marn pobl uwch i dderbyn yr un fath o gymorth. Mewn amser o argyfwng fe wnaeth diwylliannau gwneud pethau'n galetach. Crefydd yn gallu cael effaith o broblemau hefyd. Ond yn y diwedd fe wnaeth y pobl lleol dod yn llawer o help. Yn anffodus mae cymunedau am dychwelyd i'r un ardal peryglus. Dyma yw eu cartref nhw ers cenedlaethau. Ond mae hyn yn meddwl maent yn ddioddef yr un digwyddiadau tro ar ôl tro, canrifoedd o artaith a marwolaeth. A dyna yw Cymorth Cristnogol, sy'n fy arwain at fy mhwynt nesaf.

**Crefyddol/Meddyliol**

Cafodd pawb yn yr ardal o'r cefnfor India eu effeithio gan y damchwa. Gyda pawb wedi colli aelod o'r teulu. Roedd cymunedau wedi eu ddinistrio a'r gwledydd yn gyflwr o sioc a galaru. Mae nifer yn dal i ofni'r mor a wedi eu trawmateiddio'n ofnadwy. Mae hyn yn broblem fawr pan mae arfordir hir iawn gan y wledydd, yn enwedig gyda diwydiant pysgota'n pwysig. Meddwl am drio osgoi'r traeth pob dydd am dy fod di'n rhy ofnus o dy atgofion, dy colled. Mae'r effaith meddyliol a chafodd y tsunami ar yr ardal wanhau ambell credoau y pobl yn y wlad. Mewn rhai sefyllfaoedd mae'r wlad yn cael ei gwahanu gan drychinebau, a mae pobl yn dechrau rhyfela dros crefydd, gwlad ac arian. Drwy hanes mae damweiniau naturiol wedi achosi gwledydd newydd i gael eu ffurfio. Mae problemau meddyliol yn gallu para yn bell i'r dyfodol, ac yn un o'r effeithiau cudd ond pwerus y tsunami.

**Cymdeithasol**

Yn ystod y cyfnod o'r tsunami bu farw miloedd o bobl. Nid oedd neb wir yn disgwyl y digwyddiad, a'n sicr neb yn barod amdani. Cafodd tai ar hyd yr arfordir eu dinistrio yn gadael y rhan fwyaf o'r pobl heb dwr, bwyd, cysgod na meddigyniaeth. Os na laddodd y tonnau'r pobl, byddai newyn, salwch a syched yn siŵr o'u lladd. Roedd angen cymorth yn gyflym. Cafodd iechyd

pawb ei niweidio gan y daeargryn a'r tsunami. Hefyd, fe ostyngodd y poblogaeth yn ddramatig ac effeithiodd yn anghredadwy ar y gwledydd. Gan fod cymaint o bobl wedi marw, wnaeth y cymunedau dioddef a'u hysbryd a cyd-weithio gael eu chwalu. Gyda'r tonnau daeth newid i ddiwylliannau a credoau fel rwyf wedi esbonio'n uwch. Mae rhai'n siŵr o feddwl, 'Pam nad ydy Duw yn fy helpu?' Cafodd teuluoedd ei rhwygo ar wahân, un ai gan marwolaeth neu colled. Mae'n siŵr fod cynyddiad yn dor-cyfraith gan nad oedd tegwch a threfn yn yr ardaloedd. Roedd hi'n anodd rhwystro neb rhag dwyn. Yn y bôn, cafodd holl poblogaeth y gwledydd eu effeithio.

**Gwleidyddol**


O'r adeg bu'r tsunami enfawr yma bwrw'r wledydd sy'n amgylchynu'r Cefnfor Iwerydd, roedd y llywodraethau'n gwybod bod ganddynt problem anferthol. Roedd yn rhaid iddynt talu llawer o arian i atgyweirio'r problemau a difrod. O ganlyniad i hyn, roedd yn rhaid i'r trethi godi, a theimlai'r brodorion yn anhapus iawn am hyn. Roedd rhaid i'r llywodraeth dod a llawer o risg i wledydd eithaf bregus ei cryfder yn barod. Yn rhai ardaloedd daeth rhyfel dros fwyd, nwyddau a cysgod, pobl yn anghytuno gyda polisïau a dull llywodraeth o drafod y sefyllfa ofnadwy yma. Roedd rhaid i'r byddin dod i helpu symud y rwbel, i chwilio am gyrff, i drefnu popeth. Oherwydd hyn roedd y wlad mewn mwy o berygl o gael ei ymosod arni. Hefyd roedd rhaid i'r fyddin actio fel yr heddlu gan fod tor-gyfraith yn codi. Newidiodd y tsunami y ffordd cafodd y gwlad ei rhedeg, gyda cyfreithiau, cynghorau a'r llywodraeth yn gorfod newid ei ffordd o weithio i felly helpu sefydlogi yn y trychineb.

**Amgylcheddol**

Pan wnaeth y tsunami daro arfordir tua 10 gwlad wahanol, newidiodd siâp y tir. Cafodd ardaloedd o dir ffrwythlon ei newid i fod yn fwy fel traeth, gyda tywod o amgylch y lle. Wnaeth yr arfordir yn sawl lle ymgilio, a daeth y traethau clir, prydferth yn mynwent i'r meirw neu'n rhan o'r mor. Cafodd creigiau eu erydu gan y dwr, a pridd ei olchi i ffwrdd. Wnaeth hyn meddwl bod planhigion a gwair wedi cael eu ladd hefyd. Roedd llai o dir gwyrdd. Gan fod llai o blanhigion, newidiodd y ecosystem, gyda llai o ocsigen yn cael ei rhyddhau. Ymddangosodd mwy o lynnoedd oherwydd y gormodedd o ddŵr. Cafodd coed eu dinistrio, a diflannodd cynefin anifeiliaid. Roedd hyn yn peryglu nifer o fathau o anifeiliaid a phlanhigion yn nhermau difodiant. Cafodd planhigfeydd a ffermydd eu boddi, a oedd yn golygu llai o gynhyrchion. Aeth gwely'r graig ar yr arfordir yn llwm, a daeth popeth yn fwdlyd ac yn gwlyb. Roedd yr effeithiau amgylcheddol yn niferus ac yn anghredadwy. Newidiodd y byd oherwydd y tsunami.

**Pam fod y tsuanami wedi bod mor ddinistriol?**

Y prif reswm pam yr oedd y tsunami mor ddinistriol oedd ei gryfder. Roedd ganddo cryfder a oedd yn fwy na bron unrhyw tsunami o'i flaen. Creodd hyn donnau pwerus cyflym a dorrodd yr ardal yn ddarnau. Isod, mae graff sy'n cymharu'r tsunami ag eraill mewn hanes.




**Beth y gellid bod wedi ei wneud ar gyfer achub mwy o bobl?**

Bydd y paragraff yma yn trafod y datrysiadau a oedd yn bosibl i'r gwledydd yma yn ystod y tsunami. Dyma restr o'r datrysiadau yma:

- I ddechrau y syniad o waliau. Bydd waliau yn fantais gan eu fod yn fawr, cryf ac yn gallu gwrthwynebu nifer o'r bygythiadau sy'n dod o'r mor. Bydd llai o farwolaethau a difrod ac yn hefyd yn sicrhau diogelwch y pobl. Yn anffodus, mae rhain yn strwythurau mawr iawn, sy'n hyll i edrych arnynt. Mae'r datrysiad yma yn un costus a drud ofnadwy, a hefyd yn un sydd yn rhwystro'r cyhoedd i ymweld a'r raethau a'r mor. Bydd hyn yn meddwl bydd llai o dwristiaid a dim pysgota o gwbl, a felly syniad sy'n colli i gyd o brif elwa y gwledydd yma. Mae'n diddorol i nodi fod rhai gwledydd yn defnyddio'r syniad yma, ac yn adfer rhai problemau o gost trwy eu adeiladu allan o sbwriel. Mae hyn yn dda gan ei fod yn ailgylchu ac yn dda i'r amgylchedd ond efallai mae'r wal yna yn dod yn fwy bregus.

- Hefyd mae'r syniad o adeiladau sy'n gallu gwrthsefyll peryglon naturiol. Yn America, mae sawl adeilad sy'n gallu gwrthwynebu corwyntoedd. Hefyd, mae'r ardal o San Francisco wedi addasu i gael mwy o adeiladau sy'n gallu sefyll trwy rymoedd daeargryn. Mae'n bosibl cael adeiladau felly sy'n gallu gwrthwynebu tsunami. Bydd y manteision o hyn yn eang, bydd llai o ddifrod, llai o adeiladau'n cwympo a felly llai o ddigartrefedd a llai yn marw. Mae'r adeiladau yma yn fawr ac yn gallu cynnwys nifer o bobl. Hefyd maent yn edrych yn eithaf cyfoes a cyfoethog. Ond eto mae'r syniad yma yn drud iawn, a felly ddim yn weddus i'r gwlad llai economaidd ddatblygedig a tlawd. Mae'r anfanteision yn cryf, er enghraifft beth os oedd un o'r rhain yn cwympo yn ystod tsunami, yna fyddai gan neb ffydd yn y syniad. Ond datrysiad yw hi beth bynnag, ond sylwch ar adeiladwaith y trigfeydd yma. Maent wedi ei cynllunio a'i datblygu mewn ffordd unigryw iawn, i allu atal y sefyllfa o perygl naturiol. Mae'r pensaernïaeth yn ardderchog, nid yn unig mae'r siâp yn prydferth ac yn gwahanol, mae'n effeithio hefyd. Bydd hi'n ddiddorol gweld os caiff y syniad yma ei ddefnyddio, yn lle osgoi'r perygl, ei wynebu fo.

- Mae'n bwysig fod ffyrdd yr ardaloedd dan fygythiad yn clir ac yn llydan. Dyma yw un o'r datrysiadau, i gael hewlydd ymgilio, sy'n cyflym ac yn syth. Bydd rhain yn arwain i ffwrdd o'r perygl. Hefyd os yw'r trefi a'r dinasoedd yn clir bydd hi'n haws i ffoi a rhedeg i ffwrdd o'r tonnau. Os bydd hyn yn cael ei defnyddio gyda systemau rhybuddio da, bydd nifer bychain iawn yn marw neu'n cael ei niweidio. Ar wahân i leihau peryglon, bydd dinasoedd trefnus yn pert ac yn lle i ymlacio. Felly bydd y syniad yma'n siŵr o ddenu fwy o dwristiaid i'r ardal. Hefyd os bydd y tai ar y tir uchaf posib, bydd y dwr yn llai tebygol o'i gyrraedd. Mae'r anfanteision yn broblem ar y llaw arall. Bydd rhaid ail-wneud nifer o ardaloedd trefol gan ailosod pob adeilad. Ac unwaith eto bydd yr arian yn achosi gofid. Bydd rhaid i bobl teithio'n bellach i'r mor a bydd hyn yn gwneud eu swyddi'n galetach. Mae'r syniad yn un eithaf drud, ond er hynny'n effeithiol iawn. Diddorol yw hi i nodi fod goroeswyr y tsunami yn meddwl fyddai system drefnus gyda hewlydd ymgilio wedi achub mwy o bobl.

- Syniad arall yw coed diogelu. Os bydd y llywodraeth yn plannu coedwigoedd rhwng y llefydd gyda pobl ynddi a'r mor byddent yn actio fel wal yn erbyn y tsunami. Bydd y coedwigoedd yma yn lleihau effaith a grym y tsunami a hefyd yn datrysiad da i broblemau fel cynhesu byd-eang a lefelau'r mor yn codi. Bydd yr atalfa yma yn

gallu rheoli'r dwr yn well, yn gadael iddo lifo i'r pridd yn lle boddi'r ardal. Manteision y syniad yma yw bydd eto llai o bobl yn marw, bydd llai o difrod a bydd mwy o ocsigen yn cael ei rhyddhau gan y coed i greu ecosystem gwell. Nid oes nifer o anfanteision i'r syniad yma, ar wahân i'r ffaith na does llawer o le i blannu coed a phlanhigion ar ambell i wlad. Mae'r ardal yn cynnwys nifer o ynysoedd a bydd hi'n galed iawn i ddarganfod lle. Hefyd bydd llai o le i ffermydd a caeau sy mor pwysig i wledydd gyda economi gwan. Mae'n diddorol i weld bydd y coedwigoedd yma yn gallu cyflenwi cartref a cynefin i'r bywyd gwyllt.

- Mae'r datrysiad arall yn trafod y syniad o godi tai sydd yn agos i'r arfordir. Bydd llwyfannau concrit yn medru ychwanegu lefel uwch i'r tir a lle mwy diogel i fyw. Bydd y llwyfannau yma yn galluogi'r dwr a tonnau i lifo o dan o, yn cadw'r pobl allan o'r ffordd, ac allan o niwed. Manteision y syniad yma yw'r ffaith bydd y tonnau methu cyrraedd y tai a'r pobl, a felly ni fydd un rhywun yn marw. Bydd llai o difrod a bydd twristiaid eisiau dod oherwydd y diogelwch sydd yn bodoli. Ond mae'r llwyfannau yma yn hyll ac yn diflas ac yn costi llawer gormod i wlad fel Sri Lanka neu Indonesia. Er hyn, mae'n syniad sydd wedi datblygu llawer a mae cwmnïau a busnesau mawr y byd yn edrych ar hyn ac yn awgrymu o i lywodraethau ar draws y byd. Diddorol yw hi i weld pa mor fawr bydd rhaid i'r llwyfannau yma fod i allu osgoi tonnau sydd dros 30m o uchder, ac i darganfod sut bydd ynysoedd a gwledydd bach yn gallu cynnal rhywbeth fel hynny.

- Y syniad olaf a'r un rwyf yn hoffi a sydd yn gwneud fwyaf o synnwyr i mi, yw'r syniad o systemau rhybuddio effeithlon. Mae'n syniad da oherwydd mae'n weddol rhad ac yn hawdd i baratoi. Bydd y system yn rhybuddio pawb pan mae tsunami ar y ffordd gan byddo'n teimlo'r dirgryniadau cyn neb arall. Bydd y syniad yma yn gallu bod yn un rhyngwladol, sy'n cysylltu a uno'r byd. Hefyd o fewn deg funud ychwanegol mae pawb yn cael i baratoi bydd digon o bobl yn gallu ffoi i arbed bywydau. Er bod anfanteision, er enghraifft ni fydd y syniad yma'n diogeli'r tai, o leiaf mae bywydau yn cael eu hachub. Mae'n eithaf rhad mewn cymhariaeth â'r datrysiadau eraill. Bydd y system yn gyflym ac yn gallu newid y ffordd mae pobl yn byw yn y dyfodol. Bydd hi'n syniad da hefyd i addysgu y cyhoedd am gynllun dianc. Bydd hyn yn sicrhau trefn, a'r gallu i wagu ardaloedd yn gyflym. Bydd pawb yn gwybod yr ychydig o arwyddion sy'n dod gyda tsunami a sut i drafod y sefyllfa.

## Sylwebaeth daearyddiaeth

Tsunami Cefnfor India 26 Rhagfyr 2004. Y dysgwr wedi ymchwilio'n annibynnol gan ddefnyddio'r we er mwyn ateb pump cwestiwn gosod ac yna ei gwestiynau annibynnol ef.

- Trwy gydol yr ymchwiliad mae'r dysgwr 'yn dangos ac yn cymhwyso'n effeithiol ddyfnder ac ehangder ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar amryw o raddfeydd', e.e. yng nghyd-destun digwyddiad cyfoes Tsunami 2004 a'r materion cysylltiedig. Mae'r dysgwr hefyd yn 'defnyddio, cymhwyso ac yn dewis yn briodol o ystod eang o dermau a thechnegau daearyddol er mwyn cyfleu gwybodaeth, safbwyntiau a phenderfyniadau yn effeithiol ac yn fanwl gywir', *e.e. mapiau, graffiau, diagramau, ffotograffau a gwaith ysgrifenedig* (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Mae'r dysgwr yn dangos nodweddion o Berfformiad Eithriadol yn ei waith ymchwil ac mae wedi 'cymhwyso ei wybodaeth a'i sgiliau yn effeithiol' er mwyn datblygu ei ddealltwriaeth o fewn yr ymholiad.
- Mae'n 'dehongli mapiau i gael gwybodaeth ac yn llunio tri map ...sy'n cyfleu ei ddealltwriaeth' (nodweddion o Lefel 8) o leoliad a maint y digwyddiad. Mae'n ehangu ar hyn ymhellach trwy 'ddehongli a dadansoddi gwahanol fapiau yn annibynnol i ...adnabod perthnasoedd rhwng patrymau gofodol' (nodwedd o Berfformiad Eithriadol) yn Map 3 a'r paragraff cysylltiedig (Ynys Simeulue) sy'n nodi cysylltiad rhwng uchder y tir a'r risg o effeithiau peryglon naturiol.
- Mae'r dysgwr yn 'deall fod prosesau a phatrymau yn gweithredu ar wahanol raddfeydd a bod achosion ac effeithiau cymhleth ganddynt' (nodwedd o Berfformiad Eithriadol) fel y gwelir yn y diagram anodedig o'r ymyl platiau a'r esboniad ysgrifenedig cysylltiedig.
- Wrth ateb y cwestiwn 'Beth oedd effeithiau'r daeargryn a'r tsunami?' mae'n 'cydnabod ac yn cynnig esboniadau ar gyfer y rhyngweithiadau cymhleth o fewn a rhwng prosesau'. Yma ceir astudiaeth o'r prosesau tectonig a achosodd y tsunami sef y prosesau economaidd, crefyddol, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol. Ystyrir yr effeithiau ar raddfa fydol (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).

- Mae'n gofyn nifer o 'gwestiynau treiddgar ac yn gwneud gwaith ymchwil ...yn annibynnol'. Yng nghwestiwn 3, mae'n 'esbonio ac yn rhagfynegi newid dros gyfnod o amser ac yn deall y gall newid ddigwydd yn y tymor byr a'r tymor hir' (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Wrth ateb y cwestiwn 'Beth y gellid bod wedi ei wneud ar gyfer achub mwy o bobl?' mae'n 'dadansoddi tystiolaeth ac yn gwneud defnydd dethol o syniadau a damcaniaethau daearyddol er mwyn dod i gasgliadau a brofwyd' (nodwedd o Berfformiad Eithriadol). Mae'n 'gwerthuso gwahanol safbwyntiau a barnau i dynnu casgliadau, gwneud penderfyniadau a llunio barn wybodus, a brofwyd am faterion a digwyddiadau daearyddol cyfredol', e.e. wrth ddweud 'Diddorol yw hi i nodi fod goroeswyr y tsunami yn meddwl fyddai system drefnus gyda hewlydd ymgilio wedi achub mwy o bobl'.

## Ystyriaethau llythrennedd


### Sylwebaeth


- Cynnal diddordeb trwy gyfarch y gynulleidfa, e.e. 'Edrychwch ar y graff cylch', 'Gallwch weld...', 'Oeddech yn gwybod...?'
- Llwyddo i greu argraff o faint y golled trwy ailadrodd yn ddramatig, e.e. 'heb rhieni, heb brodyr na chwiorydd, heb blant oherwydd hyn.'
- Brawddegau fer, drosiadol, e.e. 'I ddofi uffern.'
- Defnydd effeithiol o ansoddeiriau, e.e. '...o galaru unig.'
- Cyflwyno gwybodaeth ac egluro yn drefnus ac mewn manylder.
- Trawsieithu yn dilyn ymchwil.
- Cefnogi barn â thystiolaeth a dod i gasgliad.
- Penawdau ar ffurf cwestiynau yn rhoi strwythur i'r gwaith.
- Cyflwyno gwybodaeth trwy ddefnyddio gwahanol arddulliau, e.e. graff, ffotograff wedi eu labelu'n briodol.


### Y ffordd ymlaen


- Dileu'r elfennau Seisnig, e.e. 'arfordir Gorllewinol o Sumatra', 'yn y cyfandir Asia', 'yr ynys o Simeulue'.
- Defnyddio'r treiglad meddal:
  - ar ôl 'yn' traethiadol, e.e. 'yn trawiadol' ('yn drawiadol'), 'yn drud' ('yn ddrud'), 'yn diflas' ('yn ddiflas')
  - ar ôl 'neu', e.e. 'neu cuddio' ('neu guddio')
  - ar ôl y fannod 'y' ac 'r' mewn enw benywaidd unigol, e.e. 'o'r cymuned' ('o'r gymuned')
  - ar ôl yr arddodiad 'heb', e.e. 'heb rhieni, heb brodyr' ('heb rieni, heb frodyr').
- Osgoi'r defnydd o ffurf gwmpasog y ferf, e.e. 'Wnaeth y tsunami dinistrio', a defnyddio'r ffurf gryno ('Dinistriodd y tsunami').
- Gwahaniaethu rhwng 'yn' a 'mewn'.
- Defnydd sicrach o'r ferf amhersonol, e.e. 'Cafwyd nifer o llongau... eu dinistrio' ('Cafodd nifer o'r llongau eu dinistrio').


## 2. Ymchwiliad unigol ar y thema 'Effeithiau Cynhesu byd-eang ar ynysoedd y Maldives?'





Mapiau yn dangos lleoliad y Maldives
Dyma ynysoedd y Maldives.
Male yw brifddinas y Maldives.
Lledred
Hydred
+90
+60
+30
0
-30
-60
-90
-180
-90
0
+90
+180
G
Beth sy'n achosi'r wahanol ynysoedd a cyfandiroedd symud?
Mae llawer o ynysoedd yn ffurfio'r Maldives. 1190 ynys i fod yn gywir.
Â oedd yr ynysoedd yma wedi cyfuno o gwbl, ar rhyw adeg?


Map yn dangos Lleoliad Male', Maldives
Pwy darganfyddodd y Maldives? A pryd?
Fe gafodd Male', a'r Maldives ei ffurfio pan wnaeth llosgfynyddoedd â oedd wedi soddi codi o'r môr.
Male'
Vilingili
G
Mae male', yn agos i dau atol/ynys arall: Vilingili a Hukule


Graff yn dangos Dyodiad a Heulwen Misol, y Maldives
Uchelbwynt y dyodiad yn y Maldives, ydy tua 285mm, ym mis Mai.
Iselbwynt y dyodiad yn y Maldives, ydy tua 40-45mm, ym mis Chwefror.
Uchelbwynt heulwen misol ydy tua 260 awr, ym mis Mawrth.
Iselbwynt heulwen misol ydy tua 185 awr, ym mis Medi.
Ar ba wahanol misoedd, ydy'r tymorau?
300
250
200
150
100
50
0
I
Ch
M
E
M
Me
G
A
M
H
T
R
Mis



Graff yn dangos lefelau y môr yn codi, yn ystod yr adeg o 1860 – 2100
Beth sy'n achosi hyn?
Cod i uchelbwynt o 0.4 metr, ac am barhau.
0.5
0.4
0.3
0.2
0.1
0
1860
2100





Diagram yn dangos trawsdoriad anhygoel y Maldives
LÂGWN
Pa atoll/ynys ydy'r trawsdoriad yn ei ddangos?
Mae uchafbwynt yr ynys, yn llai na hyd yn oed 5 metr.
Mae'r trawsdoriad yn disgyn i oleuaf 90m.
10
50
70
90

**Beth sy'n achosi cynhesu byd eang?**

Mae llawer o bethau yn achosi cynhesu byd eang. Un peth ydy llygredd trydanol. Mae trydan yn achosi llygredd mewn llawer o ffyrdd, rhai yn waeth nag eraill. Mae tanwyddau ffosil yn cael eu llosgi er mwyn creu trydan. Mae tanwyddau ffosil yn cael eu gwneud o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi marw. Enghraifft o danwydd ffosil ydy olew a phetroliwm. Mae llawer o lygreddau (cemegau sydd yn llygru'r aer, dŵr a'r tir) yn cael eu hanfon i'r aer wrth i danwyddau ffosil gael eu llosgi. Mae rhai o'r cemegau hyn yn cael eu galw yn nwyon tŷ gwydr.

Rydym yn defnyddio'r ffynonellau o egni hyn yn llawer mwy na'r ffynonellau sy'n cynhyrchu llai o lygredd. Petroliwm yw un ffynhonnellau sydd yn cael ei ddefnyddio llawer e.e. i drafnidiaeth, creu trydan, ac i greu llawer o bethau eraill. Er bod y ffynhonnell hon yn cynhyrchu llawer iawn o lygredd, mae'n cyflenwi 38% o egni'r Deyrnas Unedig.

Rhai enghreifftiau eraill o ddefnyddio egni a llygru'r aer ydy:

| Dynol | Ffisegol |
|---|---|
| Troi'r golau arno<br>Gwylio'r teledu<br>Gwrando ar y radio<br>Golchi neu sychu dillad<br>Defnyddio sychydd gwallt<br>Radio mewn car<br>Cynhesu pryd o fwyd yn y microdon<br>Defnyddio cyflyrydd aer<br>Chwarae gêm fideo<br>Defnyddio peiriant golchi llestri | Rhyddhad o nwy methan o dwndra Arctig a gwlypdiroedd |

Wrth i chi wneud y pethau hyn, rydych yn achosi i fwy o nwyon tŷ gwydr gael eu rhyddhau i'r aer. Os ydych yn ystyried faint o weithiau'r dydd yr ydych yn gwneud y pethau hyn, byddwch yn sylweddoli cymaint yr ydym ni yn defnyddio trydan. Hefyd, mae'n rhaid ichi ystyried faint o weithiau mae pobl arall yn gwneud y pethau hyn!

Pan fyddwch yn taflu ysbwriel, mae'r ysbwriel yn mynd i domennydd. Wedyn, mae'r ysbwriel weithiau'n cael ei losgi. Mae hyn yn rhyddhau nifer fawr o nwyon tŷ gwydr i'r aer, ac mae'n gwaethygu cynhesu byd eang. Nodwedd arall sydd sy'n gwneud cynhesu byd eang yn waeth ydy pan dorrir coedwig i lawr. Mae coedwig a phlanhigion eraill yn casglu carbon deuocsid, sydd yn nwy tŷ gwydr.

Mae carbon deuocsid yn casglu golau a gwres (egni pelydrol) a gynhyrchir gan yr haul, ac mae hyn yn gwneud y byd yn dwymach. Mae gwres a golau o'r haul yn cael eu cynhyrchu yng nghanol yr haul (mae gan yr haul haenau, yn gwmws fel y ddaear).Y craidd yw enw'r haen hon. Mae tymheredd uchel iawn yno, tua 27,000,000°F. Mae'r gwres hwn yn dianc allan o'r haen hon i'r haen nesaf, sef y gylchfa belydrol. Mae'r haen hon yn oerach, tua 4,500,000°F. O dipyn i beth, bydd y gwres a golau yn pasio trwy'r gylchfa ddarfudiad ar dymheredd o gwmpas 2,000,000°F. Wrth gyrraedd y wyneb, tua 10,000°F yw'r tymheredd. I gloi, mae'r gwres yn cael ei anfon i'r gofod. Rydym yn galw hyn yn egni pelydrol (gwres a golau).

Mae'r egni pelydrol yn cyrraedd atmosffer y byd. O ganlyniad i'r broses hon, rydym yn cael golau a gwres. Wrth lygru, rydym yn anfon cemegau i mewn i'r aer. Mae'r cemegau hyn yn dinistrio ein hatmosffer, felly ni all mwy o wres a golau ddianc rhag atmosffer y byd.

**Beth yw effeithiau cynhesu byd eang ar hyn o bryd?**

Mae llawer o wahanol effeithiau, ffisegol a dynol, o gynhesu byd eang. Rydym yn dosbarthu'r rhain i dair adran: cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fe welwch taw amgylcheddol yw'r mwyafrif o'r effeithiau:

**Cymdeithasol:** Yr effaith ffisegol o gynhesu byd eang mwyaf difrifol, yn fy marn i, ydy'r ffaith y bydd amodau poeth yn helpu i ledaenu clefydau heintus, trofannol, yn ogleddol. Bydd hyn hefyd yn cynyddu'r ehangder o bryfed heidiol, sydd yn bygwth bywydau a buddion.

Yr effaith mwyaf o gynhesu byd eang ar fodau dynol ar hyn o bryd, yw'r trawiadau o dymheredd poethach. Mae tymereddau uchel yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n marw ar ddyddiau penodol. Mae pobl â phroblemau calon yn tueddu bod yn wan iawn yn ystod yr adegau hyn, gan fod angen i'w cyrff (system cardio fasgwlar) weithio'n galetach yn ystod tywydd poeth. Mae meddygon yn rhybuddio y gallai cynhesu byd eang arwain at glefydau cardio fasgwlar.

**Economaidd:** Yr effaith economaidd mwyaf difrifol, yn fy marn i, ydy'r ffaith bod cwmnïau yswiriant mwyaf Ewrop yn gofidio cymaint am gynhesu byd eang, fel eu bod yn debygol o ddefnyddio eu cyhyryn ariannol i gael y cwmnïau olew a'r llywodraeth i wneud mwy i dorri i lawr allyriannau nwyon tŷ gwydr.

Mae cynhadledd tŷ gwydr a sefydlwyd gan ail-yswiriwr, Swiss Re, wedi bod yn trafod adroddiad sydd wedi cael ei gefnogi gan bron 300 o sefydliadau ariannol, ac sy'n dadlau bod cynhesu byd eang yn bygwth economi'r byd.

Mae yswirwyr wedi cyflwyno'r ystadegyn hwn: "yn y degawd nesaf, bydd y gost blynyddol o gynhesu byd eang yn bwrw $150 biliwn – hynny yw pum gwaith incwm blynyddol poblogaeth Nigeria i gyd."

Yr effaith economaidd lleiaf difrifol, yn fy marn i, ydy bod ffaith sychder yn lleihau'r nifer o gnydau sy'n cael eu tyfu ac yn effeithio ar yr economi ac ar y cyflenwad o fwyd.

**Amgylcheddol:** Yr effaith amgylcheddol mwyaf difrifol, yn fy marn i, ydy'r ffaith bod cynhesu byd eang yn arwain at amodau sych mewn rhai ardaloedd. Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn dir pwysig, amaethyddol. Mae hyn yn digwydd wrth i'r tymereddau godi, a phatrwm dyodiad newid.

Ynglŷn â sychder, mae nifer llai o gnydau o ffermio, sy'n effeithio ar yr economi ac ar y cyflenwad bwyd. Mae hyn yn cynyddu'r mynediad i ddyfrhad, sy'n bygwth maint ac ansawdd y cyflenwad dŵr.

Mae amodau sych hefyd yn cynyddu'r risg o danau yn y fforest, sy'n difrodi ecosystemau a sy'n rhyddhau mwy o nwyon tŷ gwydr i mewn i'r aer.

Bydd tonnau gwres haf hwy a dwysach yn gwneud llygredd aer mewn ardaloedd trefol yn waeth. Mae llygredd aer wedi cael ei gysylltu â marwolaeth ac afiechydon o glefydau fel asma.

**Pa broblemau mae cynhesu byd eang yn debygol o achosi yn y dyfodol?**

Mae gollyngdod o nwyon tŷ gwydr wedi arwain at gynyddiad yn nhymheredd y byd. Mae cynhesu byd eang yn effeithio ar y byd i gyd, ac yn meddwl y bydd llefydd fel Affrica yn dioddef yn ddifrifol oherwydd newid hinsawdd.

Mae darogan yn dangos y bydd tymheredd cyfartalog arwyneb y byd yn y 21ain ganrif yn cynyddu 1.1 i 6.4°C (2.0 i 11.5°F) arall. Goblygiad arall ydy lefel y môr. Wrth i gapiau iâ doddi, bydd lefelau'r môr yn cynyddu a gall yr Arctig golli ei holl iâ.

Pan fydd y tymereddau yn cynyddu, bydd yn gwneud y tywydd yn llawer anos i'w ddarogan. Mae cynhesu byd eang hefyd yn debygol o effeithio ar gynhyrchion amaethyddol a difodiaeth llawer o anifeiliaid ac mae'n debygol y bydd llawer mwy o glefydau. Ambell oblygiad o gynhesu byd eang am y dyfodol: taenfeydd o glefydau / gwanwyn cynt / amrediad planhigion ac anifeiliaid yn symud, a'r boblogaeth yn newid / cannu o rîff cwrel / glaw trwm, eira trwm, a llifogydd / tanau a sychder.

**Rhagfynegi effeithiau cynhesu byd-eang**

**Yn y Deyrnas Unedig:** Mae modelau cyfrifiadurol yn awgrymu y bydd tywydd y Deyrnas Unedig yn newid yn ystod y ganrif hon. Bydd gaeafau'n mynd yn fwynach ac, yn enwedig yn y gogledd a'r gorllewin, yn wlypach ac yn fwy gwyntog. Bydd mwy o stormydd dinistriol a lifogydd difrifol. Bydd hafau yn y de a'r dwyrain yn gynhesach, sychach ac yn fwy heulog – yn debyg i hinsawdd y Canoldir heddiw â'i donnau gwres a'i sychderau. Wrth i'r tywydd newid a lefel y môr godi, bydd ardaloedd arfordirol yn dioddef mwy o lanwau uchel, ymchwyddiadau storm a llifogydd.
**Enillion** – Mewn ardaloedd bydd... arwynebedd grawnfwydydd yn cynyddu, a chynaeafau gwell o datws, betys siwgr a thomatos awyr agored.
**Colledion** – Mewn ardaloedd bydd... planhigion Arctig yn marw allan ac ni fydd digon o eira ar gyfer chwaraeon gaeaf Aviemore.

**Yn y byd – rhai rhagfynegiadau gan fodelau cyfrifiadurol**

**Wedi'u heffeithio gan godiad yn lefel y môr**
- Llifogydd yn yr Iseldiroedd
- Llifogydd yn nelta Afon Nîl

**Problemau cynhesu byd-eang**
- Llai o lawiad mewn coedwigoedd glaw o ganlyniad i ddatgoedwigo
- Amodau sychach yn effeithio ar gynhyrchu grawnfwydydd a'r cyflenwad dŵr

**Arall**
- Tymor tyfu hirach yn cynyddu'r cynhaeaf gwenith
- Glawiad uwch yn cynyddu'r cynhaeaf reis

**Gwerthusiad**

**Pwyntiau da a drwg:** Rydw i wedi mwynhau'r prosiect hwn ar y cyfan. Rwyf wedi mwynhau ymchwilio i gynhesu byd eang oherwydd teimlaf ei fod yn dda i wybod am y byd o'n cwmpas. Ar y llaw arall, teimlaf fod angen mwy o amser i weithio arno, ac i gwblhau'r, dasg. Hefyd credaf nad oedd y safleoedd ar y we yn helpu llawer.
**Pethau y gellid eu gwella:** Yn fy marn i, er mwyn gwella'r gwaith, teimlaf fod yn rhaid imi gael mwy o drefn iddo, hynny yw, mae angen mwy o gynllunio wrth gyflwyno'r prosiect. Hefyd, er mwyn gwella, teimlaf fod yn rhaid imi ddefnyddio fy amser i yn well. Teimlaf hefyd fod angen mwy o fanylder yn yr atebion.

**Problemau a Beiau:** Mae'r ysgrifen yn fach, sy'n ei gwneud yn anodd i ddarllen.
Roedd yn galed i gynllunio cyflwyniad y prosiect.
Oherwydd maint y cwestiynau, roedd angen gwaredu ambell fap, diagram a graff.
**Argymhellais:** Er mwyn osgoi'r problemau hyn, teimlaf fod angen mwy o gynllunio a threfn i'r gwaith.
**Syniadau am Ymchwil Pellach:** Er mwyn cael ymchwil pellach, gallaf fod wedi ymchwilio i wahanol wledydd sy'n cael eu heffeithio gan gynhesu byd eang.

**Sut mae ynysoedd y Maldives yn debygol o gael eu heffeithio gan gynhesu bydol?**

Yn y dyfodol agos, mae'r newidiadau yn hinsawdd y byd am effeithio economi'r Maldives. Yn flynyddol, mae miloedd o dwristiaid yn ymweld a cyrchfeydd a'r traethau prydferth. Twristiaeth yw'r prif ffynhonnell incwm ac mae'n cyfrif am fwy na 60% o gyfnewidfa dramor y Maldives (foreign Exchange). Yn 1997 fe orchuddiwyd y brif ddinas gan foroedd uchel ac yn 2004 wnaeth y tsunami enwog ladd 82 person a dinistriwyd y diwydiant twristiaeth. Wnaeth e achosi niwed o $375 miliwn. Hefyd wnaeth y difrod i'r cyrchfeydd gostio $100 miliwn... Bydd y cynyddiad yn nhymheredd y byd yn effeithio poblogaeth y Maldives i gyd. 8 troedfedd uwchben y mor ydi uchafbwynt y Maldives. Mae darogan y bydd lefelau'r mor yn cynyddu rhwng 0.09 a 0.37 metr a gyda'r cynyddiad yn lefelau'r mor y prif fygythiad yw'r erydiad ar y traethau a stormydd fwy pwerus. Y bobl yw'r prif ddioddefwyr serch hynny. Yn fy marn i fydd pobl dlawd y wlad yn cael eu heffeithio'n fwy na'r pobl gyfoethog. Teimlaf hyn oherwydd y mae gan y cyfoethogion fwy o arian er mwyn prynu fwy o arian fel moddion, bwyd a hylif. Ar y llaw arall, mae cynhesu byd eang yn cael effaith ar y cyfoethogion hefyd. Byddai'n rhaid iddynt werthu tai, colli eiddo ac arian.

**Beth y gellir ei wneud i achub ynysoedd y Maldives?**

I rai, mae cynhesu byd eang yn cael ei weld fel problem fach iawn nad oes arnom angen poeni amdano. Mae rhai yn credu y bydd y goblygiadau yn digwydd yn y dyfodol pell. Ond nid yw hyn bellach yn wir. Mae goblygiadau o gynhesu byd eang yn digwydd heddiw. Y trawiad penodol o gynhesu byd eang ydy lefelau'r môr yn codi. Mae hyn yn fygythiad mawr i'r Maldives.

Y datrysiad penodol ydy defnyddio egni mor economaidd ag yw'n bosibl. Gan ddefnyddio ffynonellau nad ydynt yn cynnwys llosgi tanwyddau ffosil, gallwn achub gwledydd fel y Maldives. Yn ffodus, mae ffynonellau egni

amgen, sydd wedi cael eu dyfeisio'n barod. Mae'r rhain yn llai niweidiol i'r amgylchfyd am nad ydynt yn cynnwys yn llosgi tanwyddau ffosil. Dyma ambell ddatrysiad amgen:

- Solar – ar hyn o bryd, mae egni solar yn cael ei ddefnyddio mewn ffwrnesi a chartrefi ac i dwymo pyllau nofio. Hefyd, yn rhyfeddol, gellir defnyddio egni solar i redeg ceir a phweru ffatrïoedd.
- Pŵer y gwynt – Pan fydd melin wynt yn wynebu gwynt o 10 milltir yr awr gellir cynhyrchu tua 50 wat.
- Pŵer y llanw – mae'r broses hon yn cynnwys defnyddio ysgogiad naturiol y llanw er mwyn llenwi cronfeydd. Mae hyn wedyn yn cynhyrchu ffurf o egni.
- 'Hydroelectricity' – mae'r datrysiad amgen hwn yn dod wrth gronni afonydd ac yn defnyddio egni potensial a storir yn y dŵr.

Serch hynny, mae datrysiadau lleol a allai helpu'r Maldives. Mae'r rhain yn cynnwys gostwng llygredd, alltudiaeth, diogelu tir ffermio a choedwig, cynyddu effeithiolrwydd egni ac adeiladwaith.

Felly mae datrysiadau amgen y mae'n rhaid inni eu hystyried. Mae'r datrysiadau amgen yn cynnwys solar, pŵer y gwynt, daearwesol, pŵer y llanw a 'hydroelectricity'.

Dyma eu cryfderau a’u gwendidau:

| Datrysiadau Amgen Mwyaf Gweddus | Pwyntiau Da | Pwyntiau Drwg |
|---|---|---|
| Solar | Yn eithaf rhad. | Cymryd llawer o egni anadnewyddadwy er mwyn ei gynhyrchu. |
| Pŵer y gwynt | Cynhaliaeth isel. Lleoliadau hyblyg. | Effeithio ar y tirlun lleol. Nid yw’n gweithio mewn gwyntoedd gwân neu gryf iawn. |
| Pŵer y llanw | Mwyafrif o adnoddau yn rhad. | Cymryd llawer o amser. Cymryd llawer o le. |
| Hydroelectricity | Y ffordd mwyaf glân i greu trydan. Yn gallu creu cynefin newydd i anifeiliaid. | Yn gallu creu llifogydd. |

**Ydy’r datrysiad solar yn gynaliadwy?**

Yn fy marn i, mae pŵer solar yn hollol gynaliadwy. Teimlaf hyn am nifer o resymau. Un rheswm ydy mai ychydig iawn o effaith mae’n gael ar yr amgylchfyd. Yr unig beth sy’n niweidio’r amgylchfyd ydy ei gynhyrchu. Rheswm arall i gefnogi’r ffaith bod pŵer egni yn gynaliadwy ydy bod y paneli yn gallu cael eu creu gyda deunyddiau sydd ar gael yn y gwledydd lle maen nhw’n cael eu defnyddio. Hefyd, gellir defnyddio paneli solar mewn ardaloedd anghysbell, lle nad oes mynediad i ffyrdd gwahanol o egni. Gellir defnyddio pŵer solar i bwmpio dŵr, llosgi, gwresogi dŵr. Os nad oes haul o ganlyniad i gymylau, mae’r pelydrau yn gallu cael eu defnyddio i gynhyrchu trydan neu wres.

## Sylwebaeth daearyddiaeth

'Beth fydd effeithiau cynhesu byd-eang ar Ynysoedd y Maldives?'

Y dysgwr wedi ymchwilio'n annibynnol gan ddefnyddio'r we er mwyn ateb cwestiynau gosod a hefyd ei gwestiynau annibynnol ef.

- Trwy gydol yr ymchwiliad cyfan mae'r dysgwr 'yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn gwneud gwaith ymchwil, ...yn annibynnol' fel y gwelir yn ei gwestiynau unigol (nodwedd o Berfformiad Eithriadol). Mae'n 'dangos ac yn cymhwyso'n effeithiol ddyfnder ac ehangder ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth' ar raddfeydd lleol a byd-eang, e.e. yng nghyd-destun mater cyfoes effeithiau cynhesu byd-eang ar ynysoedd y Maldives a'r materion cysylltiedig. Mae'r dysgwr hefyd yn 'defnyddio, cymhwyso ac yn dewis yn briodol o ystod eang o dermau a thechnegau daearyddol er mwyn cyfleu gwybodaeth, safbwyntiau a phenderfyniadau yn effeithiol ac yn fanwl gywir', *e.e. mapiau, graffiau, diagramau ffotograffau a gwaith ysgrifenedig* (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Mae'r dysgwr yn 'dangos ac yn cymhwyso amrywiaeth o sgiliau yn fanwl gywir ac yn alluog. Mae'n dehongli mapiau i gael gwybodaeth ac yn llunio mapiau' o'r byd a'r Maldives (nodwedd o Lefel 8).
- Wrth ateb y cwestiynau 'Beth sy'n achosi cynhesu byd eang?' a 'Beth yw effeithiau cynhesu byd eang ar hyn o bryd?' mae'r dysgwr yn 'deall fod prosesau a phatrymau yn gweithredu ar wahanol raddfeydd a bod achosion (Dynol a Ffisegol) ac effeithiau (Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol) cymhleth ganddynt' yng nghyd-destun cynhesu byd-eang (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Yn ei ateb i'w gwestiwn 'Sut mae ynysoedd y Maldives yn debygol o gael eu heffeithio gan gynhesu bydol?' mae'r dysgwr yn 'Cydnabod ac yn cynnig esboniadau ar gyfer y rhyngweithiadau cymhleth o fewn a rhwng prosesau ffisegol a dynol a rhwng pobl a'u hamgylchedd, gan gynnwys effeithiau dinasyddiaeth fyd-eang a rheoli newid cynaliadwy' (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).

- Mae’r dysgwr yn ‘esbonio ac yn rhagfynegi newid’ yn lefel y môr ‘dros gyfnod o amser’ trwy ddadansoddi ei graff ‘Graff yn dangos lefelau y mor, yn ystod yr adeg o 1860-2100’. Yn ei ateb i’r cwestiwn ‘Pa broblemau mae cynhesu byd eang yn debygol o achosi yn y dyfodol?’ mae’n ‘deall y gall newid ddigwydd yn y tymor byr a’r tymor hir’ (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Mae’r dysgwr ‘yn dadansoddi tystiolaeth ac yn gwneud defnydd dethol o syniadau a damcaniaethau daearyddol er mwyn dod i gasgliadau a brofwyd’ trwy ateb y cwestiwn ‘Beth y gellir ei wneud i achub ynysoedd y Maldives?’ (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).
- Mae’n gwerthuso ei waith ar ffurf tabl ‘trwy awgrymu sut y gellid gwella’r dull o weithio ac awgrymant sut i ddatblygu’r ymchwil ymhellach’ (nodwedd o Berfformiad Eithriadol).

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth


- Cynnwys y darllenydd yn y gwaith trwy gyfarch y gynulleidfa, e.e. 'Wrth i chi...', 'Pan fyddwch...' a'r defnydd o'r rhagenw 'ni' yn cynnwys yr awdur hefyd, e.e. '...byddwch yn sylweddoli cymaint yr ydym ni yn defnyddio...'
- Egluro cymhlethdod mewn manylder, e.e. 'Y craidd yw enw'r haen hon. Mae tymheredd uchel iawn yno, tua 27,000,000°F. Mae'r gwres hwn yn dianc allan o'r haen hon i'r haen nesaf, sef y gylchfa belydrol. Mae'r haen hon yn oerach, tua 4,500,000°F. O dipyn i beth, bydd y gwres a golau yn pasio trwy'r gylchfa ddarfudiad ar dymheredd o gwmpas 2,000,000°F. Wrth gyrraedd y wyneb, tua 10,000°F yw'r tymheredd. I gloi, mae'r gwres yn cael ei anfon i'r gofod Rydym yn galw hyn yn egni pelydrol (gwres a golau).'
- Gafael sicr ar eirfa arbenigol, e.e. 'ffynonellau egni', 'hinsawdd', 'ardaloedd arfordirol', 'gwlypdiroedd'.
- Defnydd cywir o'r ferf amhersonol, e.e. 'gellir defnyddio', 'Pan dorrir'.
- Cymharu ansoddeiriau yn dda, e.e. 'yn wlypach', 'yn fwynach'.
- Cyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol arddulliau, e.e. graffiau, tablau, cwestiwn ac ateb, pwyntiau bwled.
- Yr arddull bob amser yn briodol i'r ffurf, e.e. tablau a phwyntiau bwled – brawddegau di-ferf, e.e. 'Gwylio'r teledu', 'Llifogydd yn yr Iseldiroedd...'
- Strwythur ac adeiladwaith y paragraffau yn sicr.
- Cyfuno gwybodaeth sydd wedi ei gywain o amrywiol ffynonellau.


**Y ffordd ymlaen**

- Tuedd i ddefnyddio brawddegau pytiog ar adegau. Gellid cyfuno rhai ohonyn nhw er mwyn i'r gwaith lifo'n fwy llyfn, e.e. byddai modd cynnwys geiriau fel 'ac' neu 'gan' at y brawddegau i greu paragraff sy'n llifo'n well. 'Mae llawer o bethau yn achosi cynhesu byd eang. Un peth ydy llygredd trydanol. Mae trydan yn achosi llygredd mewn llawer o ffyrdd, rhai yn waeth nag eraill. Mae tanwyddau ffosil yn cael eu llosgi er mwyn creu trydan. Mae tanwyddau ffosil yn cael eu gwneud o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi marw.'
- Dileu idiomau Seisnig fel 'marw allan' a 'troi'r golau arno'.
- Defnyddio modd dibynnol y ferf, e.e. 'gallwn fod' yn hytrach na 'gallaf fod'.


# Dylunio a thechnoleg

## 1. Hetiau doniol








Partymmau ar gyfer y pitsa.
salami
madarch
pupur
pinafal
olives
Dyma batymau syml fyddai'n edrych yn dda ar y pitsa.
Siapiau clir ac amlwg
Byddai'r pupur yn edrych yn dda, er byddai'n anodd ei dorri allan ar ôl brodwaith ar y 'Janome'. Rwy'n hoff iawn o'r madarch hefyd.






Dylunio - Pethau i'w hystyried Gwerthuswch eich syniadau, a gofynnwch am farn ffrind ar safon y syniadau. Nodwch hyn yn glir ar y dudalen.
DYLUNIO
Datblygu'r syniadau ymhellach.
Dewiswch y ddau syniad gorau a datblygwch y rhain ymhellach. Nodwch y newidiadau a'r rhesymau dros hyn.
Syniad 1
olives
caws wedi toddi
madarch
saws tomato
salami
Syniad 2
Het beanie



Dylunio - Pethau i'w hystyried: Datblygwch un o'r syniadau ymhellach. Nodwch hyn yn glir ar y dudalen.
DYLUNIO
Dewiswch eich syniad gorau a gwnewch ddyluniad mwy manwl yn y bocs isod. Meddyliwch am y lliwiau, y siâp, y nodweddion ayb.
efallai y gallwn ychwanegu mwy o siapiau llypiau (madarch, olives) er mwyn cael mwy o liwiau hefyd.
Meddyliadau'n ddigon mawr fel bod yr het yn 'floppy' – edrych yn effeithiol!
Stribedi o gaws yn fwy diddorol – ychwanegu siâp arall.
Secwinau, efallai, fel olives neu perlypiau.
Cwiltio/ Applique
Felt a (wadding off cuts) – defnyddio o felt i gadw'r gost i lawr.


Penderfynais beidio â defnyddio'r cynllun yma gan ei fod yn cymryd gormod o amser.
3 munud yn unig
Dyma enghraifft o CAD CAM. Dyma'r madarch ychwanegol ar gyfer yr het yn defnyddio 'Janome' Easy Import.


Cynllunio trwy gymorth cyfrifiadur


Crëwch Fodel 2D o'ch dyluniad gan ddefnyddio cerdyn a/neu bapur lliw. Rhaid i chi gynnwys mesuriadau a nodi'r defnyddiau yr ydych am eu defnyddio.
Model 2D o dop yr het.
(40cm)



Cynllunio - Pethau i'w hystyried: Dangoswch yn glir y mesuriadau ar gyfer creu eich het.
Dangoswch eich mesuriadau yn glir. Dyma fydd mesuriadau'r templed papur y bydd angen i chi ei greu cyn i chi fynd ati i dorri eich ffabrig allan yn gywir. Cofiwch, dangoswch y rhain yn glir – gan sicrhau y gallai rhywun arall ail-greu eich het trwy eu dilyn. Dangoswch eich mesuriadau mewn cm. Cofiwch, nid oes rhaid i'r darlun fod union yr un maint â'r het tra bod y mesuriadau ar gyfer y darn gorffenedig yn cael eu dangos yn gywir ar y darlun.
Top yr het
Saws
25cm
40cm diameter cylch
caws
Mesur pen







# Het Hwyl




Mae cymaint o hetiau doniol ar y farchnad ac ar y we. Fe wnes i ymchwil i'r math o hetiau y gallwn ni ystyried eu gwneud.

| Syniad | Gwerthusiad |
|---|---|
| 1. Syniad am het sy'n cynrychioli anifail arbennig e.e. het ar ffurf broga. Gallasai coesau'r broga ddod i lawr i fframio'r pen. Byddai anifeiliaid fel moch neu fuwch yn gallu bod yn ddoniol | Mae'r hetiau hyn yn gallu bod yn hwyl ond gallasai rhai fod yn gymhleth iawn. Gallasai rhai ohonynt fod yn reit drwm dybiwn i hefyd. Y broblem fwyaf yw nad ydyn nhw'n unigryw iawn. Mae cryn dipyn ar gael mewn siopau yn barod. |
| 2. Het ar ffurf rhywbeth sydd yn y gegin e.e. potel o sos coch neu botel o gwrw. Gellid hefyd defnyddio ffrwythau e.e. pinafal neu afal | Byddai'r lliwiau braidd yn unffurf e.e. un lliw ac o bosibl gallasai'r poteli fod yn drwm, dybiwn i. Byddai siapiau syml fel hyn yn gallu bod yn effeithiol ond o bosibl byddai'r ffaith nad oes digon o liwiau amrywiol ynddynt yn tynnu oddi wrth y ffaith mai het ddoniol yw hon i fod. |
| 3. Het siâp pitsa | Dyma fy hoff het. Mae'n hwyl ac rwy'n hoffi'r cynllun yn fawr. Mae'r cynllun yn syml ond yn effeithiol. |
| 4. Cynllun mecanyddol – siâp ar ffurf dwylo ar led ac ym mhob llaw mae baner yr Amerig. Mae'r dwylo yn cylchdroi ac yn chwifio yn yr awyr. Byddwn i'n ystyried newid y baner wrth reswm i gynnwys baner Cymru. | Mae llawer o hetiau ar y farchnad sydd yn fecanyddol eu naws – maen nhw'n symud gan ddefnyddio batris yn eu perfedd. Prif broblem yr hetiau hyn yw eu bod nhw'n ddrud i'w cynhyrchu. Maen nhw'n edrych yn hynod o effeithiol fodd bynnag. |
| 5. Hetiau cymeriadau e.e. Bart Simpson | Mae'r rhain ran amlaf yn defnyddio lliwiau llachar |

**Dadansoddi'r ymchwil**

Wedi ymchwilio i thema'r briff, sef creu ' Het Hwyl' rydw i'n sylweddoli y gall unrhyw beth fod yn het – bwyd, cymeriadau, cartwnau, anifeiliaid, gwrthrychau gwahanol a hyd yn oed hetiau arferol ond lliwgar.

Mae'r hetiau hwyl sydd ar gael fodd bynnag yn gallu bod yn gostus iawn – hyd at £15 ar rai gwefannau.

Rwy'n hoff iawn o'r hetiau sydd â thema bwyd a chymeriadau cartŵn. Bydd y rhain yn ddoniol iawn petawn yn eu gwisgo gyda ffrindiau mewn parti. Does dim diddordeb gen i mewn chwaraeon ac ni fyddwn eisiau gwneud het i dim rygbi neu bel droed er enghraifft.

Fe wnes ymchwil i weld a oedd y math hyn o ddyluniad ar gael ar y we ac mae yna gryn dipyn ohonynt nhw'n dod o'r Unol Daleithiau. Ceir patrymau syml sydd fel siâp côn neu beanie. Ceir rhai eraill sydd wedi eu gwau a'r darnau pitsa yn asio i mewn i'w gilydd yn wead cymhleth. Rwy'n credu na wnaf hyn gan ei fod yn or gymhleth ac o bosibl ni fyddwn yn llwyddo i'w orffen o fewn terfynau amser. Roedd un arall lle caed un gyda chrwst trwchus ac roeddent wedi llenwi'r crwst allanol â wadding.

Rwy'n hoff iawn o hetiau steil *beret*. Mae'r steil yma'n edrych yn dda gyda thema pitsa oherwydd bod yr arwyneb yr un siâp â phitsa. Bues i'n pendroni wedyn a ddylwn i greu het gyda'r syniad o bitsa ond bod yna wyneb yn ymddangos hefyd – cyfuniad fel petai o gymeriad a'r syniad o het fwyd.

Rwy'n siŵr y byddai gwisgo het pitsa'n llawer o hwyl i fi a fy ffrindiau.

**Manyleb perfformiad ar gyfer yr Het Hwyl**

Disgrifiwch beth yw pwrpas yr het
✓ het hwyl ar gyfer parti
✓ parti plentyn neu ffrindiau sydd tua 12-16 oed
✓ Gwisg ffansi efallai
✓ Mewn gemau chwaraeon (pêl-droed, rygbi) i gael hwyl

Disgrifiwch edrychiad yr het
✓ Bwyd fel thema – pitsa yn benodol
✓ Llysiau sy'n gwneud y patrymau
✓ Llysiau lliwgar a lliwiau llachar clir
✓ Cynllun syml ond effeithiol
✓ Gellir ychwanegu mwy o lysiau gyda felcro efallai

Nodwch unrhyw fanylion pwysig arall e.e. ffabrigau

- ✓ Defnyddiaf ffelt gan nad yw'r ffabrig yma'n rafflo
- ✓ Cost – llai na £5
- ✓ Amseriad – o fewn yr amser a ganiateir gan yr athro
- ✓ Gwneud syml, cynllun syml fel bod eraill yn gallu ail-greu'r cynllun hefyd
- ✓ Defnyddio ffabrig wedi'i ailgylchu i leihau'r gost ac arbed gwastraff

**Cynllunio**

**Camau cynhyrchu**

1. Mesur y templadau papur priodol sydd ar y daflen, a'u torri allan. Cynllunio. Pinio'r papur templad i'r ffabrig o'r lliw cywir e.e. saws – coch.
2. Edafu'r peiriant CAM (peiriant gwnio Janome) gyda'r edau du. Gosod y ffelt gwyn yn y ffrâm ac uwch lwytho'r cynllun o'r garden.
3. Dechrau'r broses o bwytho - ar ôl gorffen - sef 3 munud, torri allan y madarch gyda'r siswrn ffabrig yn ofalus.
4. Pinio'r addurniadau, sef y llysiau, i'r saws tomato, Dewis y lliwiau cywir i bwytho'r llysiau cywir i'r saws. Pinio a phwytho'r saws i'r crwst pitsa. Pwythau igam-ogam o amgylch y saws.
5. Ychwanegu wadding i gefn y saws. Torri'r twll i'r pen i'r mesurau cywir a chreu hem taclus.
6. Torri'r ddau ochr wyneb i waered. Pwytho o amgylch y pitsa a'i droi'r ffordd gywir.
7. Stwffin/wadding o amgylch y pitsa a'i binio a'i bwytho unwaith eto, 3cm i mewn.

**Y deunydd**
**Nodweddion y deunydd**

| Deunydd | Nodweddion y deunydd pan y'u dewiswyd |
|---|---|
| Nodwyddau, piniau, edau | Offer tecstiliau/piniau, nodwyddau, edau lliwiau cywir, coch am y saws, peiriant gwnio sylfaenol |
| Ffelt, lliwiau, templad papur | Peiriant gwnio CAD CAM i greu'r madarch, ffelt lliwiau cywir e.e. coch i'r saws, melyn i'r caws, gwyn i'r madarch. |
| Wadding | Papur templad cywir ar gyfer y siapiau, wadding er mwyn llenwi'r cefn a'r ochrau |

**Gwerthusiad terfynol**

Rwy'n teimlo bod fy het bitsa wedi ateb y fanyleb gan ei bod yn 'het hwyl' ar gyfer parti a fyddai'n addas i blentyn neu berson ifanc naill ai i'w gwisgo mewn parti gwisg ffansi neu mewn gem chwaraeon. Mae'r cynllun yn ateb y fanyleb – mae'n lliwgar ac yn llachar gyda chynllun syml ond effeithiol. Dewisais beidio â chynnwys felcro i osod y llysiau ychwanegol ar yr het oherwydd byddai wedi raflo'r defnydd ffelt. Cefais 'off cuts' ffelt oedd yn yr ysgol felly mae'r het wedi costio llai na £5. Costiodd y ffabrig £3 o'r farchnad. Ar ôl gweithio adre ac yn y clwb gwaith cartref llwyddais i orffen yr het o fewn terfynau amser ond byddwn wedi hoffi tacluso tu mewn yr het petai gen i fwy o amser. Roedd yn hawdd dilyn y cynllun a gwneud yr het ac rwy'n siŵr y gallai unrhyw un arall fod wedi dilyn yr un cynllun. Er bod yr het yn lliwgar ac yn hwyl rwy'n teimlo y gallwn fod wedi ychwanegu mwy eto, yn enwedig y gleiniau neu secwinau gwyrdd fel yr olifs a'r pêr lysiau. Gallai'r saws coch wedi bod yn fwy amlwg hefyd ac o'r herwydd byddai wedi edrych yn well. Roedd y steil yn berffaith ac roedd yr het yn beret fflopi – yn union fel yr oeddwn wedi ei obeithio! Ar y cyfan mae'n het hwyl a chefais lawer o hwyl yn ei gwneud.

## Sylwebaeth dylunio a thechnoleg

Mae’r ymateb yma yn dangos nodweddion o berfformiad Lefel 8.

Gwelir yma ‘sgiliau cyfathrebu lefel uchel, gan gynnwys anodiadau manwl mewn perthynas â brasluniau datblygu’:

- Sgiliau braslunio aeddfed gydag anodi clir, ond hefyd yn ystyried y gwneuthuriad.
- Defnydd da o gysgodi’r dyluniadau, er mwyn creu effaith dda sydd yn gam uwchben lliwio syml.
- Tystiolaeth o draws-gyfuno gwybodaeth am fwyd, er mwyn creu eitem mewn tecstilau.

**Y ffordd ymlaen**

- Parhau i ddatblygu’r sgiliau cyfathrebu a defnyddio’r technegau yn y meysydd eraill o fewn dylunio a thechnoleg.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Cyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol arddulliau apelgar, e.e. diagram, colofnau, rhestr.
- Yr iaith yn y diagram 'Het Hwyl' a'r 'Manyleb perfformiad ar gyfer yr Het Hwyl' yn addas i'r ffurf:
  – cwestiynau un gair e.e. 'Ffasiwn?'
  – cwestiynau di-ferf, e.e. 'Cadw rhywun rhag yr haul?'
  – nodiadau di-ferf, e.e. 'Cynllun syml ond effeithiol'.
- Prawf amrywiaeth cystrawennol mewn mannau eraill, e.e. 'Dewisais beidio... oherwydd...' , 'Costiodd...', 'Ar ôl gweithio adre...', 'Er bod...'
- Gafael sicr ar ferfau:
  – yr amodol, e.e. 'Byddai'r lliwiau braidd yn unffurf... dybiwn i.'
  – yr amser gorberffaith, e.e. 'gallasai'
  – ffurf gryno'r amser presennol, e.e. 'Ceir'.
- Defnydd priodol o ystod eang o ferfenwau yn 'Camau cynhyrchu', e.e. 'mesur', 'edafu', 'pinio', ychwanegu'.
- Mynegi profiadau personol.
- Cefnogi barn gyda thystiolaeth.

### Y ffordd ymlaen

- Tuedd i ailadrodd ar brydiau.
- Ni chafwyd cyfle i ysgrifennu'n fwy ymestynnol.
- Defnyddio ystod ehangach o eirfa.

## 2. Prosiect Ymchwil Bwyta'n Iach

### Nod ac amcan

- Bod yn fwy iach
- Cynyddu'r nifer o ffrwythau yn eich diet
- Cynyddu'r nifer o lysiau yn eich diet
- Cynyddu ffibr mewn diet – mwy o flawd cyflawn – ½ ½ blawd brown garw, gwyn i brown
- Lleihau braster, halen a siwgr

| Beth a wnaed? | Pam y gwnaed? | Darganfyddiadau | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|
| Holi disgyblion am eu hoff fwyd | Er mwyn dysgu am arferion bwyta/hoffter – pa fwyd maen nhw eisiau | Plant eisiau bwyd sydyn – hawdd ei gario am bris teg. Dydyn nhw ddim wir yn hoffi cwtleri chwaith ac mae edrychiad bwyd yn hanfodol. | Pethau pwysig i gofio ar gyfer dat-syniadau/ creu manyleb |

### Cyflwyniad

Mae'n bwysig iawn fod pawb yn bwyta'n iach. Mae'n hanfodol bod pobl yn bwyta o leiaf 5 ffrwyth/llysieuyn gwahanol bob dydd. Mae diet gytbwys yn cynnwys llawer o bethau eraill hefyd. Mae'n bwysig cael amrywiaeth o fwydydd gwahanol gan gynnwys llysiau a ffrwythau ond hanfodion fel startsh fel bara, reis, pasta a gwenith cyflawn yn ogystal â bwydydd llawn protein fel cigoedd, pysgod wyau a llaeth. Hefyd mae angen cofio bwyta bwydydd isel mewn braster, halen a siwgr.

Fe es i ar wefan wwweatwell.co.uk a dysgais dydy bwydydd llysieuol ddim yn golygu ei fod yn fwy iachus i chi na bwydydd sydd yn cynnwys cig. Mae cigoedd coch yn gallu bod yn isel mewn braster. Os oes yna rysáit yr ydych yn ei hoffi, gallwch newid y cynhwysion i fod yn fwy iachus a thorri'r braster yn ei hanner e.e. pasta gwenith cyflawn yn lle un gwyn a gostwng yr halen a'r siwgr sydd yn y rysáit.

**Datblygu cynnyrch**

Rydw i wedi dewis datblygu fy quiche.
Sut alla i ddatblygu a newid hwn?

1. Newid y cynhwysion – fydd yn newid y blas
   fydd yn newid y lliw
   fydd yn newid y gwead
   fydd yn newid yr edrychiad
   fydd yn newid yr arogl
2. Newid y siâp – gall hwn fod yn fawr
   yn fach
   yn grwn
   yn gyfran unigol
   yn ddigon i 2/3/4 o bobl
3. Newid y maethynnau – cynnydd mewn ffibr
   protein
   haearn
   fitaminau
   lleihau mewn braster
   lleihad mewn halen

Mae'n bwysig amrywio'r pethau hyn. Maent i gyd yn cyfrannu i greu pryd iachach ond blasus.

Dyma dabl i ddangos sut allen ni newid ac amrywio'r cynhwysion yn y quiche.

| Cynhwysion sylfaenol rysáit quiche | Newidiadau | Pam/Rheswm |
|---|---|---|
| 2 wy<br>150 llaeth<br>1 nionyn<br>38 o fenyn<br>50 g o gaws<br>150 o flawd<br>37 o fargarin<br>3 sleis o facwn<br>3 ½ llwy o ddŵr | 2 wy buarth/maes<br>150 o laeth sgim<br>1 nionyn mawr<br>38 g flora gydag omega3<br>150 caws ½ braster<br>150 g blawd cyflawn<br>37 g marj ½ braster<br>3 sleis o facwn gyda llai o fraster | Cynnydd haearn<br>Llai o fraster<br>Cynnydd ffibr/fitaminau<br>Lleihau colesterol<br>Lleihau braster<br>Cynnydd ffibr<br>Llai o galorïau/braster<br>Lleihau braster/mwy o gig |

Wrth edrych ar y tabl uchod, gallwch weld y gwahaniaeth mewn maethynnau y cynhwysion. Mae'r cynhwysion yn y golofn 'newidiadau' yn llawer iachach a gallwch weld hyn wrth edrych ar y golofn 'Pam?/rheswm?'. Fydd hi yn syniad da i drio yr ail opsiwn cynhwysion i weld beth fyddai'r gwahaniaeth o ran blas, gwead ac edrychiad.

**Gwerthuso**

**Briff**
**Dyluniwch a gwnewch ddetholiad o seigiau a fydd yn addas ar gyfer ffreutur yr ysgol**

Seigiau Briwgig mewn Pupur
Pitsa gwaelod toes

| | |
|---|---|
| AMSER  | Cyn coginio'r seigiau, mae'n rhaid eu paratoi adref er mwyn cael amser i goginio. Torrais y pupurau ar gyfer y saig briwgig a phupur a gratiais y caws a thorrais yr ham ar gyfer y pitsa. Roedd yna fwy o amser wedyn. |
| BLAS<br>MMM! | Er mwyn gwneud y pitsa yn flasus rhoddais amrywiaeth o gynhwysion – caws, tomato puree, pupur a salami/peperoni. Yn y gymysgedd briwgig rhoddais nionyn i newid y blas a'r gwead. |
| MAETHYNNAU<br>✓ | Mae'n bwysig cael maethynnau mewn prydau er mwyn sicrhau diet iach. Rhoddais ham a pheperoni ar fy mhitsa er mwyn cael protein a phupurau a nionod yn fy seigiau er mwyn cael fitaminau. |

| | |
|---|---|
| EDRYCHIAD<br>WOW! | Amrywiaeth o liwiau a chynhwysion sy'n rhoi edrychiad da i unrhyw saig. Dewisais bupurau lliwiau llachar, melyn, oren a gwyrdd er mwyn cael gwrthgyferbyniad mewn lliw i frown goch y briwgig. |
| CYFRAN<br>✳ | Fe wnes i 6 pupur wedi'u stwffio er mwyn cael cyfrannau bach a gwnes i ddau bitsa maint canolig os oes rhywun eisiau cyfran fwy gallant brynu 2 bitsa neu 3 pupur briwgig. |
| BWYD SAWRUS<br>Arogyl hyfryd! | Fe baratois i ddwy saig sawrus. Rydw i'n credu fod gan y bwydydd sawrus flas ac edrychiad gwell na'r seigiau melys |
| COST<br>£ | Fel bod y gost yn rhatach gwnes i ddwy bitsa maint canolig yn lle gwneud un fawr. Efallai y basa cwsmeriaid ddim yn fodlon talu llawer am un fawr ac yn llawer mwy bodlon talu llai am gyfran llai. |
| BWYD IACH<br>Fe wnaiff les i ti! | Mae pawb angen bwyd iach a dyna pam rydw i wedi rhoi pupur a nionyn yn fy seigiau. Er mwyn datblygu ymhellach, gallwn ddefnyddio caws hanner braster. |
| GWEAD | Cyn coginio nionyn er enghraifft mae'n crensian yn eich dannedd ond ar ôl ei goginio mae'n meddalu ac yn newid ei flas a'i wead. Mae gwead cynhwysion yn bwysig iawn wrth goginio a gall newid naws saig yn llwyr. |
| HAWDD I'W FWYTA<br>✓ | Dydy'r briwgig mewn pupur ddim yn hawdd iawn i'w fwyta gan fod y briwgig yn reit seimllyd ac mae'n anodd torri'r pupur ar adegau. Mae'r pitsa ar y llaw arall yn hawdd i'w fwyta ac yn gyfleus i'w fwyta tu allan heb lestri. |

**HOLIADUR I GASGLU BARN POBL AM FY NGHYNNYRCH – un wedi ei lenwi isod.**

CYNNYRCH

**PITSA**
**BRIWGIG MEWN PUPUR**

1. YDY'R CYNNYRCH YN ADDAS I'R FFREUTUR? YDY ☑ NAC YDY ☐
EGLURWCH PAM

Mae'r pitsa yn addas ond dydy'r briwgig ddim gan ei fod yn seimllyd

2. YDY'R CYNNYRCH YN ADDAS FEL BYRBRYD YDY ☑ NAC YDY ☐

Mae'r pitsas yn hawdd i'w gwneud ond mae'r briwgig mewn pupur yn gallu bod yn anhylaw.

3. BETH AM BRIS Y PITSA TEG ☑ DRUD ☐

4. YDYCH CHI'N EI YSTYRIED YN WERTH YR ARIAN YDW ☑ NAC YDW ☐
Ydw – £1.10 am y pitsa a 90c am un pupur

5. YDYCH CHI'N YSTYRIED Y PRYDAU YN IACH YDW ☑ NAC YDW ☐
Yn enwedig y briwgig mewn pupur

6. NODWCH UN NEWID YR HOFFECH CHI EI WNEUD I'R CYNNYRCH

Ar y pitsa, rhoi mwy o lysiau e.e. tomato, nionyn, madarch. Gyda'r briwgig, ei gadw mewn côn gyda pasta a'r pupur wedi ei dorri'n stribedi

Diolch i chi am brofi fy nghynnyrch ac am roi eich barn am y pitsa.

**CASGLIADAU**

Mae'r pitsa yn dda fel byrbryd achos mae'n hawdd i'w fwyta gyda'r dwylo heb gwtleri. Mae'r briwgig yn faethlon ac iachus ond ddim yn hawdd ei fwyta heb gwtleri ac mae'r cynhwysion yn mynd i bobman. Roedd fy ffrindiau a'm teulu yn hoff iawn ohonynt ac fe fydden nhw'n fodlon eu prynu a'u bwyta. Dwi'n hoffi'r awgrym a gafwyd o'r stribedi – byddai hyn yn datrys y broblem o'r pupur anhylaw.

## Sylwebaeth dylunio a thechnoleg

Mae'r ymateb yma yn dangos nodweddion o berfformiad Lefel 8:

- Mae tystiolaeth o ddarllen a deall yma ac mae'n defnyddio'r wybodaeth ar gyfer yr ymchwil yn bwrpasol.
- Defnyddir geirfa eang o fwydydd gwahanol ac fe ddangosir creadigrwydd yn y gwaith.
- Trafodir hefyd bwysigrwydd diet cytbwys a'i berthynas â bwyta'n iach drwy groesgyfeirio syniadau.
- Gwelir yma ddatblygiad o safbwynt rysáit arferol – caiff y rysáit ei addasu i leihau'r braster ac mae hyn yn dangos creadigrwydd, arloesedd a gwreiddioldeb.
- Dangosodd sut y llwyddwyd i wneud newidiadau o safbwynt lliw, blas, gwead ac edrychiad.
- Mae wedi defnyddio ystod o strategaethau gwerthuso.
- Rhesymeg aeddfed 'Mae'n bwysig cael maethynnau mewn prydau er mwyn sicrhau diet iach. Rhoddais ham a pheperoni ar fy mhitsa er mwyn cael protein a phupurau a nionod yn fy seigiau er mwyn cael fitaminau'. Mae'n medru deall yr oblygiadau o wneud newidiadau a'i effaith ar y bwydydd.
- Defnydd da o iaith gydag ansoddeiriau addas 'dewisais bupurau lliwiau llachar'.
- Tystiolaeth o fedru blaen-gynllunio a sylweddoli'r manteision ac oblygiadau o wneud hyn.

### Y ffordd ymlaen

- Dewis a dethol yn ofalus wrth ddod o hyd i ddefnyddiau ymchwil.
- Casglu mwy o wybodaeth am fwydydd ar gyfer tasgau eraill.
- Parhau i ddefnyddio gwefannau fel ffynhonnell gwybodaeth.
- Creu graffiau i ddangos oblygiadau'r newidiadau.
- Holiadur fydd yn dangos cymhariaeth blasu'r bwydydd cyn ac ar ôl y newidiadau.
- Defnyddio'r un penawdau a dull o werthuso yn y dyfodol ar gyfer bwydydd eraill.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Cyfarch y gynulleidfa yn y cyflwyniad ac felly yn ennyn diddordeb – 'gallwch newid...'
- Defnydd o amrywiaeth o ffurfiau, e.e. 'rysáit', 'tabl', 'holiadur'.
- Ar y daflen werthuso mae'r symbolau yn apelgar ac yn ychwanegiad gwerthfawr.
- Eglurir pwrpas a rhoddir rhesymau'n gyson, e.e. 'Er mwyn gwneud y pitsa yn flasus... Yn y gymysgedd briwgig rhoddais nionyn i newid y blas a'r gwead.'
- Defnydd cywir o'r treiglad meddal yn dilyn:
  - 'Yn' traethiadol, e.e. 'yn fawr', 'yn fach'
  - Yr arddodiad 'o', e.e. 'o fenyn', 'o gaws', 'o flawd'.
- Ystyried barn eraill ac ymateb iddyn nhw, e.e. 'Dwi'n hoffi'r awgrym a gafwyd o stribedi...'



### Y ffordd ymlaen

- Angen mwy o amrywiaeth cystrawennau brawddegol.
- Ehangu'r eirfa a'r ffurfiau berfol.
- Ymateb yn llawnach wrth ystyried barn eraill.
- Ehangu ac adeiladu dadl wrth fynegi barn.

## 3. Prosiect Cynllunio Clochwynt

CYNLLUNIO CLOCHWYNT

Defnyddiwch y tabl neu siart llif i egluro sut y byddwch yn gwneud y gwaith ymarferol

| Camau cynhyrchu | Disgrifiad o'r dasg |
|---|---|
| 1. Ffrâm waith | Mesur a marcio stribed o gopr. Torri stribed o gopr 70cm a 4cm o lled. Bydd angen defnyddio'r gilotin ar gyfer hyn. |
| 2. | Bydd angen cymorth athro – defnyddio ffeil fflat i wneud yr ochrau yn llyfn ac wedyn defnyddio papur gwydro.   |
| 3. Tyllau yn y ffrâm | Marcio twll pob 40mm ar hyd waelod y llen gopr.   |
| 4. | Defnyddio pwns. Defnyddio peiriant drilio i'w dyllu. Twll 4mm diamedr. |
| 5. | Bydd angen clampio'r llen yn y feis a gwisgo sbectol diogelwch cyn drilio |
| 6. Llathru | Llathru'r copr gyda papur gwydro ac yna gyda 'wire wool'. Wedi gwneud hynny bydd angen 'Brasso' a clwt i'w lanhau (pwysig golchi dwylo ar ôl gwneud hyn). |
| 7. Torri'r clychau | Torri 10 cloch dur gwrthstaen i'r hyd penodol gyda haclif. (Dal y tiwbiau yn y feis) |
| 8. Drilio'r clychau | Drilio'r tyllau yn y clychau (3cm o diamedr). Bydd angen clampio'r gwaith yn y feis a gwisgo sbectol diogelwch. |
| 9. Troi'r ffrâm | Defnyddio'r 'roller' i greu siâp troellog (sbiral). Bwydo'r llen i mewn ar ongl, tynhau'r roler ychydig mwy pob tro i chi wthio'r llen i mewn iddo |
| 10. | Gosod y clychau yn eu lle gyda llinyn tenau. Defnyddiais ar pob 3ydd gwagle wrth fynd i lawr y stribed copr. |

Rhestrwch unrhyw ddefnyddiau byddwch eu hangen. Nodwch bob defnydd yn y tabl nodweddion ffisegol / mecanyddol gan egluro pam y'u dewiswyd.


| Defnydd | Nodweddion y defnydd / Pam dewiswyd |
|---|---|
| Copr | Hawdd plygu / meddal. Ddim yn rhydu / modd llathru |
| Aliminiwm | Meddal ac ysgafn. Ddim yn rhydu / modd llathru. |
| Dur gwrthstaen | Caled / cryf / ddim yn rhydu. Sain uchel wrth ei daro |

- Roedd rhaid newid y dur gwrthstaen i alwminiwm. Y rheswm am hyn oedd ei fod yn galed iawn ac fe fyddai dur gwrthstaen wedi torri'r dril.

**Gwerthusiad y clochwynt**


Yn wreiddiol y fanyleb oedd i gynhyrchu clochwynt. Y bwriad oedd i'w wneud allan o wydr, gyda ffrâm metel. Wedi imi edrych nol ar y manyleb rydw'i wedi sylweddoli faint mae'r dylunio ac ymchwilio wedi newid ers y cynllun cyntaf. Yn gyntaf mae'r darn wedi newid thema – o'r 60au i fod yn thema fodern. Mae'r darnau sydd yn hongian i'r ffrâm metel wedi newid o fod yn wydr i diwbiau metel. Y rheswm am hyn yw fy mod i wedi sylweddoli byddai gwydr yn llawer rhy beryglus ar bwys ei gilydd oherwydd bod peryg iddynt dorri a gwasgaru wrth daro yn erbyn ei gilydd yn rhy galed. Wrth gwrs nid yw metel yn gallu cael ei ailgylchu mor hawdd â gwydr ond mae o'n llawer llai tebygol o dorri ac fe fydd yn para am flynyddoedd maith. Mae'r farchnad darged hefyd wedi newid gan fod y cynnyrch terfynol yn llai peryglus oherwydd does dim gwydr ynddo. Erbyn hyn y farchnad darged yw pobl ifanc gan ei fod yn fodern ac yn ddiogel i raddau.

Yr unig nam yn y clochwynt yw'r llinyn sydd yn dal y clychau. Gall y llinyn fod yn beryglus i blant ifanc os ydyn nhw'n dal eu hunain ynddo. Does dim peryg iddo dorri os ydy o wedi cael ei glymu'n iawn oherwydd bod y defnyddiau yn gryf ac yn galed. Mae'r ffrâm wedi i wneud allan o gopr sydd yn defnydd gallai cael ei ailgylchu. Mae'r clychau hefyd yn gallu cael eu hailgylchu gan eu bod wedi eu gwneud o alwminiwm. Hoffwn fod wedi defnyddio dur gwrthstaen ar gyfer y clychau ond gan ei fod mor galed doedden i ddim yn gallu drilio tyllau yn y tiwbiau.


Creu Clôch Gwynt
SICRHAU ANSAWDD
Rhestr defnyddiau
Ydy
Na
Ydyn
Ydy'n

**Camau cynhyrchu clochwynt**

I ddechrau torrwch stribed o gopr sydd yn 70cm hyd a 4cm o lled. Mae'n rhaid bod y stribed yn ddigon cryf i wrthsefyll pwysau'r clychau. Nesaf driliais tyllau ar hyd gwaelod y stribed er mwyn dal y clychau. Defnyddiais papur gwydro a pholish er mwy'n llathru'r gwaith. Rydw i'n hapus iawn gyda'r addurn gwynt a'r sain mae o'n ei wneud. Yn wreiddiol roedden i i fod i gynhyrchu addurn corff yn yr uned ond rydw i'n falch bod yr athro wedi caniatáu imi newid y briff. Mae'r addurn yn gweithio'n dda ac yn cynhyrchu sŵn tincian ysgafn. Rydw i'n bles gyda'r ffordd mae'r addurn yn edrych ac mae'n amlwg bod yr holl waith roedden i wedi gwneud wrth ei lathru wedi creu cynnyrch deniadol. Petawn i'n cael y cyfle i wneud yr addurn gwynt yma eto fe fydden i'n rhoi farnais ar y copr gan fy mod yn disgwyl iddo golli ychydig o'r sglein dros amser.




Dyluniais y gloch yma mewn siâp cwch. Er mwyn creu'r siâp bydd angen torri'r tiwbiau ar ongl. Bydd angen ymchwilio i weld sut gallwn dorri'r ail diwb i'r siâp priodol.




Mae'r cynllun yma ar ffurf traddodiadol ond mae'n wahanol hefyd.

Bydd y tiwbiau metel yn dirgrynu ar gyflymderau gwahanol wrth daro yn erbyn ei gilydd gan greu sain gwahanol i bob un.



Defnyddir tiwb mawr fel daliwr i'r clychau yma.


Bydd y tiwbiau yma yn cael eu torri ar onglau er mwyn creu patrwm od. Bydd y gwahaniaeth mewn hyd y tiwbiau yn amrywio'r sain a gewch.




Gan dorri'r tiwbiau gwahanol rydw i wedi creu amlinelliad allanol siâp calon. Un problem gyda'r syniad yma yw fod y tiwbiau yn gallu troelli ac felly mae'r siâp yn cael ei golli. Fe fydd yn anodd iawn clymu'r tiwbiau yma ymlaen â'r gorden oherwydd ei bod yn grwn ac yn llyfn.




Er ei fod yn bert wrth i’r darnau daro yn erbyn ei gilydd, gallent dorri yn hawdd iawn gan eu bod yn wydr.
Y darnau bach yn troelli ac yn dal yr haul gan wneud cysgodion lliwgar meddal.
Mae’r darnau yma yn economaidd iawn gan ei fod yn gallu cael ei wneud o ddefnyddiau sydd wedi cael eu hailgylchu h.y. hen wifren/rhaff a’r gwydr o hen fotel win a lliwiau gwahanol.




Er mwyn creu’r siâp bydd angen ‘slump’ o’r darn gwydr dros y kiln.
Mae siâp y gwydr yn adlewyrchi’r golau mewn sawl gwahanol cyfeiriad.
Byddai’r radiau yn dirgrynu lan a lawr a chreu sain ysgafn. Gall hwn fod yn beth gwael gan fod gwydr yn gallu torri yn hawdd.




Byddai’r golau yn adlewyrchu o gwmpas y rod ac yn disgleirio drwy’r gwydr. Gan ei fod i’w glymu wrth dwll yn unig yng nghanol y rod bydd creu’r twll yn anodd iawn.





Er mwyn plygu a throelli’r metel yma fe fydd angen ei roi ar ongl mewn peiriant rowlio. Bydd hyn yn creu edrychiad diddorol i’r glochwynt, yn enwedig wrth iddo droelli a’r darnau gwydr hefyd yn troelli.
Toddwn y darnau o wydr yn y kiln i gael yr ochrau llyfn ond fe fydd e’n anodd creu tyllau yn y gwydr. Mae hefyd llawer iawn o ddarnau bach sy’n gallu torri.





**Priodweddau'r defnyddiau**

Mae'r gwydr yn medru cael ei feddalu i unrhyw siâp sydd eisiau. Gan ei fod yn sgleiniog ac yn weddol dryloyw ac felly yn adlewyrchu'r golau, hoffwn i hefyd bod y gwydr yn ddigon trwchus i beidio torri wrth iddynt gyffwrdd ond eto'n dirgrynu fel eu bod yn creu sain ysgafn, ymlaciol. Ar gyfer y daliwr metal fe fydd angen iddo fod yn ddigon cryf i wrthsefyll pwysau'r holl wydr ond hefyd yn ddigon hyblyg i'w plygu i'w siap ac i ddrilio tyllau ynddo. Anfantais gwydr yw ei fod yn anodd i'w ddrilio. Mae'r clychau wedi eu gwneud o ddur gwrthstaen sy'n ddiogel ac yn gryf ac ni fydd yn rhydu.

**Y Farchnad Dargedol**

Mae'r cynnyrch yma wedi ei dargedu at fenywod canol oed. Y rheswm am hyn yw bod y gwydr yn anaddas i blant ac nid yw'n wrthrych y byddai dynion yn hoffi ei gael (rhy ferchetaidd o ran lliwiau a sain). Dydy'r cynnyrch ddim yn hanfodol, hynny yw does dim pwrpas penodol iddo ond mae'n wrthrych sydd yn bert ac yn creu sain ysgafn.

**Materion cynaladwyedd**

Mae'r gloch ar y cyfan yn weddol gynaliadwy. Gellir meddalu'r gwydr eto a'i ailddefnyddio. Er ei fod wedi defnyddio llawer o egni yn y lle cyntaf, unwaith y bydd y coil metel yn cael ei gynhyrchu ni fydd yn torri. Mae hefyd modd ailgylchu dur gwrthstaen.

**Prosesau addas ar gyfer y dasg**

Ar gyfer torri'r darnau gwydr byddai angen sgrifell gwydr i roi'r gwydr yn y kiln fel bod yr ochrau yn fwy llyfn a meddal. Fe fydd angen ymchwilio i weld sut i blygu'r darn metel i'r siap priodol. Mae'n debygol y bydden ni'n defnyddio peiriant drilio i greu'r tyllau.

**Iechyd a Diogelwch**

Gall y clochwynt yma fod yn arbennig o beryglus i blant gan ei fod yn cynnwys darnau bach sydd yn gallu cael eu llyncu. Mae'r gloch hefyd yn hawdd i'w thorri gan ei bod wedi ei gwneud o wydr ac felly mae'n rhaid cadw'r gloch draw o ddrysau ac allan o afael plant.

**Ateb gofynion y fanyleb?**

Wedi i mi edrych yn ôl ar y fanyleb, rydw i'n sylweddoli faint mae'r dylunio a'r ymchwilio wedi newid yr hyn y penderfynais ei wneud yn y diwedd. Yn gyntaf mae'r darn wedi newid o fod yn thema'r 60egau i fod yn thema'r byd modern. Er bod y gwydr yn cael ei ail-gylchu rydw i wedi penderfynu ail gylchu'r llinyn gan ei fod yn haws i'w ailgylchu.

## Sylwebaeth dylunio a thechnoleg

Mae'r ymateb yma yn dangos nodweddion o berfformiad Lefel 7 ac o Lefel 8 gan gynnwys 'chwilio am ffynonellau gwybodaeth perthnasol i ymchwilio i fanylion eu syniadau':

- Drwy drafod y defnyddiau a ddefnyddir ar gyfer gwneud clochwynt sonnir am bwysigrwydd cynaladwyedd wrth wneud y dewis.
- Mae'r dysgwr yn anodi pwyntiau perthnasol – mae hyn yn nodweddiadol o'r lefel yma.
- Wedi ymateb i gyfyngiadau cost, hoffterau defnyddwyr, iechyd a diogelwch a chynaladwyedd, ac wedi eu trafod mewn cyd-destun â'r dyluniad.
- Wedi ymresymu ynglŷn â'r ffactorau fydd yn effeithio ar y dyluniad terfynol. Mi fydd hyn yn ei alluogi i wneud penderfyniadau eraill pwysig ynglŷn â'r dyluniad.

**Y ffordd ymlaen**

- Defnyddio'r un dechneg o ddadansoddi cynnyrch ar gyfer gwaith ymchwil mewn maes arall. Dylai hyn roi dealltwriaeth gadarn o ddyluniadau cynnyrch sy'n bodoli yn barod.
- Trafod sut mae'r gwahanol gydrannau o fewn y cynnyrch wedi eu cydosod at ei gilydd.
- Defnyddio'r un dechneg i ddatblygu syniadau eraill yn y dyfodol.
- Defnyddio'r un penawdau ar gyfer gwerthuso'r cynnyrch gorffenedig.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Gafael gadarn ar derminoleg y pwnc, e.e. ‘papur gwydro’, ‘dur gwrthstaen’.
- Ansoddeiriau addas i ddisgrifio, e.e. ‘sain ysgafn, ymlaciol’.
- Defnydd addas o frawddegau berfenwol wrth egluro sut y bydd y clochwynt yn cael ei gwneud ac amrywiaeth o ferfenwau, e.e. ‘mesur a marcio’, ‘llathru’, ‘drilio’.
- Ysgrifennu’n llyfn ac yn eglur oherwydd yr amrediad eang o batrymau brawddegol, e.e. ‘Yn wreiddiol...‘, ‘Y bwriad...‘, ’Y rheswm...‘, ‘Wrth gwrs...‘, ‘Erbyn hyn...’.
- Amrywio amser y berfau yn gywir wrth anodi’r brasluniau’n fanwl, e.e. ‘Mae’r cynllun... Bydd y tiwbiau...’
- Defnydd cywir o’r ferf amodol, e.e. ‘toddwn’.
- Rhoi sylw i fanylion.
- Trafod manteision ac anfanteision sawl agwedd yn gytbwys.

### Y ffordd ymlaen

- Cadw’r bwriad mewn cof, e.e. ‘I ddechrau torrwch...’ sy’n orchmynnol ac yna ‘Nesaf driliais...’ sy’n mynegi profiad personol yn y gorffennol.
- Ansicrwydd ynglŷn â’r defnydd o’r person cyntaf unigol yn yr amser amherffaith, e.e. ‘doedden i’, ‘roedden i’.
- Gwirio rhai camgymeriadau sillafu, e.e. ‘golai’ (‘golau’).

## Hanes

1. **'Y Diwydiant Glo oedd diwydiant pwysicaf Cymru am ganrif a hanner: dylai ei hamgueddfeydd fod yn fwy nag atynfa i dwristiaid. Dylent goffau holl weithwyr dewr y diwydiant.' Ydy Amgueddfa'r Pwll Mawr yn ddehongliad teilwng o'r diwydiant glo yn eich barn chi?**



Mae glo wedi bod o dan mynyddoedd Cymru ers 300 miliwn o flynyddoedd. Mae glo de ddwyrain Cymru yn llawn lludw ac felly yn ddefnyddiol iawn ar gyfer tan mewn cartref neu i'w droi'n olosg. Y cofnod cyntaf o lo'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yw ym 1248 yn ardal Nedd, ac erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd glo yn cael ei ddefnyddio mewn bron i bob ffatri yn y wlad, yn enwedig yn y diwydiannau haearn a chopr. Erbyn 1845 roedd tua 4.5 miliwn o dunellau o lo yn cael ei allforio drwy ddociau Caerdydd ac ar hyd rheilffordd Cwm Taf.

Roedd amodau byw rhai glowyr yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ofnadwy. Doedd glowyr ddim yn cael eu talu llawer o arian am eu gwaith, ac felly roedd yn rhaid i fechgyn weithio'n ifanc er mwyn i'w teuluoedd gael digon o arian i gadw'n gynnes ac i brynu bwyd. Dysgais o ffynhonnell a astudiwyd yn y dosbarth fod rhai o reolwyr y pyllau glo yn rhoi tocynnau fel rhan o gyflog y gweithwyr, ac roedd yn rhaid gwario'r tocynnau yna yn siop y cwmni. Roedd hyn yn rhoi mantais fawr i reolwyr y gweithiau am eu bod yn medru creu mwy o elw, am nad oedd rhaid iddynt roi cymaint o gyflog i'w gweithwyr. Roedd hyn hefyd yn golygu dim ots faint o docynnau yr oeddent yn rhoi i'r gweithwyr, mi fyddan nhw'n cael yr un faint yn ôl, ac felly fydden nhw ddim yn colli arian. Ar y llaw arall, roedd hyn yn anfantais fawr i'r gweithwyr, am ei bod hi'n gwneud hi'n anoddach iddynt gael digon o fwyd am pris teg. Cyn i'r gyfraith newid ym 1842, roedd menywod a phlant hefyd yn gweithio mewn pyllau glo. Gan nad oeddent yn derbyn cyflog da am weithio yn y ffatrïoedd neu'r pyllau glo, roedd rhai menywod yn puteinio er mwyn ennill arian gwell. Hefyd, roedd yn rhaid i rai plant ddwyn arian y cyfoethog er mwyn prynu bwyd i'w hunain ac i'w teuluoedd.

Roedd amodau gwaith mewn pyllau glo, megis Pwll Mawr, yn anodd ei dioddef. Roedd yn rhaid i'r glowyr weithio o dan bwysau llym y rheolwyr, ac mewn sefyllfaoedd peryglus dros ben. Weithiau roedd yna nwy o'r enw 'methan' yn y pyllau glo, ac roedd risg mawr y gallai'r nwy yma ffrwydro. Bu farw 2,578 o lowyr mewn ffrwydradau rhwng 1874 a 1914 a 4,692 wrth i dwnelau ddisgyn ar eu pennau. Er mwyn ceisio atal y ffrwydradau dan ddaear yma, dyfeisiwyd y Lamp Da ym 1815 gan Sir Humphreys Da. Roedd y rhain yn gallu mesur faint o 'methan' oedd yn y pyllau glo, er mwyn i'r gweithwyr cael gadael y safle'n ddiogel. Roedd rhaid hefyd iddynt weithio yn yr oerfel. Roedd y rhan fwyaf o'r glo oedd yn cael ei gloddio yn cael ei gludo o amgylch y pyllodd mewn tram wedi'i chysylltu i geffyl. Roedd y ceffylau yma yn byw yn y pyllau fwy neu lai trwy'r flwyddyn ac roedd hi'n hawdd iddynt dal afiechydon am fod llawr y pyllau'n wlyb. Oherwydd yr angen i'r ceffylau gerdded trwy ddŵr trwy gydol y dydd, a ddim yn cael cyfle i sychu, roedd hi'n bosib i'w coesau bydru, neu i'w coesau cael eu bwyta gan lygod mawr.

Roedd tynnu tramiau hefyd yn swydd i bobl. Yr enw ar y gweithwyr yma oedd y 'Crawlers', a'u swydd oedd tynnu'r tramiau trwy dwneli bach ni allai'r ceffylau ffitio trwyddynt. Roedd yn rhaid iddyn nhw gropian ar y llawr caled, ar eu pengliniau heb un rhywbeth i amddiffyn eu traed neu eu dwylo, yn tynnu tunnell o lo gan ddefnyddio cadwyn oedd wedi ei chysylltu o amgylch eu canol. Fel y ceffylau, roedd hi'n hynod o hawdd iddynt dal afiechydon oddi wrth y llygod mawr oedd yn byw yn y pyllau. Dysgais y wybodaeth hon o ffynhonnell ar ffurf llun.

Swydd y rhan helaeth o'r bechgyn oedd yn gweithio yn y pyllodd oedd bod yn 'Trapper'. Gwaith Trapper oedd agor drws er mwyn i'r tramiau fynd trwyddo. Roedd yn rhaid i'r Trappers ddal rhaff er mwyn agor a chau'r drysau oherwydd roedd hi'n hollol dywyll lle roeddent yn gweithio. Roedd agor y drysau hefyd yn gadael i aer amgylchu o amgylch y pyllau.

Yn ystod y daith i Pwll Mawr fe ddysgais lawer mwy am amodau gweithiwr pyllau glo yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac am sut oedd y pyllau'n cael eu rheoli, drwy'r daith dan ddaear a'r amgueddfa uwchben y safle.

Yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd un person o bob deg yn gweithio mewn pwll glo. Byddai diwrnod gwaith glöwr arferol yn dechrau am tua pump o'r gloch y bore, ac yn gorffen yn hwyr yn y nos. Yn ystod y gaeaf yn enwedig, ni fyddai'r gweithwyr yn gweld golau'r haul am chwe diwrnod yn ganlynol. Yr unig ddydd oedd y gweithwyr yn cael bant oedd dydd Sul, a dyma pryd fyddai'r plant yn gweithio yn y pyllau yn cael eu haddysg yn yr ysgol Sul.

Ar ôl llofnodi i mewn mi fyddai'r glowyr yn cael eu cludo i waelod y pwll gan ddefnyddio caets. Yna, mi fyddent yn dechrau gweithio. Yn y broses o gloddio'r glo roedd yn rhaid iddynt greu polion o bren cadarn i ddal y nenfwd i fyny fel eu bod nhw'n gallu cloddio'n ddyfnach i mewn i wyneb y glo. Mi roedd y glo oeddent yn cloddio yn cael ei roi i mewn i dramiau, ac yna'n cael ei chludo yn ôl tuag at waelod y pwll.

Er mwyn diogelu'r gweithwyr rhag cael eu bwrw lawr gan y tramiau, dyfeisiwyd system cloch. Mi roedd yna gwahanol gyfres o ganiadau ar gyfer gorchmynion penodol er enghraifft, un caniad yn golygu ewch, caniad hir yn golygu stopiwch, ac yn y blaen.

Daeth y diwydiant glo yn llai pwysig yn yr ugeinfed ganrif, am fod dulliau eraill o gael pŵer wedi datblygu. Yn y 60au caeodd dros saith deg o byllau glo ar ôl newidiadau yn y system llywodraethu'r pyllau a datblygiad technoleg newydd. Ar ôl streic y glowyr ym 1984 – 1985, aeth nifer y pyllau

glo yng Nghymru lawr i 14. Roedd hwn yn ei gwneud hi'n hawdd anghofio am ran bwysig o etifeddiaeth y wlad. Fel sawl pwll arall y wlad, caeodd Pwll Mawr ym 1980, ond yn annhebyg i'r gweddill, cafodd ei ail agor ym 1983 fel amgueddfa lofaol.

Cafodd Pwll Mawr ei ail agor am nifer o resymau. Wrth gwrs roedd y pwll gwreiddiol yna'n barod ac roedd hi o hyd yn ddiogel. Hefyd, oherwydd y pyllau glo'n cau, roedd llawer o ddynion wedi colli'u gwaith. Rhoddodd ail agoriad Pwll Mawr y cyfle i'r hen lowyr yma rhannu'u profiadau gydag oedolion a phlant na fyddent wedi cael y profiad heb hwn. Mae'r ffaith bod y tywyswyr sy'n rhoi'r wybodaeth i chi yn ystod y daith dan ddaear wedi gweithio mewn pwll glo am ran o'i bywydau yn gwneud i'r ymwelwyr teimlo'n fwy hyderus bod y ffeithiau sy'n cael eu cyflwyno yn gywir.

Roedd ail agoriad Pwll Mawr hefyd yn atgyfnerthu economi'r ardal yn gyffredinol, am fod Pwll Mawr yn un o ddim ond dwy amgueddfa lofaol yn Prydain lle mae'n bosib cael taith o dan ddaear, ac felly mae'r cyfle'n brin.

Yn 2001 caeodd y pwll unwaith eto oherwydd diffyg arian i gadw'r amgueddfa ar agor ond, cafodd 7 miliwn o bunnoedd gan y Lottery Heritage Fund ym 2004. Cafodd llawer o waith ei wneud ar yr amgueddfa i'w ail-greu'n brofiad mwy cyfoes ac i wneud defnydd o rhai o'r adeiladau oedd uwchben safle'r pwll. Cafodd yr amgueddfa ei agor eto gan Jenny Randerson ar y16ed o Chwefror 2004.

Heddiw mae Pwll Mawr yn adnodd addysgiadol i ysgolion yn ogystal â'r cyhoedd cyffredin. Roedd pwll glo ffug yn arfer bod yn yr amgueddfa yng Nghaerdydd, ac roedd hyn yn boblogaidd iawn. Roedd Pwll Mawr felly yn fraint i'r Amgueddfa Genedlaethol i gael ehangu'r cyfleoedd hanesyddol oedd ganddyn nhw yn barod.

Yn yr amgueddfa uwchben y pwll, roedd yna wybodaeth ddiddorol iawn am gyfnod 'aur' y diwydiant glo ac roedd hyn yn cael ei dangos mewn ffyrdd gweladwy, clywadwy a rhyngweithiol.

Yn fy marn i, mae Pwll Mawr yn enghraifft wych o amgueddfa lofaol, ac mae'r amgueddfa yn uwch oleuo diwydiant a diwylliant penodol. Mae'r amgueddfa wedi llwyddo i ddenu twristiaid ifanc a hen, ac mae e wedi cadw rhan bwysig o hanes Cymru yn fyw.

## Sylwebaeth hanes

Mae nodweddion Lefel 7 ac 8 i'w gweld yn y gwerthusiad yma o amgueddfa'r Pwll Mawr, Blaenafon. Dyma brif nodweddion y gwaith.

- Nodwedd o Lefel 7: Mae'r 'wybodaeth... amlinellol a manwl' yn berthnasol ac wedi 'ei ddewis, ei drefnu a'i ddefnyddio' i greu 'disgrifiadau ac esboniadau celfydd eu strwythur', e.e. 'Yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd un person o bob deg yn gweithio mewn pwll glo. Yn ystod y gaeaf yn enwedig, ni fyddai'r gweithwyr yn gweld golau'r haul am chwe diwrnod yn ganlynol.'
- Nodwedd o Lefel 7: Defnyddir yr wybodaeth i 'ddadansoddi... canlyniadau digwyddiadau' wrth drafod y Lamp Davy, e.e. 'Roedd y rhain yn gallu mesur faint o 'methan' oedd yn y pyllau glo, er mwyn i'r gweithwyr cael gadael y safle'n ddiogel.'
- Nodwedd o Lefel 7: 'Dechreuir llunio ...casgliadau cadarn', e.e. 'Roedd hwn yn ei gwneud hi'n hawdd anghofio am ran bwysig o etifeddiaeth y wlad' a'r sylwadau ar brofiad y tywyswyr sy'n 'gwneud i'r ymwelwyr teimlo'n fwy hyderus bod y ffeithiau sy'n cael eu cyflwyno yn gywir.'
- Nodwedd o Lefel 7: Defnyddir 'dyddiadau a thermau arbenigol yn briodol', e.e. 'Cyn i'r gyfraith newid ym 1842…', 'trapper', 'tocynnau', 'atgyfnerthu economi'r ardal'.
- Nodwedd o Lefel 8: Mae'r esboniadau yn cael eu gosod yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach, e.e. 'Y cofnod cyntaf o lo'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yw ym 1248 yn ardal Nedd...', 'Yn y 60au caeodd dros saith deg o byllau glo ar ôl newidiadau yn y system llywodraethu'r pyllau a datblygiad technoleg newydd. Ar ôl streic y glowyr ym 1984 – 1985, aeth nifer y pyllau glo yng Nghymru lawr i 14.', '...caeodd Pwll Mawr ym 1980'.

### Y ffordd ymlaen

- Mae angen dadansoddi'r perthnasoedd rhwng digwyddiadau, pobl a newidiadau.

- Mae angen dadansoddi a dechrau gwerthuso gwahanol ddehongliadau. Nid yw'r elfennau o werthuso yn amlwg yn y gwaith hwn, er bod cyfle yma i fyfyrio ar werth y dehongliad hwn. Gellid gwneud hynny drwy gymharu gwahanol ddehongliadau o'r un testun.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Cyflwyniad trefnus iawn, e.e. paragraff dau – amodau byw, paragraff tri – amodau gwaith.
- Llwyddo i osgoi cyflwyno adroddiad cronolegol yn syrffedus trwy amrywio geiriau cyswllt i symud y gwaith yn ei flaen, e.e. 'Erbyn 1845...', 'Ar ôl llofnodi i mewn...'
- Amrywiaeth o batrymau brawddegol:
  - brawddeg yn dechrau gyda chymal adferfol, e.e. 'Oherwydd yr angen i'r ceffylau gerdded... eu bwyta gan lygod mawr.'
- Cadw diddordeb trwy gyfarch y darllenydd, e.e '...wybodaeth i chi yn ystod y daith dan ddaear...'
- Elfennau cydlynnus, e.e. 'Fel sawl pwll arall yn y wlad...', 'Roedd tynnu tramiau hefyd...'
- Cyflwyno gwybodaeth yn fanwl trwy ddefnyddio ffeithiau a ffigyrau.
- Cywain a chrynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau.


### Y ffordd ymlaen

- Defnyddio'r treiglad meddal yn gywir ar ôl arddodiad, e.e. 'o dan mynyddoedd Cymru' ('dan fynyddoedd Cymru'), 'am pris teg' ('am bris teg').
- Osgoi creu paragraff o un frawddeg yn unig.
- Gwylio rhag gorddefnyddio 'roedd', e.e. 'Roedd pwll glo ffug... ac roedd hyn yn boblogaidd iawn. Roedd Pwll Mawr...'

## 2. ‘Pa mor bwysig yw hanes La Amistad yn y frwydr am hawliau sifil yn yr UDA?’

Defnyddiodd pobl wyn y bobl dduon fel caethweision am dros 100 o flynyddoedd cyn i ddigwyddiadau fel La Amistad a’r Rhyfel Cartref lwyddo i gael hawliau cyfartal i bawb. Ond a oedd beth ddigwyddodd ar La Amistad wir wedi helpu pobl ddu America i ennill eu hawliau sifil?

Fel arfer roedd caethweision wedi cael eu herwgipio o bentrefi tlawd yn Affrica. Yna yn cael eu gwerthu i werthwyr caethweision ac yna yn cael eu danfon i America ar gwch caethweision i gael eu gwerthu i bobl gyfoethog. Ar ôl iddynt gael eu herwgipio doedd dim rhyddid ganddyn nhw i wneud unrhywbeth. Roedd pobl yn edrych i lawr arnynt oherwydd bod lliw eu croen yn wahanol.




Cai’r caethweision eu gwerthu ar y Fasnach Drifflyg. Un o’r masnachoedd mwyaf poblogaidd oedd y Masnach ‘Transatlantic’ sef gwerthu caethweision ar draws y môr. Dyma sut oedd y Fasnach Drifflyg yn gweithio.

Roedd Prydain Fawr yn anfon gynnau, diodydd a nwyddau eraill i Orllewin Affrica yna roedd Affrica yn anfon caethweision at werthwyr caethweision yn India’r Gorllewin. Roedd India’r Gorllewin yn anfon cotwm, tybaco a siwgr yn ôl i Brydain Fawr.

Roedd pobl dduon yn cael eu herwgipio o’i pentrefi mewn gwledydd tlawd fel Affrica ac yn cael eu danfon i America ar longau caethwasiaeth.

Mae’r cynllun yma bron iawn yr un peth â’r cynllun a welir yn Ffynhonnell C ac mae’r cynlluniau yn ddibynadwy oherwydd nhw yw’r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer llongau caethwasiaeth. Mae’n dangos bod amodau ar llongau caethwasiaeth yn clostroffobig ac yn greulon. Roedd caethweision yn cael eu cadwyno i’r cwch fel nid oes modd iddynt ddianc. Maent yn cael eu bwydo â llwy. Nid oeddent yn cael llawer o fwyd ac roedd y bwyd yn dychrynllyd. pethau fel ‘cabbage soup’ a gaent i’w fwyta. Nid oedd y llongau yn lân iawn felly roedd llawer o gaethweision yn dal afiechydon. Os oedd pobl yn rhy sâl i werthu, roedd y masnachwyr yn eu taflu nhw i’r môr i foddi. Roedd rhai pobl yn boddi ar y ffordd mewn stormydd

oherwydd eu bod nhw wedi eu cadwyno i'r llong a doeddynt ddim yn gallu symud yr un fodfedd. Os oedd menyw yn cael baban ar y ffordd, roedd y baban yn cael ei daflu i'r môr oherwydd roeddynt yn meddwl bod y baban yn y ffordd, a doedden nhw ddim yn gallu gwerthu babanod yn America felly roedden nhw'n dewis lladd babanod yn syth. Roedd pobl ddu yn cael eu gweld fel eitemau personol, nid pobl go iawn.

Roedd La Amistad yn gwch Americanaidd yn wreiddiol o'r enw 'Friendship' ond fe wnaeth masnachwr caethweision prynu'r cwch a'i ail-enwi'n La Amistad sy'n golygu 'The Frienship'. Roedd y cwch yn pwyso tua 120 tunnell a chafodd ei adeiladu yn America. Ar ôl digwyddiadau La Amistad, mae pawb yn adnabod y cwch La Amistad fel y cam cyntaf yn y gwrthryfel yn erbyn caethwasiaeth.

Ar yr ail o Orffennaf, 1839 fe wnaeth y caethweision ar y llong La Amistad wrthryfela yn erbyn y masnachwyr gwyn ar y llong. Arweinydd y gwrthryfel yma oedd Sengbe Pieh ond mae llawer o bobl yn ei adnabod o fel Joseph Cinqué. Cafodd ei eni yn 1813 yn Mani yn Mende Gogledd Affrica. Roedd wedi priodi ac roedd ganddo fab a dwy ferch. Roedd yn ffarmwr ac ar ei ffordd i'w gae un dydd fe wnaeth pedwar dyn ei herwgipio er mwyn ei werthu fel gaethwas. Cafodd ei werthu i Sbaenwr o'r enw Pedro Blanco. Ar ôl cael ei werthu i'r masnachwr Pedro Blanco cafodd Jospeh Cinqué a 500 o gaethweision eraill ar long o'r enw'r 'Tecora' yn barod i hwylio i India'r Gorllewin, ond yn 1820 gwnaeth Sbaen gwneud caethwasiaeth yn anghyfreithlon ac roedd yn rhaid i gaethweision cael dogfennau yn dangos eu bod nhw wedi cael eu geni yn India'r Gorllewin. Gwnaeth y masnachwyr cludo'r caethweision yma yn anghyfreithlon gan ddweud bod y caethweision yn dod o Giwba er mwyn cael caniatâd i deithio ar y llong. Ar ôl cyrraedd India'r Gorllewin prynodd dau fasnachwr Joseph Cinqué a 53 o gaethweision eraill. Enwau'r masnachwyr oedd Josie Ruiz a Pedro Montez. Cafodd y caethweision eu rhoi ar y llong 'La Amistad'. Fe wnaeth Cinqué ddwyn hoelen a defnyddio'r hoelen i dorri'r cadwynau oedd yn dal y caethweision yn sownd at y llong. Ar ôl cael eu rhyddhau gwnaeth y caethweision greu arfau gan ddefnyddio darnau o bren o'r llong. Ar ôl i'r arfau yma cael eu creu, fe wnaeth y caethweision ladd y capten. Mae Ffynhonnell Ch yn dweud bod Jose Ruiz, un o'r masnachwyr ar y llong wedi dweud:

Jose Ruiz (Awst, 1839)
*Roeddwn wedi prynu 49 o gaethweision yn Hafana, Ciwba, a'u rhoi ar long 'Yr Amistad'. Roedd popeth yn mynd yn dda am y pedwar diwrnod cyntaf. Un noson, roeddwn yn gallu clywed sŵn... Roedd pawb yn cysgu ond am y capten. Nid wyf yn sicr sut oedd popeth wedi digwydd, ond roedd y sŵn*

*wedi fy neffro. Nid oedd y lleuad allan, felly roedd hi'n dywyll iawn. Roeddwn i'n gallu clywed yn o'r gweithwyr yn gweiddi 'Llofruddiaeth'. Bu'r caethweision yn galw arnaf i godi, a dweud wrthyf na fyddwn yn cael fy mrifo... Dechreuodd y gaethweision malurio'r llong. Rhoddwyd cadwyni o'n hamgylch ni.*

Credaf bod y ffynhonnell yma yn wreiddiol, ond dydw i ddim yn siŵr os yw'n ddibynadwy ai peidio. Mae pawb yn gwybod bod y caethweision wedi lladd y capten a malurio'r llong, ond gall Jose Ruiz fod yn gor-ddweud. Hefyd, mae Jose yn dweud bod gaethwas wedi dweud wrtho bod neb yn mynd i'w frifo ac mae tystiolaeth yn dangos bod y caethweision yn siarad iaith gwahanol a bod y masnachwyr ddim yn eu deall. Rwyf wedi sylweddoli bod Pedro Montez a Antonio, sef bachgen oedd yn gweithio ar 'La Amistad' wedi rhoi tystiolaeth am y digwyddiad yn 1839. Yr un flwyddyn a Jose Ruiz, felly efallai roedd y tystiolaeth wedi cael ei roi yn yr achos llys ac mae hwn yn golygu fod yna siawns fawr bod y tystiolaeth yn gywir. Yn ffynhonnell Dd fel rhan o'i dystiolaeth, mae Pedro Montez yn dweud:
Pedro Montez (1839)
*Bu'r caethweision yn **ymosod arnaf***

Nid yw'r geiriau yma wedi eu dyfynnu yn y ffynhonnell, felly efallai nid yw'r tystiolaeth yn wir, ond yn ffynhonnell D, mae Antiono hefyd yn dweud:

Antonio (1839)
*Joseph oedd yn arwain y gaethweision. Bu ef yn **ymosod ar Ruiz**.*

Mae'r ddau wedi dweud bod caethwas wedi ymosod ar Ruiz felly mae'n rhaid bod y tystiolaeth yn ddibynadwy Mae'r ffynonellau yma yn ddefnyddiol oherwydd mae'n rhoi mwy o wybodaeth am beth wnaeth ddigwydd, ond mae'r dystiolaeth yn unochrog ac yn rhoi'r stori o safbwynt masnachwyr caethweision yn unig (pobl sydd **o blaid** caethwasiaeth). Byddai tystiolaeth o safbwynt un o'r caethweision yn dda oherwydd bydda'n rhoi dwy ochr i'r stori, ond credaf nad oes tystiolaeth o'r fath yn bodoli oherwydd:

1. Nid oedd y caethweision yn siarad Saesneg.

2. Yn y cyfnod yna, nid oedd hawliau gan bobl dduon, efallai nad oedd hawl ganddynt i siarad mewn achos llys na rhoi tystiolaeth. Os oeddynt yn rhoi tystiolaeth, roedd y beirniad a'r rheithgor fel arfer yn penderfynu bod person yn euog yn seiliedig ar liw ei groen yn unig.

Mae rhai ffynonellau yn dweud bod y caethweision wedi lladd y cogydd. Efallai eu bod yn cynllunio i wneud i un o'r criw fynd â nhw gartref, ond hyd yn oed os nid oedd y criw yn cytuno, doedd dim cogydd felly roedd y caethweision yn gwybod bod rhaid i'r criw hwylio i dir i gael bwyd cyn bo hir. Roedd dau forwr wedi dianc mewn bad achub. Roedd y caethweision yn meddwl eu bod nhw wedi ennill y frwydr yn erbyn criw y llong, ond wnaeth Ruiz a Montez chwarae tric ar y caethweision. Gofynnodd y caethweision i lywiwr y llong i fynd â nhw'n ôl i Affrica. Cytunodd y llywiwr a dechreuodd hwylio'r llong. Ond, yn lle mynd â'r caethweision i Affrica, hwyliodd i America.

Ar ôl cyrraedd America, daeth y llynges Americanaidd o hyd i'r llong ar lan Long Island. Penderfynodd Arlywydd America ar y pryd (Van Buren) ei fod o eisiau anfon y caethweision yn ôl i Sbaen. Roedd Van Buren yn teimlo mai problem Sbaen oedd y caethweision oherwydd y ffaith bod 'La Amistad' yn long Sbaenaidd a bod y masnachwyr hefyd (Ruiz and Montez) yn dod o'r wlad honno ond cyn i Van Buren allu gwneud hyn, cafodd Cinqué a'r caethweision arall eu dal a chawsant eu dal gerbron llys yn 1840 am lofruddiaeth. Yn y diwedd, penderfynodd y llys ryddhau'r caethweision. Ffeiliodd Ruiz a Montez ddogfen i gael eu caethweision (eiddo yw'r gair a defnyddir ar y ddogfen) yn ôl. Nid oedd Van Buren yn hapus efo penderfyniad y llys, roedd Buren eisiau'r caethweision i gael eu cosbi, felly fe wnaeth Buren fynnu achos llys arall ym Mhriflys America y tro yma yn Mawrth, 1841, ond unwaith eto penderfynodd y llys ryddhau'r caethweision oherwydd nad oedd y caethweision yn 'eiddo' i Ruiz a Montez yn gyfreithlon oherwydd roedden nhw'n cludo'r caethweision yn anghyfreithlon ac oherwydd roedden nhw wedi darganfod bod y gaethweision wedi cael eu herwgipio ac wedi cael eu gorfodi i weithio fel caethweision. Pwyllgor Amistad oedd wedi amddiffyn y caethweision. Talon nhw am long i fynd â'r caethweision yn ôl i Affrica. Dyma ffynhonnell B sef y hanes am La Amistad a gafodd ei roi i'r llys:-

<u>Mehefin 27 1839</u> – llong Amistad yn cyrraedd ynys Ciwba. Masnachwyr o Sbaen oedd perchnogion y llong.

<u>Awst 26 1839</u> – Lefftenant Gedney yn darganfod llong. Mae'r llong tua hanner milltir o'r lanfa yn Long Island yn America. Roedd y llong yn orlawn gyda pobl duon a rhai pobl eraill. Aeth Lefftenant Gedney â'r bobl yma i Conneticut yn America.

<u>Medi 18 1839</u> – Ruiz a Montez yn gwneud cais swyddogol yn dweud maen nhw oedd perchnogion y caethweision.

Mae'r dystiolaeth yma yn wreiddiol oherwydd mae wedi dod o'r achos llys yn 1841. Mae'n rhaid ei fod o'n wir oherwydd dyma'r wybodaeth wreiddiol o'r achos felly mae'n rhaid ei fod o'n ddibynadwy. Nid yw hwn yn ddefnyddiol iawn oherwydd nid oes llawer o wybodaeth yn cael ei roi. Mae rhai pobl yn dweud, bod Cinqué wedi dod yn fasnachwr caethweision ei hun ar ôl iddo gyrraedd ei cartref yn Affrica,! Credaf bod y digwyddiad ar La Amistad wedi digwydd oherwydd bod y pobl Affricanaidd wedi bod yn cael eu herwgipio am amser hir ac oherwydd bod pobl dduon wedi syrffedu a chael eu trin fel eiddo personol anifeiliaid pobl gwyn. Credaf nad oedden nhw'n hapus efo'r ffaith bod pobl yn edrych i lawr arnynt oherwydd lliw eu croen.

Digwyddiadau 'La Amistad' oedd y cam cyntaf yn y frwydr i gael hawliau gyfartal i pobl dduon. Dyma rai digwyddiadau arall wnaeth digwydd ar ôl 'La Amistad'.

Un digwyddiad pwysig oedd Rhyfel Cartref America. Dechreuodd y Rhyfel Cartref yn 1861 a gorffen yn 1865. Digwyddodd y rhyfel pan roedd y taleithiau'r Gogledd eisiau cael gwared o gaethwasiaeth a thaleithiau'r De (Confederate States of America) eisiau cadw caethwasiaeth yn fyw. Roedd yna llawer o resymau am y rhyfel. Y prif reswm oedd y ffaith bod Gogledd America eisiau cael gwared o gaethwasiaeth a bod De America yn anghytuno ac eisiau cadw caethwasiaeth. Rheswm arall oedd y ffaith bod y De yn ofn colli pŵer dros Ogledd America, a bod y Gogledd yn ofn colli pŵer dros De America. Ar ddiwedd y rhyfel, enillodd y Gogledd y rhyfel ond penderfynodd y De i arwahanu pobl wynion a duon a sefydlu deddfau Jim Cro, sef rheolau i bobl dduon yn unig. Y rheolau oedd bod yn rhaid i bobl wyn a du fwyta mewn llefydd gwahanol, defnyddio tai bach cyhoeddus gwahanol ac eistedd ar rannau gwahanol o'r bws. Nid oedd hawliau cyfartal gan bobl ddu.

Nid oedd pawb yn hoffi bod y caethweision yn ennill eu rhyddid, a'r grŵp enwocaf oedd yn ceisio rhwystro'r bobl dduon rhag cael hawliau sifil oedd y KKK. Cafodd y Ku Klux Klan cyntaf ei chreu yn 1865 ar ôl i'r Rhyfel Cartref orffen. Aelodau cyntaf y Klan oedd 6 dyn o Pulaski, Tennessee. Creuon nhw'r 'gang' yma oherwydd roedden nhw'n anghytuno efo'r syniad o gael hawliau cyfartal i bobl dduon a phobl o grefyddau gwahanol. Mae llawer o bobl yn eu gweld nhw fel ochr fygythiol yr UDA. Cymdeithas o derfysgwyr yw'r Klan. Roeddent yn bygwth llawer o bobl , unrhyw un oedd yn credu mewn cael hawliau cyfartal i bobl du a thrwy wneud hyn, yn atal pobl rhag cael hawliau cyfartal. Dim ond pobl oedd yn Brotestaniaid, yn Eingl-Sacsonaidd ac yn wyn oedd yn gallu ymuno â'r Klan. Roeddynt yn gwisgo mygydau a chlogynnau gwyn ac yn defnyddio trais a braw i

ddychryn pobl du a gwyn oedd o blaid polisi hawliau cyfartal i bawb. Nid dim ond pobl du oedd yn cael eu bygwth gan y KKK, ond Catholigion ac Iddewon hefyd. Yn y 1920au, wnaeth nifer o bobl yn y Klan gynyddu ac erbyn 1925 roedd ganddyn nhw tua 5 miliwn o aelodau, erbyn hyn roedd pobl fel barnwyr a'r Heddlu yn rhan o'r Klan. Ar Awst yr 8fed fe wnaeth 50,000 aelod o'r Klan orymdeithio i ddangos bod ganddyn nhw bŵer. Mae llawer o bobl yn meddwl bod nhw wedi gwneud hwn oherwydd roedd ganddyn nhw ofn o colli eu pŵer dros bobl. Os oedd unrhyw un yn eu goroesi, roedd y Klan yn credu mewn pethau fel llosgi pobl ar y groes a chrogi'n gyhoeddus.

Erbyn y 1950au roedd nifer o bobl ddu America wedi cael llond bol. Ar ôl helpu gyda'r Ail Ryfel Byd yn erbyn Hitler nid oedd pethau wedi gwella. Dechreuodd y bobl ddu brotestio er mwyn cael hawliau sifil. Efallai mai y brotest enwocaf oedd Boicot y Busus. Cafodd Rosa Parks ei geni ar y pedwerydd o Chwefror, 1913 yn Tuskegee, Alabama. Fe ymladdodd yn erbyn arwahanu trwy sefydlu 'boicot y bysiau'. Esgynodd Parks i fws ar y cyntaf o Rhagfyr 1955. Talodd am ei thocyn bws ac eisteddodd yng nghefn y bws. Un o'r rheolau Jim Cro oedd bod rhaid i bobl ddu eistedd yng nghefn y bws a phobl gwyn i eistedd ym mlaen y bws. Eisteddodd Rosa Parks i lawr, ond daeth menyw wen ar y bws. Doedd dim lle ym mlaen y bws i'r fenyw eistedd felly trodd gyrrwr y bws a gofyn i Rosa ildio'i sedd oherwydd roedd Rosa yn eistedd yn rhes cyntaf y 'blacks' sef y sedd agosaf i'r seddi i pobl gwyn. Gwrthododd Rosa ildio'i sedd a daeth yr heddlu. Cafodd ei harestio. Tra bod dyn heddlu yn mynd â Rosa bant o'r bws, gofynnodd Rosa, 'Why do you push us around?' Dywedodd y dyn Heddlu " I don't know but the law's the law". Mae hwn yn dangos bod yr Heddlu hyd yn oed ddim yn gwybod yn union pam oedd pobl ddu yn cael eu trin mor wael. Yn ystod y 'boycott' roedd y Ku Klux Klan yn cerdded o amgylch yn eu gwisgoedd yn bygwth pobl ddu ac yn dweud wrthyn nhw i beidio â dilyn esiampl Rosa Parks.

Martin Luther King oedd un o arweinwyr gorau America. Helpodd i sefydlu mudiad hawliau dynol a mudiad heddwch. Wnaeth Martin Luther King ymladd dros hawliau cyfartal. Roedd yn credu mewn protestio heddychol. Cafodd ei eni ar y bymthegfed o Ionawr, 1929. Enillodd Martin Luther King gefnogaeth dros y byd pan aeth ei araith 'I have a dream' ar y teledu. Yn 24 mlwydd oed, fe daeth Martin Luther King yn weinidog ar y gapel y Bedyddwyr yn Dexter Avenue. Fe oedd y gweinidog ifancaf i fod yn yr eglwys. Yn 1963 trefnodd brotest i gael hawliau a swyddi i pobl dduon. Gorymdeithion nhw i Washington ac yno rhoddodd ei araith 'I have a dream'.

Ar y seithfed o Fawrth 1965, cynlluniodd King orymdaith i Montgomery o Selma. Roedd rhaid canslo'r orymdaith oherwydd ymosododd yr Heddlu ar y pobl oedd yn gorymdeithio er eu bod yn heddychlon. Doedd yr Heddlu ddim. Mae'r dydd yma wedi cael ei adnabod fel 'Bloody Sunday'.

Cafodd King ei ladd yn Memphis, Tennessee yn 1968 tra'r oedd King yn sefyll ar falconi yn y 'Lorraine Motel' Cafodd ei saethu am 6:01 yh. gan James Earl Ray Cyfaddefodd a chafodd ei arestio.

Ar ôl y digwyddiadau yma i gyd, mae yna dal hiliaeth heddiw. Er bod deddfau Hawliau Sifil fel pleidleisio a thai teg wedi cael eu pasio yn y 1960au roedd pobl ddu yn parhau i gael eu trin yn wael. Mae pobl fel Martin Luther King a Rosa Parks heddiw yn cael eu cofio am fod yn gyfrifol bod pobl ddu America wedi ennill eu hawliau sifil. Ond maen nhw wedi dod yn enwog oherwydd bod eu boicot wedi cael ei weld gan lawer o bobl ar draws y byd. Mae 'I have a dream' hefyd yn enwog drwy y byd oherwydd bod pobl wedi gweld Martin Luther King ar y teledu. Ar y llaw arall, heb y teledu ni fyddai pobl America na'r byd eisiau newid pethau. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd teledu na radio ar gael ac nid oedd llawer o bobl yn gallu darllen ac ysgrifennu. Dyma pam fod dim llawer o bobl yn gwybod beth wnaeth digwydd. Mae ffilmiau modern yn gallu rhoi sylw mawr i ddigwyddiadau. Yn fy marn i mae La Amistad yn bwysig yn hanes pobl ddu yn ceisio cael hawliau sifil oherwydd roedd y caethweision oedd ddim yn gwybod i ble roedden nhw yn mynd wedi llwyddo i ymladd yn erbyn y pobl wyn. Petaen nhw ddim wedi ymladd, efallai y byddai wedi cymryd mwy o amser i bethau newid, fel Rhyfel Cartref America, y KKK a byddai hyn wedi cael effaith ar hanes America yn yr ugeinfed ganrif.

## Sylwebaeth hanes

Mae nodweddion o Lefel 8 i'w gweld yn yr ymholiad hwn ar La Amistad a'r frwydr am hawliau sifil yn yr UDA. Dyma brif nodweddion y gwaith.

- Nodwedd o Lefel 8: Defnyddia'r dysgwr ei 'wybodaeth amlinellol a manwl o hanes... i ddadansoddi'r berthynas rhwng digwyddiadau, pobl a newidiadau ...yn y gorffennol', e.e. 'Cafodd y Ku Klux Klan cyntaf ei chreu yn 1865 ar ôl i'r Rhyfel Cartref orffen. Aelodau cyntaf y Klan oedd 6 dyn o Pulaski, Tennessee. Creuon nhw'r 'gang' yma oherwydd roedden nhw'n anghytuno efo'r syniad o gael hawliau cyfartal i bobl dduon a phobl o grefyddau gwahanol… Dim ond pobl oedd yn Brotestaniaid, yn Eingl-Sacsonaidd ac yn wyn oedd yn gallu ymuno â'r Klan. Roeddynt yn gwisgo mygydau a chlogynnau gwyn ac yn defnyddio trais a braw i ddychryn pobl du a gwyn oedd o blaid polisi hawliau cyfartal i bawb. Nid dim ond pobl du oedd yn cael eu bygwth gan y KKK, ond Catholigion ac Iddewon hefyd. Yn y 1920au, wnaeth nifer o bobl yn y Klan gynyddu ac erbyn 1925 roedd ganddyn nhw tua 5 miliwn o aelodau, erbyn hyn roedd pobl fel barnwyr a'r Heddlu yn rhan o'r Klan. Ar Awst yr 8fed fe wnaeth 50,000 aelod o'r Klan orymdeithio i ddangos bod ganddyn nhw bŵer.'
- Nodwedd o Lefel 8: Defnyddir 'gwybodaeth a dealltwriaeth i ddefnyddio ffynonellau hanesyddol yn feirniadol', e.e. 'Mae'r ffynonellau yma yn ddefnyddiol oherwydd mae'n rhoi mwy o wybodaeth am beth wnaeth ddigwydd, ond mae'r dystiolaeth yn unochrog ac yn rhoi'r stori o safbwynt masnachwyr caethweision yn unig (pobl sydd *o blaid* caethwasiaeth). Byddai tystiolaeth o safbwynt un o'r caethweision yn dda oherwydd bydda'n rhoi dwy ochr i'r stori, ond credaf nad oes tystiolaeth o'r fath yn bodoli oherwydd:

  1. Nid oedd y caethweision yn siarad Saesneg.
  2. Yn y cyfnod yna, nid oedd hawliau gan bobl dduon, efallai nad oedd hawl ganddynt i siarad mewn achos llys na rhoi tystiolaeth. Os oeddynt yn rhoi tystiolaeth, roedd y beirniad a'r rheithgor fel arfer yn penderfynu bod person yn euog yn seiliedig ar liw ei groen yn unig.'

- Nodwedd o Lefel 8: Drwy'r gwaith mae'r wybodaeth berthnasol wedi ei dewis, ei threfnu a'i defnyddio 'i gynhyrchu... disgrifiadau ac esboniadau sy'n gyson gelfydd eu strwythur', e.e. 'Ar ddiwedd y rhyfel, enillodd y Gogledd y rhyfel ond penderfynodd y De i arwahanu pobl wynion a duon a sefydlu deddfau Jim Cro, sef rheolau i bobl dduon yn unig.'
- Nodwedd o Lefel 8: Defnyddir 'dyddiadau a thermau arbenigol yn briodol, e.e. 'Un o'r masnachodd mwyaf poblogaidd oedd y Masnach 'Transatlantic'...', 'un o'r masnachwyr ar y llong…', 'Dechreuodd y Rhyfel Cartref yn 1861 a gorffen yn 1865.'

**Y ffordd ymlaen**

- Mae angen sylfaen gadarnach i esboniadau a dadansoddiadau o achosion a chanlyniadau.
- Mae angen ffurfio barn gytbwys am werth dehongliadau gwahanol o ddigwyddiadau a datblygiadau hanesyddol mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol a dadansoddi a dechrau gwerthuso gwahanol ddehongliadau. Gellid gwneud hynny drwy gymharu ystod eang o ddehongliadau o ganlyniadau caethwasiaeth, mewn ffilmiau megis *Amazing Grace* a *Roots*.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Procio'r darllenydd ar y dechrau trwy holi cwestiwn rhethregol 'Ond a oedd beth ddigwyddodd... i ennill eu hawliau sifil?'
- Gafael gadarn ar ferfau yn rhan gyntaf y dystiolaeth:
  – ffurf gryno'r amser gorffennol, e.e. 'defnyddiodd'
  – ffurf gryno'r amser amherffaith, e.e. 'a gaent', 'Cai'r caethweision'.
- Geirfa briodol ar gyfer pwyso a mesur ac ystyried safbwyntiau gwahanol, e.e. 'Ar y llaw arall', 'Mae llawer o bobl yn meddwl'.
- Ehangder geirfa, e.e. '...mygydau a chlogynnau gwyn ac yn defnyddio trais a braw'.
- Naws traethodol priodol.
- Cyflwyno manylion yn drefnus gan egluro'n fanwl, e.e. 'Y rheolau oedd...'
- Cloi yn ddeheuig trwy ddychwelyd at y cwestiwn a dod i farn a chasgliad.

### Y ffordd ymlaen

- Defnyddio ffurf gryno'r ferf yn hytrach na'r ffurf gwmpasog, e.e. 'Gwnaeth y masnachwyr cludo' ('Cludodd'), 'gwnaeth Sbaen gwneud' ('Gwnaeth'), 'gwnaeth y caethweision greu arfau' ('Creodd').
- Defnyddio'r berfenw 'ofni' yn hytrach na'r enw 'ofn', e.e. 'y De yn ofn colli pŵer dros Ogledd America'.
- Angen cysondeb yn amser y ferf, e.e. 'Roedd caethweision yn cael eu cadwyno... Maent yn cael eu bwydo'.
- Angen cywiro'r rhagenw perthynol negyddol, e.e. 'fel nid oes' ('nad oes'), 'bod yr heddlu hyd yn oed ddim yn gwybod' ('nad oedd').

## 3. ‘Sut yr effeithiodd technoleg ar gwrs y ddau ryfel byd yn yr ugeinfed ganrif?’

Erbyn hyn mae technoleg o’n cwmpas ym mhobman. Ond, yn pwysig mae technoleg yn chwarae rôl hanfodol ym mywyd rhyfel ers y Rhyfel Byd cyntaf. Mi fydda i yn edrych ar hyn ac yn cymharu technoleg rhyfel ers y Rhyfel Byd Cyntaf, heddiw a’r dyfodol. Byddaf yn sôn am eu cryfderau a’i gwendidau.

Ar ddechrau y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914 roedd arfau’r milwyr yn syml iawn, er enghraifft roeddynt yn dal i ddefnyddio cleddyf ac yn gyrru eu milwyr i ymladd ar gefn ceffylau. Ond pan sylweddolodd y milwyr ac arweinwyr y rhyfel ei fod am parhau’n hirach nag ychydig o fisoedd, roeddynt yn gwybod bod rhaid iddynt foderneiddio. Felly dechreuon nhw ddyfeisio gynnau peiriant a nwyon gwenwynig. Roedd y ddau arf yma yn cael eu dibynnu arnynt gan ddynion y ffosydd. Roedd nwy mwstard a clorin yn cael eu defnyddio i ladd miloedd o bobl. Ond dyfeisiad mwyaf pwysig y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y tanc. Yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y tanc yn beiriant araf ac roedd yn torri bob amser. Mi welodd Field Marshal Haig bod gan y peirannau yma bwysigrwydd a potensial felly penderfynodd greu mil o danciau. Mi wellodd technoleg y tanc yn fawr oherwydd hyn. Un o’r tanciau a oedd yn cael ei ddefnyddio oedd y tanc A7V. Roedd y tanc wedi cael ei wneud allan o wahanol fetelau. Roedd yn pwyso 30 tunnell. Un o wendidau mawr y tanc oedd nad oedd gan y milwyr offer i drwsio’r tanc mewn argyfwng. Ei gyflymder uchaf oedd 9 km/a ac roedd yr armwr blaen dim ond yn 30 mm ddyfnder a’r armwr ochr yn 20 mm o ddyfnder. Roeddynt hefyd gyda awyrennau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Un ohonynt oedd y Fokker Triplane oedd wedi cael ei wneud allan o bren a chynfas. Roedd hyn yn gwendid mawr. Nid yw pren a chyfnas mor gryf a metal fel roeddynt yn defnyddio ar gyfer tanc. Roedd sedd y peilot ar agor sydd yn beryglus iawn enwedig pan doedd dim cyfathrebu ar yr awyren a doedd gan y peilot ddim parasiwt. Yr unig arf oedd gan yr awyren oedd gwn peiriant. Roedd yn cyrraedd uchder o 5,500, a’i gyflymder uchaf oedd 160 km/h. Roedd y llong danfor wedi bodoli cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond fe ddaeth yn llawer pwysicach yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd gan yr Almaenwyr long danfor hefyd ond ei enw oedd y U-boat (under sea boat) a oedd yn gyfrifol am suddo’r Lusitania. Felly roedd gan dechnoleg y llong danfor bŵer anhygoel gan ei bod yn gyfrifol am ymaelodiad UDA â’r rhyfel. Y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y tro cyntaf i dechnoleg greu cymaint o ddinistr.

Ym 1939 pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd roedd arfau syml wedi hir ddiflannu. Roedd ganddynt danciau, awyrennau, llongau tanfor a gynnau peiriant. Ond yn anffodus nid oedd hyn yn ddigon. Roedd yr ail Ryfel Byd

yn llawer mwy eang ac yn cynnwys mwy o wledydd. Felly roedd rhaid iddynt wella'r dechnoleg. Roeddynt yn dal i ddefnyddio tanciau. Un o'r tanciau roeddynt yn ei ddefnyddio oedd y Tanc Teigr. Roedd y Tanc Teigr yn dal 5 dyn oedd yn well na'r A7V gan y gallai'r peiriant gael ei reoli'n well gan nad oedd gormod o bwysau ar un person. Roedd gan y Tanc Teigr lawnchers mwy ac offer i drwsio'r tanc mewn argyfwng. Hefyd gall y Tanc Teigr deithio ar gyflymder uchel o 45Km/a, yn llawer mwy cyflym na'r A7V. Mae gan y Tanc Teigr armwr blaen o 100mm ac armwr ochr o 80mm felly mae'r tanc wedi cael ei amddiffyn yn well na'r A7V. Gall barhau yn hirach sydd yn safio pres ar gyfer gwella technoleg arall.

Daeth yr arddull o'r enw Blitzkrieg yn risg felly roedd rhaid rhoi llawer o arian i fewn i dechnoleg. Roedd awyrennau yn hanfodol bwysig i'r Blitzkrieg oedd yn defnyddio awyrennau fel y supermarina spitfire a'r Messerschmitt Bf109. Roedd gan y ddwy awyren sedd peilot oedd wedi cau sydd yn amddiffyn y peilot yn gwell ac roedd gan y peilot barasiwt a oedd yn gallu arbed ei fywyd. Mae'r ddau peth yma yn fanteisiol iawn o'i gymharu a'r Fokker Triplane. Roedd y ddwy awyren wedi eu gwneud o fetal oedd yn golygu fod ganddynt fwy o siawns i oroesi na'r Fokker Triplane oedd o bren. Gall y ddwy awyren hefyd gyfathrebu trwy aerial/radio. Gallant adael i bobl wybod os oes problem yn wahanol i'r Fokker Triplane lle gall y peilot a'r awyren fynd ar goll am byth heb i neb wybod pam.

Mae gan awyrennau'r Ail Ryfel Byd fwy nag un gwn peiriant, bomiau a canon ac felly gallant greu mwy o niwed na'r Fokker Triplane. Gall y ddwy awyren deithio'n gyflymach a dringo'n uwch na'r Fokker Triplane a'r Spitfire – cyflymder uchaf 605 km/a gall ddringo hyd at 11,300m, a'r messerschmitt – cyflymder uchaf 605km a gall ddringo hyd at 10,500m felly mae gan y ddwy awyren llai o siawns i gael ei taro. Roedd yr Ail Ryfel Byd yn rhyfel hir ac anodd iawn gyda dwy ochr pwerus felly roedd rhaid dyfeisio rhywbeth a oedd yn mynd i ddinistrio dinasoedd fel Llundain ac Antwerp. Cafodd 72 miliwn o bobl eu lladd yn yr Ail Ryfel Byd - oherwydd technoleg yn fy marn i.

Heddiw rydym yn dibynnu ar dechnoleg yn fwy nag erioed. Rydym yn dal i ddefnyddio tanciau ac awyrennau. Un o'r tanciau yw'r Leopard 2 gafodd ei ddyfeisio yn y 1970 degau. Gall y tanc ddal 4 person yn debyg i'r Tanc Teigr. Mae'n llawer gwell na'r Tanc Teigr oherwydd gall y Leopard 2 ymladd yn y nos, fynd dros bethau i fyny at 1m o uchder a gyrru drwy ddŵr 4m o ddyfnder. Nid yw agweddau tir rhyfel yn broblem i'r Leopard 2.

Un o'r awyrennau rydym yn defnyddio heddiw yw'r Tornado sy'n gallu dal 2 berson sydd yn fwy na'r Spitfire a'r Messerschmitt ac felly gall un yrru ac un weithio'r arfau. Gall ddringo hyd at 1,390 km a teithio cyflymder uchaf o

2,417.6 km/a. sy'n well na'r Spitfire a'r Messerschmitt. Mae cyflymder yn bwysig iawn mewn awyren gan y gall ddianc o lefydd yn gyflymach ac osgoi pethau'n well.

Heddiw rydym yn ymladd mewn rhyfel a thechnoleg e.e bomiau niwclear, gall bomiau niwclear ddinistrio gwlad yr un maint â Cymru neu fwy. Hefyd gall y bom effeithio ar yr atmosffer am flynyddoedd.

Er bod technoleg rhyfel wedi datblygu llawer mae yna hefyd broblemau. Yr unig ffordd i ennill gyda technoleg yw i fod un cam ar y blaen. Os gall y gelyn dorri i fewn i'r system gall popeth fynd o'i le a gall problem fel yna golli'r rhyfel.

Gellir defnyddio technoleg mewn rhyfel drwy awyrennau a thanciau ond gellir defnyddio technoleg i herio'r gelyn e.e. dywedodd Saddam Hussein fod ganddo dechnoleg/arfau beiolegol. Bydd rhyfel yn troi i fod yn rhyw fath o gêm gyfrifiadurol ond gyda bywydau go iawn.

Yn anffodus mae technoleg yn cyfrannu at gynhesu byd eang. Mae'r bomiau yn dinistrio tir, y nwyon yn dinistrio'r aer a'r bwledi yn dinistrio bywyd gwyllt. Yn fy marn i yn lle edrych ar ffyrdd i greu egni dylem ni ddod â rhyfel i ben.

Ond dydw i ddim yn meddwl y bydd hynny'n digwydd, felly rwy'n meddwl bod dyfodol i dechnoleg rhyfel. Credaf na fydd yna filwyr cyn bo hir a bydd rhyfel yn rhyw fath o gem gyfrifiadurol. Mi fydd y prif arweinwyr yn gallu anfon bomiau i lanio ac i ffrwydro mewn gwlad i'w dinistrio.

Felly dros y blynyddoedd (o dynion ar ceffylau hyd at bomiau niwclear) mae datblygiad technoleg wedi bod yn anferthol, sydyn a dinistriol. Yn fuan rwy'n credu bydd technoleg wedi goresgyn ein byd ni. Hefyd rwy'n credu y daw geiriau Albert Einstein yn wir "I know not with what weapons World War III will be fought, but World War IV will be fought with Sticks and Stones."

## Sylwebaeth hanes

Mae nodweddion Lefel 8 i'w gweld yn y gymhareb hon rhwng technoleg y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Dyma brif nodweddion y gwaith.

- Nodwedd o Lefel 8: Defnyddir gwybodaeth a dealltwriaeth 'amlinellol (rhyfela) a manwl (arfau y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd a'r presennol) o hanes Cymru a Phrydain' i 'ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng digwyddiadau, pobl a newidiadau', e.e. 'Mi welodd Field Marshall Haig bod gan y peirannau yma bwysigrwydd a potensial felly penderfynodd greu mil o danciau. Mi wellodd technoleg y tanc yn fawr oherwydd hyn'; a 'rhwng nodweddion cymdeithasau yn y gorffennol', e.e. '...doedd dim cyfathrebu ar yr awyren a doedd gan y peilot ddim parasiwt' (Rhyfel Byd Cyntaf), 'gall y ddwy awyren hefyd gyfathrebu trwy aerial/radio', 'roedd gan y peilot barasiwt…' (Ail Ryfel Byd)".
- Nodwedd o Lefel 8: Gosodir 'esboniadau a dadansoddiadau o achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach', e.e. 'Roedd gan yr Almaenwyr long danfor… y U-boat... a oedd yn gyfrifol am suddo'r Lusitania. Felly roedd gan dechnoleg y llong danfor bŵer anhygoel gan ei bod yn gyfrifol am ymaelodiad UDA â'r rhyfel.', 'Daeth yr arddull o'r enw Blitzkrieg yn risg felly roedd rhaid rhoi llawer o arian i fewn i dechnoleg.'
- Nodwedd o Lefel 8: Llunia'r dysgwr hefyd gasgliadau cadarn yn annibynnol, e.e. '…ond gellir defnyddio technoleg i herio'r gelyn e.e. dywedodd Saddam Hussein fod ganddo dechnoleg/arfau beiolegol. Bydd rhyfel yn troi i fod yn rhyw fath o gêm gyfrifiadurol ond gyda bywydau go iawn.'
- Nodwedd o Lefel 8: Mae'r dysgwr 'yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i gynhyrchu disgrifiadau (o'r arfau gwahanol yn y rhyfeloedd dan sylw) ac esboniadau (o gryfderau a gwendidau'r arfau)'.

- Nodwedd o Berfformiad Eithriadol: Mae'r dysgwr y 'defnyddio dyddiadau ac ystod o dermau arbenigol soffistigedig yn briodol', e.e. 'Ar ddechrau y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914…', 'tanc A7V', 'Blitzkrieg', 'Leopard 2'.

**Y ffordd ymlaen**

- Mae angen dadansoddi cysylltiadau rhwng digwyddiadau a datblygiadau a ddigwyddodd mewn gwledydd gwahanol ac mewn cyfnodau gwahanol.
- Mae angen cryfhau'r casgliadau cadarn a chytbwys a geir yma gydag enghreifftiau manylach o gorff y traethawd.

## Ystyriaethau llythrennedd

### Sylwebaeth

- Strwythur pendant i'r gwaith gyda chyflwyniad sy'n nodi'r bwriad a chlo sy'n crynhoi ac yn defnyddio dyfyniad pwrpasol.
- Y paragraffau yn llifo o un i'r llall yn effeithiol, e.e. ar ddechrau'r ail baragraff, '...roedd arfau'r milwyr yn syml iawn...' ac ar ddechrau'r trydydd paragraff, ' ...roedd arfau syml wedi hir ddiflannu...'
- Pwyso a mesur effeithiolrwydd gwahanol ddyfeisiadau technegol rhyfel gan gymharu'n gyson a defnyddio geirfa briodol, e.e. 'Roedd y Tanc Teigr yn dal 5 dyn oedd yn well na'r A7V gan y gallai'r peiriant gael ei reoli'n well ...lawnchers mwy... ...yn llawer mwy cyflym... cael ei amddiffyn yn well... Gall barhau yn hirach...'
- Cyflwyno ffeithiau cymhleth yn glir.
- Mynegi barn bersonol gan ddod i gasgliad, e.e. 'rwy'n credu...' 'Felly dros y blynyddoedd...'

### Y ffordd ymlaen

- Angen gwell gafael ar strwythur y paragraffau. Gellir rhannu'r ail baragraff, er enghraifft yn bedwar paragraff gan fod pedair agwedd yn cael eu trafod – arfau ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, tanciau, awyrennau, y llong danfor.
- Osgoi brawddegau pytiog a'u cyfuno, e.e. 'Roedd y tanc wedi cael ei wneud allan o wahanol fetelau. Roedd yn pwyso 30 tunnell.'
- Gwell gafael ar y treiglad llaes yn dilyn 'a' ac 'â', e.e. 'a clorin' ('a chlorin'), 'a potensial' ('a photensial'), 'a teithio' ('a theithio').
- Angen cysondeb yn amser y ferf, e.e. 'Roedd y ddwy awyren... Gall y ddwy awyren', 'Gallant... Mae gan...'

# Cyfeiriadau defnyddiol

## Cyhoeddiadau

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer pob pwnc, yn ogystal â *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru, Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru, Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru a'r Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* i'w gweld yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae canllawiau penodol ar gael hefyd ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ar y wefan hon.

*Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu: Cyfleoedd HMS i athrawon pynciau ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3* (2010)

*Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen: Cyfleoedd HMS i athrawon pynciau ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3* (2010)

*Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr* (2009)

*Gwerthfawrogi deunyddiau anllenyddol* (2009) (Cymraeg yn unig)

*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (2008)

*Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2008)

*Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3* (2008)

*Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol* (2010)

*Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog* (2008)

*Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd* (2008)

*Gwneud y Cysylltiad: Dysgu Iaith 5–14* (2003)

*Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad* (2003)

**Estyn**

*Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed* (2009)

*Arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr annibynnol ac ychwanegol: Dysgwyr mwy abl a dawnus* (2009)

*Rhannu arfer dda wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion* (2009) (negeseuon allweddol y gynhadledd a gynhaliwyd ym mis Medi 2008)

*Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (2008)

*Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion* (2008)

*Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn* (2002)

*Codi Safonau Sillafu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur trafod Estyn* (2001)

*Codi Safonau Ysgrifennu Saesneg mewn Ysgolion Cynradd: Papur trafod Estyn* (2000)

*Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3* (Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)

*Symud Ymlaen... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* (Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)

*Pontio'r bwlch: Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* (Estyn/ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004)

**Llywodraeth Cynulliad Cymru/Sgiliau Sylfaenol Cymru**

*Fi'n Darllen? Byth Bythoedd! Arweiniad ymarferol i wella llythrennedd bechgyn*

*Fi'n Darllen? Byth Bythoedd! 13 strategaethau i wella llythrennedd bechgyn*

*Beth sy'n gweithio gyda disgyblion yng Nghymru sydd â phroblemau llythrennedd? Effeithiolrwydd cynlluniau ymyrraeth* (A5196)

*Drama a Llythrennedd: Arolwg o arfer effeithiol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (A1693)

*Ysgrifennu i ddysgu: Arolwg o arfer effeithiol gydag ysgrifennu yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (A1694)

*Sicrhau Llythrennedd Bechgyn – adolygiad o arfer effeithiol mewn ysgolion cynradd* (A1242)

*SIY: Mwy na Goroesi* (A1723)

*Gwella Llythrennedd Bechgyn – arolwg o arfer effeithiol mewn ysgolion uwchradd* (A1241)

*Arfer effeithiol wrth Ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 2 – Y filltir Ychwanegol* (A1173)

*Sut i addysgu'r broses ddrafftio* (A1644)

*Sut i addysgu sgimio a sganio* (A1331)

*Sut i ddefnyddio geiriau allweddol yn effeithiol* (A1307)

*Sut i addysgu testun gwybodaeth mewn pynciau Dyniaethau CA3* (A1713)

*Sut i addysgu testun cyfarwyddiadau ac esboniadau mewn Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg* (A1714)

*Sut i ddatblygu'r iaith i feddwl mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn CA3* (A1915)

*Sut i addysgu gwerthuso mewn addysg gorfforol a dylunio a technoleg CA3*

*Sut i addysgu sgiliau darllen yng nghyfnod allweddol 3* (A2396)

*Sut i… adolygu'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu sgiliau sylfaenol. Canllaw i uwch reolwyr ysgolion* (A5274)

Posteri Mathau o Destun: (Cymraeg: A5281)

Cardiau Mathau o Destun: (Cymraeg: A5282)
- Gwybodaeth
- Perswadio
- Trafodaeth
- Esboniad
- Cyfarwyddiadau
- Ailgyfrif

Cardiau Cyngor: *Priflythrennau* (A1677)

DFEN posteri enwogion i ysgolion uwchradd (set o dri) (A2297)
DFEN Rydym wedi bod yn darllen (A2135)
Cerdyn Treigladau (A1669)
Posteri Treigladau (A1734)

## Gwefannau defnyddiol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Estyn
www.estyn.gov.uk

Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd (CiLT Cymru)
www.ciltcymru.org.uk

Academi
www.academi.org

GCaD Cymru
www.ngfl-cymru.org.uk

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r athrawon, ysgolion a'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi ein helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS hefyd ddiolch i'r dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr am roi caniatâd i atgynhyrchu eu gwaith yn y canllawiau.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd yn y llyfryn hwn:

Amgueddfa Cymru (tudalen 110)